



monmouthshire
sir fynwy

Hunanasesiad Cyngor Sir Fynwy 2025-26



Rheoli Fersiwn

Teitl	Hunanasesiad Cyngor Sir Fynwy 2025/26
Diben	Hunanasesu nodau a threfniadau'r Cyngor fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
Perchennog	Prif Swyddog – Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau
Cymeradwywyd gan	
Dyddiad	Medi 2026
Rhif Fersiwn	0.3
Statws	Cymeradwywyd
Amllder Adolygu	Blynnyddol
Dyddiad Adolygiad Nesaf	2027
Ymgynghori	Cabinet Tîm Arweinyddiaeth Strategol Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio Fforwm Sgwrsio



Cynnwys	
Rheoli Fersiwn	1
Cyflwyniad	3
Ein Hunan-asesiad.....	4
Deall ein lle lleol.....	5
Ein Canlyniadau	7
Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle Teg i Fyw.....	8
Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle Gwyrdd i Fyw	16
Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle sy'n Ffynnu ac sy'n Uchelgeisiol	24
Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle Diogel i Fyw	32
Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle Cysylltiedig lle mae Pobl yn Gofalu	39
Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle sy'n Dysgu	48
Defnyddio ein Adnoddau	58
Asesiad y Panel o Berfformiad	69
Ein gwaith gydag eraill.....	70
Ein Camau Gweithredu	71
Cynnydd ar Gamau Gweithredu 2024/25	71
Meysydd Newydd i'w Datblygu 2025/26: Beth a sut fedrwn ni wneud yn well?	72
Camau Gweithredu o Asesiad y Panel o Berfformiad	72
Mesurau Perfformiad	75
Yr hyn y gwnaethom ei wario yn 2025/26.....	85
Yr hyn a ddywedodd dinasyddion	86
Yr hyn a ddywedodd Rheoleiddwyr ac Arolygwyr	90
Atodiad 1 – Proses hunanasesiad	93

Caiff ein huchelgais ar gyfer Cyngor Sir Fynwy a'r bobl y mae'n eu gwasanaethu eu nodi yn ein Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Rydym eisiau bod yn sir carbon-sero, gan gefnogi llesiant, iechyd ac urddas i bawb ar bob cyfnod o fywyd. Byddwn yn gwneud hyn drwy weithio gyda, ac wrth ochr, ein cymunedau. Mae'r rhain yn nodau uchelgeisiol ac mae'n hanfodol ein bod yn olrhain a gwerthuso ein cynnydd. Rydym yn glir am yr hyn y dymunwn ei gyflawni ac mae'r hunanasesiad hwn yn arf hollbwysig wrth ein helpu i gyflawni hynny . Bydd hyn yn sicrhau y gallwn ymateb i newid mewn amgylchiadau a chyfleoedd ac, yn bwysicaf oll, gael ein dal yn atebol am ba mor dda yr ydym yn gwneud.

Mae cynghorau lleol yn darparu ystod eang o wasanaethau. Caiff rhai, tebyg i ffyrdd a chasglu gwastraff, eu defnyddio gan bawb, mae eraill, tebyg i ofal cymdeithasol yno ar adegau o angen. Bydd llawer o'n gwasanaethau yn gweithredu fel rhaff ddiogelwch pan mae pobl ar eu mwyaf bregus neu cânt eu targedu at y difreintiedig. Mae eraill, tebyg i ysgolion, yno i helpu pobl ifanc i gael y dechrau gorau mewn bywyd a maent yn sicrhau ein bod yn addysgu a datblygu'r genhedlaeth nesaf o breswylwyr Sir Fynwy. Ni all y gwerthusiad hwn roi sylw i bob un gwasanaeth. Mae gennym bwyllgorau craffu a chynlluniau busnes i alluogi ein cynghorwyr i ddal uwch swyddogion ac aelodau'r Cabinet i gyfrif am y rheiny. Yn hytrach, mae ei brif ffocws ar ba mor dda yr ydym wedi cyflawni y chwe nod llesiant a gaiff eu disgrifio yn ein Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol.

EIN PWRPAS

Dod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi llesiant, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o fywyd

EIN HAMCANION

Yn lle Teg	Yn lle Gwyrdd	Yn lle Ffyniannus ac Uchelgeisiol	Yn lle Diogel	Yn lle sydd wedi'i Gysylltu	Yn lle i Ddysgu
i fyw gydag effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi cael eu lleihau	i fyw a gweithio, gyda llai o allyriadau carbon, ac yn gwneud cyfraniad positif er mwyn mynd i'r afael gyda'r argyfwng hinsawdd a natur	gyda chanol trefi sydd yn hyfwrw a bod busnesau yn medru tyfu a datblygu	i fyw, gyda phobl yn meddu ar gartref a chymuned lle y maent yn teimlo'n ddiogel	gyda phobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac wedi eu gwerthfawrogi	gyda phawb yn cael y cyfle i wireddu eu potensial

Mae'r adroddiad hefyd yn gwerthuso rhai o'r agweddau llywodraethiant allweddol sy'n sylfaen i'n gwaith tebyg i effeithlonrwydd ein cynllunio gweithlu, defnydd asedau a'n trefniadau rheolaeth ariannol. Mae'n gydnaws â'r Datganiad Llywodraethiant Blyneddol, a gaiff ei gydlynu gan ein Prif Archwilydd Mewnol ar ran y tîm arweinyddiaeth, ac yn defnyddio gwaith archwilio ac arolygu a gynhaliwyd gan reoleiddwyr yn cynnwys Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Fel llawer o wasanaethau cyhoeddus yr ydym yn wynebu pwysau ar y gyllideb fel canlyniad i gynydd mewn costau a galw cynyddol. Gwnaethom ddegau o filiynau o bunnoedd o arbedion mewn blynyddoedd diweddar. Bu'n rhaid i ni gymryd penderfyniadau anodd i gael mantolén gytbwys ond gwnawn hyn bob



amser gan gofio am anghenion cymunedau. Mae'r gwerthusiad hwn yn ein helpu i ddeall effaith y newidiadau a wnawn ac yn ein galluogi i ddysgu ohonynt fel y gallwn ymdrechu i sicrhau gwelliant parhaus yn yr hyn a wnawn.

Ein Hunan-asesiad

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gadw eu perfformiad dan adolygiad trwy hunanasesiad. Mae angen i ni gyhoeddi adroddiad yn nodi casgliadau'r hunanasesiad unwaith bob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn bennaf edrych yn ôl dros y cyfnod rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026. Mae hefyd yn cyfeirio at effaith gronns newidiadau ers 2022 pan wnaethom ddechrau datblygu ein Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol.

Mae hunanasesiad effeithlon yn helpu'r cyngor i ddysgu'n barhaus ac i gyflawni gwelliant cynaliadwy a gwell canlyniadau ar gyfer dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a'i weithlu ei hun. Mae hyn yn canolbwyntio ar dri chwestiwn:

- Pa mor dda ydyn ni yn gwneud?
- Sut ydyn ni'n gwybod?
- Beth a sut allwn ni ei wneud yn well?

Mae hyn wedi ei integreiddio â'n trefniadau adrodd blynyddol ar y cynnydd a'r effaith a gawsom wrth gyflawni ein hamcanion llesiant, sy'n ofyniad dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae manylion pellach ar broses yr hunanasesiad ar gael yn Atodiad 2. Rydym hefyd wedi cynhyrchu crynodeb byr o'r asesiad hwn.

Croesawn farn preswylwyr am yr asesiad hwn ynghyd ag unrhyw feysydd o'n gwaith yr ydych yn meddwl y dylid eu hystyried gan y pwyllgorau craffu sy'n dal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif. Gallwch gysylltu â ni drwy:

 improvement@monmouthshire.gov.uk

 Matthew Gatehouse, Prif Swyddog Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Brynbuga, NP15 1GA

 @MonmouthshireCC



Deall ein lle lleol

Mae Sir Fynwy yn sir amrywiol. Fel cyngor mae angen i ni sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ystod eang o grwpiau, o breswylwyr i fusnesau. Ymdrechwn i ddeall yn well yr heriau sy'n wynebu ein preswylwyr.

Rydym yn gweithredu mewn cyd-destun cymhleth. Mae cael dealltwriaeth glir a chyfredol o lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Sir Fynwy yn hanfodol ar gyfer y cyngor i lywio ei ddiben a blaenoriaethau.

Lle lleol

Pa mor dda ydyn ni'n deall ein cyd-destun lleol a'n lle ac a yw hyn llywio ein diben a'n blaenoriaethau?	Sut ydyn ni'n gwybod?
Mae gan y cyngor ddealltwriaeth dda o lesiant ei breswylwyr. Rydym yn defnyddio ac yn dadansoddi ystod o wybodaeth ystadegol, yn cynnwys data ar iechyd, incwm a'r economi leol. Fe wnaethom hefyd gynnal arolwg o breswylwyr, a gafodd fwy na 1,000 ymateb. Mae'r canfyddiadau wedi ein helpu i ddeall barn preswylwyr am eu hardal leol, y cyngor a'u cyswllt gyda gwasanaethau'r cyngor. Mae'r arolwg yn un ffordd y casglwn farn preswylwyr. Mae'n eistedd wrth ochr adborth a gasglwyd gan wasanaethau unigol, sy'n rhoi golwg fanylach ar brofiadau pobl o wasanaethau'r cyngor. Mae gwasanaethau fel gofal cymdeithasol, llyfrgelloedd, addasiadau tai a rheoli adeiladu hefyd yn casglu adborth drwy arolygon defnyddwyr. Fodd bynnag, oherwydd lled ein cyfrifoldebau, sylweddolwn nad oes gennym eto ddealltwriaeth gynhwysfawr o ba mor dda mae gwasanaethau a pholisïau yn diwallu anghenion y bobl sy'n eu defnyddio. Daeth Archwilio Cymru hefyd i'r casgliad, fel cynghorau eraill, fod angen i ni wneud mwy i ddeall effaith ein gwasanaethau ar breswylwyr. Fe wnaethom gefnogi arolwg Gwneud eich Marc yn 2025 a gafodd 3,509 ymateb gan bobl ifanc, y nifer fwyaf eto. Cynhaliwyd cynhadledd ieuenctid ym Mai 2025, yn dod â phobl ifanc o ysgolion ar draws y sir ynghyd i ymchwilio tri maes blaenoriaeth a ddynodwyd yn yr arolwg: costau byw, iechyd meddwl a sgiliau a chyflogaeth. Fe wnaeth hyn alluogi pobl ifanc i ddatblygu argymhellion ar gyfer gwneuthurwyr penderfyniadau, gwasanaethau cyhoeddus a'r bobl ifanc eu hunain i symud ymlaen â nhw dros y flwyddyn nesaf.	Arolwg Cenedlaethol o Breswylwyr Arolygon Cwsmeriaid Adroddiad Archwilio Cymru - <i>Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau</i> Arolwg Gwneud eich Marc Gwybodaeth o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a ffynonellau eraill Sgwrsio am Sir Fynwy Asesiad Anghenion Poblogaeth Asesiad a Chynllun Llesiant Gwent Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol



Mae ein 46 cynghorydd ward yn cynrychioli eu cymunedau ac yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth leol. Cefnogir hyn gan fforymau sydd ar agor i'r cyhoedd mewn

Bob pum mlynedd, rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid ar draws Gwent i gynnal asesiad manwl o lesiant ac asesiad o anghenion y boblogaeth. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent wedi ymgysylltu'n eang wrth ddatblygu asesiad a chynllun llesiant yr ardal.



Ein Canlyniadau

Mae'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 yn cynnwys chwe amcan llesiant sy'n canolbwyntio ar ddyfodol tymor hwy y sir ac yn anelu i ymdrin â heriau cymhleth, yn unol â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Wrth asesu perfformiad y chwech amcan, rydym wedi ystyried y graddau:

- Y mae ein nodau'n cyfrannu at gyflawni'r saith nod llesiant a ddynodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Yr ydym yn cymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni.
- Y maent yn parhau yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy y pum ffordd o weithio. Rhoddir mwy o fanylion am y ffordd y mae'r pum ffordd o weithio yn cael eu gweithredu yn y cynnydd ar bob nod yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Mae'n bwysig i ganlyniadau beidio â chael eu hystyried yn ynysig gan y gallant effeithio ar ei gilydd a bod angen iddynt gael eu hystyried mewn modd integredig. Dangosir sut y maent yn integreiddio â'i gilydd yn Atodiad 1.

Rhoddwyd yr eiconau canlynol i ddarlunio cyfraniad pob amcan at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:



Cymru lewyrchus



Cymru iachach



Diwylliant bywiog a'r
Gymraeg yn ffynnu



Cymru gydnherth



Cymru sy'n fwy cyfartal



Cymru o gymunedau
cydlynus



Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang

Mae natur tymor hir ein amcanion yn golygu efallai na ellir dangos effeithiau rhai gweithgareddau yn glir dros gyfnod byr, a dim ond dros y tymor hwy y bydd rhai gweithgareddau yn cael effaith. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, yr ydym wedi asesu pob un o'n hamcanion ar raddfa 1-6 ar sail yr egwyddorion canlynol.

Lefel	Diffiniad	Disgrifiad
6	Rhagorol	Rhagorol neu eithriadol – yr holl dulliau mesur perfformiad wedi cyrraedd y targed a osodwyd a'r holl weithredoedd wedi eu cyflawni
5	Da lawn	Cryfderau pwysig – mwyafrif sylweddol o'r camau gweithredu a'r mesurau yn eu lle. Dim mwy nag un neu ddau yn disgyn yn brin
4	Da	Cryfderau pwysig gyda rhai meysydd i'w gwella – mae pwysau'r dystiolaeth yn dangos bod y llwyddiannau yn fwy na'r meysydd nad ydynt wedi eu cyflawni
3	Digonol	Cryfderau yn fwy o ychydig na'r gwendidau – mae'r dystiolaeth am lwyddiant ychydig yn fwy na'r meysydd nad ydynt yn eu lle. Rhai camau gweithredu yn hwyr a rhai dulliau mesur yn brin o'r targedau a gynlluniwyd
2	Gwan	Gwendidau pwysig – nid yw mwyafrif y dulliau mesur a'r camau gweithredu wedi cael eu cyflawni
1	Anfoddhaol	Gwendidau mawr – yn y rhan fwyaf o feysydd, mae'r perfformiad yn cael ei asesu fel bod yn symud i'r cyfeiriad anghywir ac ni chafodd mwyafrif llethol y camau gweithredu eu cyflawni

Caiff canllaw yn defnyddio dyluniad y templed a ddefnyddiwyd, ac ystyr pob adran, fel atodiad i'r hunan-asesiad.

Lle teg i fyw



Amcan Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle Teg i Fyw

Yr hyn y dymunwn ei gyflawni:

- Gwella cyfleoedd bywyd ar gyfer pobl waeth beth fo'u hincwm neu gefndir.
- Preswylwyr yn cael mynediad gwell i wasanaethau'r cyngor a'r cymorth sydd ei angen i fyw bywyd iach.
- Gall dinasyddion gymryd rhan pan mae'r cyngor a'r gymuned yn gwneud penderfyniadau a chymryd camau gweithredu sy'n eu galluogi i siapio eu dyfodol eu hunain.

Ein sgôr:
4 (Da)

Asesiad Strategol

Ni ddylai neb gael eu gadael ar ôl yn Sir Fynwy na theimlo nad yw eu llais yn cyfri. Mae llawer o'n preswylwyr yn gefnog ac yn alluog iawn i fedru gofalu amdanynt eu hunain a'u hanwyliaid, ond nid yw hyn yn wir ar gyfer pawb ac, mewn sir wledig, gall diffyg cydraddoldeb gael ei guddio'n haws nag mewn ardaloedd trefol. Mae ein ffocws felly ar wella cyfleoedd bywyd, gostwng effeithiau tlodi ac anfantais a sicrhau y gall preswylwyr gael mynediad i gymorth, gwella eu hiechyd a helpu i lunio dyfodol eu cymunedau.

Mae ystod eang o wasanaethau cyngor yn cyfrannu at wneud Sir Fynwy yn Lle teg i fyw. Mae hyn yn cynnwys blynyddoedd cynnar a chymorth i deuluoedd, ysgolion a chymorth i ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, gwasanaethau hamdden a diwylliant, ein gwasanaeth budd-daliadau, gofal cymdeithasol a gwasanaethau diogelu. Mae'r gwasanaethau hyn yn helpu preswylwyr i gael mynediad i gyfleoedd, aros yn iach, teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac adeiladu cymunedau cryfach a mwy gwydn.

Mae ein harolwg o breswylwyr yn dangos lefelau uchel o fodlonrwydd. Byddai 90 y cant o ymatebwyr yn argymhell Sir Fynwy fel Lle i fyw, a 74% yn fodlon iawn neu weddol fodlon gyda'u hardal leol. Mae'r arolwg hefyd yn dangos cysylltiadau cymunedol cryf, gyda 79% o breswylwyr yn dweud fod pobl yn eu hardal yn tynnu ymlaen yn dda ac yn helpu ei gilydd, a 66% yn dweud fod pobl yn tynnu ynghyd i wella'r ardal leol. Dengys hyn fod preswylwyr yn parhau i gefnogi ei gilydd a chyfrannu mewn modd cadarnhaol at eu cymunedau.

Gwyddom nad yw hyn bob amser yn wir i bawb a drwy'r amcan hwn rydym wedi cynyddu'r cymorth a roddwn i breswylwyr i wella eu cyfleoedd bywyd a galluogi ein cymunedau i ddatblygu'r lleoedd y maent yn byw ynddynt. Rydym wedi ehangu darpariaeth gofal plant, cynyddu nifer y plant cymwys sy'n cael mynediad i addysg gynnar o 82% i 97% ers 2022/23, a pharhau i ganolbwyntio Dechrau'n Deg lle mae'r angen mwyaf. Aethom tu hwnt i'n dyletswydd statudol drwy ddarparu brecwast a hefyd ginio wedi'i goginio'n ffres am ddim i bob disgybl cynradd sy'n dewis eu derbyn. Cynyddodd y defnydd o brydau ysgol am ddim i bawb o 64% yn 2022/23 i 68/6% yn 2025/26,

er fod hyn yn dal i amrywio rhwng ardaloedd ac mae angen gwaith pellach wedi ei dargedu. Rydym hefyd wedi parhau i roi cymorth ymarferol i'r rhai sydd fwyaf ei angen drwy gynlluniau wedi eu targedu tebyg i Bwyd a Hwyl, darpariaeth chwarae am ddim neu sy'n derbyn cymhorthdal, mannau twym, cymorth bwyd argyfwng a chymorth ymarferol gyda chostau byw mewn cymunedau ar draws y sir.

Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd da wrth wella mynediad i wasanaethau a chyfleoedd sy'n cefnogi iechyd, cyfranogiad a chynhwysiant. Rydym wedi ymrwymo i ddod yn rhanbarth Marmot, cynyddu nifer y bobl sy'n cwblhau'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff ac agor Hyb Cymunedol Magwyr a Gwndy. Rydym wedi cryfhau capasiti gwirfoddol a chymunedol lleol drwy'r rhaglen Be Community, lansio Sgwrsio am Sir Fynwy i wella ymgysylltu, sicrhau statws Lefel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd a dod y Cyngor Noddfa cyntaf yng Nghymru i gael achrediad.

Mae ein tystiolaeth yn dangos cryfderau pwysig, gyda llawer o gerrig milltir wedi eu cwblhau, cynyddu cymorth i breswylwyr, cynnydd mewn iechyd a chyfranogiad cymunedol ac amrywiaeth o wasanaethau yn addasu i ddiwallu anghenion. Fodd bynnag, rydym wedi dynodi rhai meysydd ar gyfer gwella. Mae angen i ni sicrhau y caiff ein ymyriadau eu cyfathrebu'n glir, eu targedu'n well ac y cânt eu gwerthuso mewn modd mwy cyson. Mae angen i ni gynyddu'r defnydd o gymorth lle mae'r diffyg cydraddoldeb mwyaf a pharhau i weithio gyda chymunedau i ddatblygu dealltwriaeth a gaiff ei rannu o wydnwch cymunedol.



Lle Teg i Fyw		
	Sgôr Gwerthusiad:	Lefel 4 Da – Cryfderau pwysig gyda rhai meysydd i'w gwella – mae pwysau'r dystiolaeth yn dangos fod y llwyddiannau yn fwy na'r meysydd nad ydynt wedi eu cyflawni. Rydym wedi cynyddu'r cymorth a roddwn i breswylwyr i wella eu cyfleoedd bywyd a galluogi ein cymunedau i ddatblygu'r lleoedd y maent yn byw ynddynt. Gosodwyd cynlluniau i gyflawni'r rhan fwyaf o'r hyn yr anelwn ei wneud. Rydym wedi addasu ac ehangu ein gwasanaethau a chyflwyno ystod o brosiectau i gefnogi preswylwyr sydd angen hynny. Mae angen i ni sicrhau y caiff ein holl ymyriadau i gyflawni'r amcan hwn eu targedu, eu cyfathrebu'n glir a'u gwerthuso i asesu effaith ar ein hamcanion.
	Pam fod gennym ni ffocws ar hyn?	Ni ddylai neb gael eu gadael ar ôl yn Sir Fynwy na theimlo nad yw eu llais yn cyfrif. Mae llawer o'n preswylwyr yn gefnog ac yn alluog iawn i edrych ar ôl eu hunain a'u hanwyliaid. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir am bawb, ac mewn sir wledig mae diffyg cydraddoldeb yn aml yn cael ei guddio'n haws nag mewn mannau trefol. Byddwn yn cynyddu dwyster ein gwaith i helpu'r rhai sydd angen cymorth i fyw'r bywyd y mae arnynt ei eisiau.
Pa mor dda ydyn ni'n cyflawni'r canlyniadau a gytunwyd gennym?		Sut ydyn ni'n gwybod?
Yr hyn y dymunwn ei gyflawni: Gwella cyfleoedd bywyd ar gyfer pobl waeth beth fo'u hincwm neu cefndir		
Rydym yn cefnogi teuluoedd mewn gwaith gyda'n cynnig gofal plant yn Sir Fynwy. Rydym wedi cynyddu nifer y lleoliadau gofal plant o 94 i 97 yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi sefydlu lleoliad gofal plant newydd yn Ysgol Gynradd Tryleg a chyflwyno Achos Cyfiawnhad Busnes llawn i Lywodraeth Cymru ar gyfer lleoliad newydd yn Ysgol Gynradd Archesgob Rowan Williams. Rydym hefyd wedi cynyddu nifer y plant cymwys sy'n cael mynediad i Addysg Gynnar o 82% i 97% ers 22/23. Rydym wedi parhau ein hymrwymiad i sicrhau fod darpariaeth Dechrau'n Deg ar gael ar gyfer rhieni yn y rhannau o'r sir sydd fwyaf angen hynny. Rydym yn datblygu ein cynnig Dechrau'n Deg yn seiliedig ar alw. Nid oes unrhyw blant cymwys mewn rhai lleoliadau ar hyn o bryd a dewisant beidio cynnig y gwasanaeth. Mae hyn wedi cyfrannu at ostyngiad bach drwyddi draw yn nifer y lleoliadau Dechrau'n Deg, o 45 i 43. Mae ehangu'r cynnig gofal plant gennym yn cefnogi teuluoedd yn Sir Fynwy i gael mynediad i ofal plant ac i rieni ddychwelyd i'r gwaith. Rydym yn ymroddedig i ddarparu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae nifer y plant sy'n derbyn addysg gynnar cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu gan 25% yn ystod 25/26, o 74 i 93. Rydym wedi wynebu heriau wrth ddatblygu lleoliadau Cylch Meithrin ychwanegol oherwydd cyfyngiadau ar ofod safleoedd ac ansicrwydd am leoliad parhaol yr ysgol Gymraeg yn Nhrefynwy. Mae hyn wedi golygu na all teuluoedd yn Nhrefynwy a Chas-gwent gael mynediad i ofal plant cyfrwng Cymraeg hyd yma, yn cynnwys Dechrau'n Deg. Rydym wedi datblygu'r Cylch Meithrin presennol i gynnig lleoedd Dechrau'n Deg i gefnogi teuluoedd yn y cyfamser tra datblygir dull gweithredu tymor hirach. Anelwn sicrhau y gallwn ateb y galw cynyddol am addysg gynnar cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Aethom tu hwnt i'n dyletswydd statudol i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd drwy ddarparu brecwast a phryd o fwyd newydd ei goginio am ddim amser cinio i bawb sy'n dewis eu derbyn. Ar hyn o bryd, mae 68.6% o ddisgyblion yn derbyn prydau, i fyny o 64% yn 22/23. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i dderbyn prydau iach yn rhad ac am ddim yn yr ysgol. Mae hyn hefyd yn helpu i ostwng ansicrwydd bwyd a gwella tegwch mewn deilliannau iechyd ac addysg. Rydym yn parhau i hyrwyddo prydau ysgol am ddim i bawb, fodd bynnag, gwelsom wahaniaethau yn y galw rhwng ardaloedd. Mae hyn yn golygu nad yw pob plentyn a fedrai gael budd o brydau ysgol am ddim yn eu derbyn. Rydym wedi llunio rhestr wedi'i thargedu o ysgolion yn defnyddio data ar amddifadedd, cymhwyster am brydau ysgol am ddim ac anghenion		Nifer y lleoedd gofal plant a Dechrau'n Deg Galw am brydau ysgol am ddim Cynllun Gweithredu Tîm Datblygu Cymunedol Arbedion carbon ac ariannol o lyfrgell pethau Benthyc

dysgu ychwanegol i geisio cynyddu'r galw lle bydd yn cael y gwahaniaeth mwyaf. Gwyddom fod bwyd maethlon o fudd i blant a phobl ifanc drwy wella eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl, sy'n cynyddu eu gallu i ddysgu a thyfu. Gwyddom y gall rhai teuluoedd hefyd fod angen cymorth gyda phrydau bwyd yn ystod gwyliau ysgol. Rydym wedi parhau i gyflwyno ein rhaglen Bwyd a Hwyl i gefnogi teuluoedd yn ystod y cyfnodau hyn. Rydym wedi gweithio gydag ysgolion i ddynodi plant a fedrai gael y budd mwyaf o'r ddarpariaeth, gan sicrhau fod ein cynnig wedi ei dargedu. Mae'r rhaglen yn cynnig dau bryd o fwyd iach a gweithgareddau ar gyfer plant yn ystod gwyliau'r haf, gan anelu i ostwng y baich ariannol ar deuluoedd a hyrwyddo iechyd a llesiant plant drwy weithgaredd corfforol. Fe wnaethom sicrhau presenoldeb o 6,377 a gweini 12,849 pryd o fwyd yn ystod haf 25/26. Rydym yn sicrhau fod gan blant fynediad i weithgareddau a chwarae, waeth beth yw eu cefndir. Rydym wedi parhau i gyflwyno ein rhaglen o ddarpariaeth chwarae rhad ac am ddim neu ar gymhorthdal drwy MonLife. Cafodd 2,217 o blant fudd o'r gwasanaeth hwn eleni. Rydym wedi adnewyddu ein hardaloedd chwarae awyr agored a pharciau i sicrhau fod chwarae a gweithgareddau ar gael i blant heb ddim cost. Deallwn fod costau byw yn dal yn rhy uchel i lawer o bobl. Rydym wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar gyflenwi cymorth ymarferol y gall preswylwyr gael mynediad uniongyrchol iddo yn eu trefi a'u cymunedau. Rydym wedi cynnal 46 digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd ar draws y sir, gyda 1,213 o bobl yn eu mynychu. Fe wnaeth y digwyddiadau hyn helpu pobl i ddod o hyd i gymorth lleol, cael cyngor a chysylltu â gweithgareddau sy'n gwella llesiant a gostwng ynysigrwydd. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cefnogi'r rhaglen Mannau Twym a gyflwynodd 32 man twym, gan gynnal 868 sesiwn ar gyfer 1,238 o fynychwyr, a darparu 10,315 pryd bwyd/lluniaeth ynghyd â chyngor a gweithgaredd cyfoethogi mewn safleoedd. Fe wnaethom hefyd gefnogi darpariaeth bwyd drwy Gymorth Bwyd Argyfwng. Fe wnaethom gefnogi 14 o sefydliadau ar gyfer darpariaeth haf a 21 ar gyfer darpariaeth gaeaf, yn cynnwys £2,400 ar gyfer talebau ar gyfer bwyd o archfarchnadoedd mewn argyfwng drwy Gyngor Ar Bopeth Sir Fynwy. Rydym wedi parhau i cefnogi prosiectau economi gylchol. Rydym wedi cefnogi llyfrgelloedd pethau Benthyc ar draws y sir sy'n golygu y gall preswylwyr fenthycu neu brynu pethau mai dim ond weithiau y maent yn eu defnyddio, gan gefnogi'r amgylchedd a gostwng costau. Mae ein cynlluniau wedi arbed tua £100,000 i breswylwyr ers agor ym mis Ebrill 2022, yn ogystal â rhoi arbediad carbon o 45,841kg. Rydym yn parhau ein hymrwymiad i gynlluniau ehangach yr economi gylchol sy'n helpu pobl ar incwm is i ostwng gwariant. Mae hyn yn cynnwys ein caffes trwsio, siopau ffeirio a gweithdai trwsio beiciau.	
Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni: Preswylwyr â gwell mynediad i wasanaethau cyngor a'r gefnogaeth sydd ei angen i fyw bywyd iach	
Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill i ostwng diffyg cydraddoldeb annheg ac anghyfiawn mewn iechyd. Rydym wedi ymrwymo i ddod yn rhanbarth Marmot a sylweddolwn fod yr amodau y caiff pobl eu geni ynddynt a lle maent yn tyfu, byw, gweithio a heneiddio yn ffactor bwysig yn eu hiechyd. Rydym wedi parhau i helpu preswylwyr i wella eu lefelau iechyd a ffitrwydd drwy'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff. Mae hwn yn gynllun cenedlaethol a gynlluniwyd i wella iechyd a llesiant unigolion gyda chyflyrau cronig neu'r rhai mewn risg. Rydym wedi cefnogi 522 o bobl i gwblhau'r cynllun eleni, cynnydd o 456 yn 24/25. Dywedodd y rhai a gwblhaodd y cynllun fod eu cydbwysedd, lefelau ffitrwydd ac annibyniaeth, ac yn bwysig eu hiechyd meddwl, wedi gwella. Drwyddi draw, dywedodd 75% o bobl fod eu llesiant cyffredinol wedi gwella a'u bod yn teimlo'n fwy hapus ar ôl gorffen y cynllun. Mae profiad cadarnhaol y rhai a gymerodd ran wedi arwain at gynnydd mewn aelodaeth Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff yn ein canolfannau hamdden dros y degawd diwethaf o 300 yn 2015 i 1,134 yn 2025. Rydym yn sicrhau fod ein gwasanaethau hamdden yn hygyrch i bob preswilydd waeth beth yw eu hincwm drwy ein cynllun Pasbort i Hamdden sy'n cynnig gostyngiad i breswylwyr sy'n derbyn budd-daliadau.	Darpariaeth Chwarae Gwyliau Ysgol Cynllun Bwyd a Hwyl Cwblhau Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff Strategaeth Ddiwylliannol

Rydym wedi gweithio gyda'r sector creadigol yn Sir Fynwy i ddatblygu ein Strategaeth Ddiwylliannol. Fe wnaethom hwyluso gweithdai gyda sefydliadau lleol a chenedlaethol a'r sector creadigol ac economaidd, a chynnal ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft. Mae Strategaeth Ddiwylliannol 2025-2035 Sir Fynwy yn amlinellu cynllun gyda gweledigaeth ar gyfer y degawd nesaf. Mae'r strategaeth yn tanlinellu nad ymdrech ar ben ei hun yw diwylliant, ond ei fod yn sbardun allweddol ar gyfer llesiant, twf economaidd, gwynnwch cymunedol a hunaniaeth torfol.

CYNLLUN CENEDLAETHOL I ATGYFEIRIO CLEIFION I WNEUD YMARFER CORFF

Caiff y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Ei nod yw gwella bywydau oedolion sydd mewn risg o ddatblygu neu sy'n byw ar hyn o bryd gyda chyflyrau cronig drwy system 16-wythnos wedi ei strwythuro o weithgaredd corfforol. Caiff cleifion eu hatgyfeirio i'r cynllun gan eu meddyg teulu.

Cafodd Philip ei atgyfeirio at NERS yn dilyn trawiad calon a wnaeth ei adael yn teimlo'n ansicr. Yn dilyn ei drawiad calon, roedd Philip yn ei chael yn anodd cerdded ac yn colli ei wynt yn gyflym. Drwy ei ddosbarth NERS, mae Philip wedi medru cynyddu ei adferiad ac adennill ei nerth. Dywedodd mai'r rhaglen yw'r "peth gorau i fi" a'i fod wedi "rhoi fy mywyd yn ôl i fi", gan ei alluogi i adennill ei nerth a'i hyder. Pan ofynnwyd iddo os byddai'n argymhell y rhaglen i eraill, dywedodd Philip y byddai'n argymhell y rhaglen yn fawr iawn i eraill yn ei sefyllfa i'w galluogi i ddychwelyd i'r pethau y gallent ei wneud o'r blaen.

Mae nodau ffitrwydd Philip ar gyfer y dyfodol yn cynnwys parhau i fynychu ei ddosbarthiadau'r Cynllun Cenedlaethol a Fit4Life ddwywaith yr wythnos i gadw ei ffitrwydd a pharhau â'i adferiad.

Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni: Dinasyddion yn medru cymryd rhan pan fydd y cyngor a'r gymuned yn gwneud penderfyniadau a chymryd camau gweithredu sy'n eu galluogi i lunio eu dyfodol eu hunain.

Rydym yn ffodus i fod â lefelau uchel o gyfalaf cymdeithasol yn Sir Fynwy. Rydym eisiau sicrhau ein bod yn ymgysylltu gyda'n cymuned ragorol o wirfoddolwyr. Rydym yn cryfhau capasiti gwirfoddoli a chymunedol lleol drwy'r rhaglen Be Community, sy'n anelu i roi'r sgiliau a gwybodaeth mae unigolion eu hangen i wneud gwahaniaeth ystyrlon. Fe wnaethom gefnogi 122 sefydliad a chyflwyno 48 cyfle hyfforddiant drwy gydol y flwyddyn i helpu meithrin capasiti cymunedol. Dywedodd bron bawb a gymerodd ran yn ein rhaglen fod eu sgiliau a'u hyder wedi gwella. Mae ein ffocws ar weithio gyda'n cymunedau i dyfu gwydnwch cymunedol ymhellach. Dangosodd ein harolwg o breswylwyr fod 66% yn teimlo fod pobl yn eu hardal leol yn dod ynghyd i wella'r ardal leol. Dengys hyn fod preswylwyr yn parhau i gefnogi eu lle lleol yn Sir Fynwy.

Cawsom arolwg yn ddiweddar gan banel o gymheiriaid allanol i asesu sut y gweithredwn fel Cyngor. Argymhellodd y panel ein bod yn gweithio'n agos gyda chymunedau a gwirfoddolwyr i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o wydnwch cymunedol. I fynd i'r afael â hyn, rydym wedi datblygu set o gamau gweithredu sy'n cynnwys cyd-gynhyrchu diffiniad ymarferol o wydnwch cymunedol gyda'n rhanddeiliaid a symud o ymgysylltu eang i waith a gweithredu wedi'u targedu gyda grwpiau cymunedol.

Rydym wedi lansio 'Sgwrsio am Sir Fynwy' fel llwyfan ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth fwy eglur i breswylwyr ac yn un lle i ymweld ag ef ar gyfer ymgynghoriadau ar-lein ar draws yr holl sefydliad i sicrhau nad yw preswylwyr yn colli'r cyfle i gymryd rhan. Hyd yma, mae 930 o breswylwyr wedi cofrestru i dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd. Dangosodd ein harolwg o breswylwyr bod 39% o ymatebwyr yn teimlo fod y cyngor yn rhoi gwybodaeth dda i breswylwyr am ei wasanaethau a budd-daliadau, tra nad yw 55% yn teimlo

'Sgwrsio am Sir Fynwy'

Statws Cyflogwr
Hyderus o ran
Anabledd

Statws Sir Noddfa

Nifer y staff sy'n
cwblhau cyrsiau
Cymraeg

Nifer staff sydd â lefel o
allu i siarad Cymraeg

eu bod yn cael gwybodaeth dda. Mae angen i ni dyfu ein hymgysylltu ac annog mwy o breswylwyr i gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ar Sgwrsio am Sir Fynwy fel eu bod yn derbyn yr wybodaeth yn uniongyrchol.

Rydym yn ymroddedig i fynd i'r afael â diffyg cydraddoldeb. Rydym wedi ennill statws achrediad Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd (Lefel 2). Rydym wedi ymrwymo i annog busnesau lleol i gael achrediad fel cyflogwyr hyderus o ran anabledd. Mae nifer y busnesau ymroddedig i Hyderus o Ran Anabledd wedi gostwng o 39 i 27. Mae rhai o'r busnesau hyn wedi rhoi'r gorau i fasnachu yn ystod y cyfnod. Bu gostyngiad bach hefyd yn nifer y Cyflogwyr Anabledd, o 7 i 6. Rydym yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar raglen ymgysylltu ar draws yr awdurdod gyda mentrau bach a chanolig sydd â safleoedd yn Sir Fynwy. Bydd y gwaith hwn yn hyrwyddo ymrwymiad Hyderus o ran Anabledd ac arferion gwaith cynhwysol, gan anelu i gynyddu cyfleoedd yn y gweithle ar gyfer preswylwyr anabl.

Fe wnaeth y Cyngor basio cynnig ym mis Medi 2023 yn ein hymrwymo yn ffurfiol i ddod yn Sir Noddfa. Cafodd hyn ei sicrhau yn y diwedd yn ystod 2025-26 gyda Sir Fynwy yn dod y sir gyntaf yng Nghymru i gael achrediad Sir Noddfa gan gydnabod ein hymrwymiad i adeiladu cymunedau diogel, trugarog a gwydn.

Mae cefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn hanfodol i sicrhau ei thwf. Cynigiwn gyfleoedd i'n staff i wella eu sgiliau yn y Gymraeg; roedd 42 o aelodau staff yn cwblhau cwrs Cymraeg yn ystod 25/26. Ar hyn o bryd mae gennym 382 aelod o staff gyda rhyw lefel o sgiliau yn y Gymraeg y gallir eu defnyddio i ddarparu gwasanaeth Cymraeg i breswylwyr. Mae'r ganran o boblogaeth Sir Fynwy a all siarad Cymraeg wedi gostwng, o 21.3% i 19.7%. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ein sir.

Meysydd pellach i gael eu datblygu a ddynodwyd drwy ein hunan-asesiad 2025/26.

Gweithio gyda chymunedau a rhanddeiliaid i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o wydnwch cymunedol.

Yr effaith ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cyfraniad y Cyngor at Nodau Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol						
Cymru lewyrchus	Cymru gydnherth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
✓		✓	✓		✓	

Amcan Llesiant: Lle Teg i Fyw



Mae mabwysiadu dulliau gweithredu sydd â ffocws ar y gymuned yn hyrwyddo **cydweithio** fydd yn ei dro yn cefnogi llesiant. Drwy weithio gyda chymunedau, grymuso pobl a sicrhau y gallant gael mynediad i gymorth gobeithiwn **atal** problemau rhag digwydd. Mae digonedd o gyfleoedd yn ein sir, felly mae'n hanfodol y gall pawb **gymryd rhan** i uchafu buddion llesiant. Dylai hyn gael budd **hirdymor** ar gyfer unigolion a chymunedau. Mae gan ein camau gweithredu fudd **integredig** ar gyfer llawer o agweddau o'r Ddeddf, byddant yn hyrwyddo Cymru o gymunedau cydlynus a drwyddi draw, helpu i greu Cymru sy'n fwy cyfartal.

Mesurau cynnydd

Carreg filltir	Targed ar gyfer cwblhau	Cynnydd
Y Cabinet yn cymeradwyo cynllun gweithredu newydd ar dlodi a diffyg cydraddoldeb.	Rhagfyr 2024	Cytunwyd nad strategaeth newydd neu gynllun gweithredu ffurfiol ar drechu tlodi ac diffyg cydraddoldeb yw'r dewis a ffafrir. Yn hytrach, rydym wedi sicrhau bod ffocws ar fynd i'r afael â thlodi a diffyg cydraddoldeb yn cael ei roi yn y prif ffrwd drwy ein holl strategaethau a chynllunio.
Pob un o'r pedwar llyfrgell bethau yn gweithredu'n llawn.	Mawrth 2025	Mae pob safle yn gweithredu ar hyn o bryd.
Sefydlu dau Gylch Meithrin ychwanegol.	Sefydlu'r cyntaf ym Medi 2025, a'r ail yn Ionawr 2027	Ni chawsant eu sefydlu fel y bwriadwyd oherwydd diffyg safle addas.
Sefydlu lleoliadau gofal plant ar safleoedd Ysgol Gynradd Archesgob Rowan Williams ac Ysgol Gynradd Tryleg	Sefydlu safle Tryleg erbyn Mawrth 2025 ac Archesgob Rowan Williams erbyn Ionawr 2027	Cafodd y lleoliad yn Ysgol Gynradd Tryleg ei orffen erbyn hyn. Cyflwynwyd achos busnes ar gyfer y safle yn Ysgol Gynradd Archesgob Rowan Williams i Lywodraeth Cymru.
Agor Hyb Cymunedol Magwyr a Gwndy	Awst 2023	Wedi ei gwblhau erbyn hyn.
Y Cabinet yn cymeradwyo Strategaeth Ddiwylliannol gynhwysol newydd.	Mawrth 2025	Wedi ei gwblhau erbyn hyn.
Sicrhau Statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd	Mehefin 2024	Wedi ei gwblhau erbyn hyn
Sicrhau Statws Sir Noddfa	Rhagfyr 2024	Wedi ei gwblhau erbyn hyn

Mesur	Blaenorol ¹	Diweddaraf ²	Targed ar gyfer 2025/26	Golwg Gyflym	Sylwadau
Canran disgyblion sy'n dewis derbyn prydau ysgol am ddim i bawb	75	68.6	77	↓	Dyma'r ffigur ar ddiwedd Mawrth 2026
i) Yr arbediad ariannol i gymunedau (£) ii) Arbediad carbon (Kg Co2) o eitemau a fenthycwyd drwy Lyfrgell Pethau Benthyc	i) 28,028 ii) 12,402	i) 41,986 ii) 18,199	i) 20,000 ii) 10,000	↑	Mae'r ffigurau hyn yn cyfeirio at arbedion blynyddol
Canran pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair neu fwy o weithiau yr wythnos.	42	43	45		Mae'r ffigur blaenorol ar gyfer y flwyddyn 2021/22, a'r diweddaraf ar gyfer 2022/23. Mae hyn yn seiliedig ar ddata cenedlaethol. Mae'r golofn Golwg Gyflym yn wag gan nad oes gennym ddata diweddar ar gael i'w asesu.
Nifer y plant sy'n manteisio o ddarpariaethau chwaraeon rhad ac am ddim neu ar gymhorthdal MonLife	2,463	2,217	3,708	↓	Mae newidiadau i gyllid a pharmedrau rhai cynlluniau yn y set data wedi arwain at ostyngiad yn nifer y plant sy'n cael mynediad i gynlluniau. Fel canlyniad, caiff y targedau eu hadolygu i sicrhau eu bod yn addas.
Nifer cyflogwyr lleol sy'n gwneud yr ymrwymiad cyflogwr hyderus o ran anabledd.	46	33	70	↓	Mae rhai busnesau a wnaeth yr ymrwymiad hyderus o ran anabledd wedi peidio masnachu erbyn hyn. Rydym yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gynyddu nifer y busnesau sy'n gwneud yr ymrwymiad.
Canran pobl sy'n gwirfoddoli	32	39	40		Y ffigur blaenorol yw 2019/20, y diweddaraf yw 2022/23. Mae hyn yn seiliedig ar ddata cenedlaethol. Mae'r golofn Golwg Gyflym yn wag gan nad oes gennym ddata diweddar ar gael i'w asesu.
Canran y boblogaeth a all siarad Cymraeg	21.3	19.7	18	↓	Mesurir drwy arolwg cenedlaethol. Mae'r ffigur blaenorol ar gyfer Mawrth 2025, y diweddaraf ar gyfer Rhagfyr 2025. Bu gwelliant cyffredinol ers dechrau'r cynllun pan nododd 18.4% y gallent siarad Cymraeg.

Golwg Gyflym ar y Tueddiad: ↑ Perfformiad yn gwella; ↓ Perfformiad yn gostwng; ↔ Dim newid yn y perfformiad
Golwg Gyflym ar y Targed: **Gwyrdd** – Targed a gyflawnwyd; **Oren** – colli'r targed o ychydig; **Coch** – gryn dipyn yn fyr

¹ Mae'r data blaenorol yn 2024/25 os na nodir fel arall.

² Mae'r data diweddaraf yn 2025/26 os na nodir fel arall.

Lle Gwyrdd i Fyw



Amcan y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle gwyrdd i fyw

Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni:

- Gweithrediadau'r Cyngor yn sero net erbyn 2030 a chymunedau lleol yn cael eu cefnogi i ostwng eu ôl-troed carbon eu hunain
- Adfer natur, gwella iechyd yr amgylchedd ac afonydd
- Arferion amaethyddiaeth a ffermio lleol cynaliadwy gyda gwasanaethau cyhoeddus a phreswylwyr yn bwyta ac yfed mwy o gynnyrch lleol a thymhorol

Ein sgôr:
4 (Da)

Asesiad Strategol

Mae amgylchedd naturiol Sir Fynwy yn ganolog i'n hansawdd bywyd, hunaniaeth leol ac economi ymwelwyr. Mae angen i ni ddiogelu a chadw tirweddau eithriadol y sir, gwella bioamrywiaeth ac iechyd afonydd, gostwng allyriadau carbon a chynyddu gwydnwch i newid hinsawdd. Mae'r rhain yn heriau cymhleth a hirdymor a bydd effaith llawn ein gweithredoedd yn cymryd amser, ond mae'n hanfodol ein bod yn parhau i weithredu nawr i ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.

Mae ystod eang o wasanaethau'r cyngor yn cyfrannu at wneud Sir Fynwy yn lle gwyrdd i fyw. Maent yn cynnwys gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu, rheoli ystâd ac adeiladau, trafndiaeth a gwasanaethau fflyd, cynllunio a datblygu cymunedol. Mae'r gwasanaethau hyn yn helpu i ostwng allyriadau, diogelu a gwella'r amgylchedd a galluogi preswylwyr a chymunedau i chwarae eu rhan wrth greu Sir Fynwy wyrddach.

Yn gyffredinol, mae barn preswylwyr am Sir Fynwy fel lle gwyrdd i fyw yn gadarnhaol. Dywedodd 59% o breswylwyr fod gan eu hardal leol amgylchedd glân, dywedodd 65% fod ansawdd aer lleol yn dda a dywedodd 75% fod digon o ofodau gwyrdd yn eu hardal.


Rydym wedi adnewyddu ein Strategaeth Argyfwng Hinsawdd a Natur a'i throsi yn gynlluniau gweithredu cliriach. Rydym wedi cwblhau arolygon datgarboneiddio gan roi'r costau ar draws ein ystâd a gostwng allyriadau ystâd gan 17.8% o linell sylfaen 2019/20. Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn technolegau carbon isel, ynni adnewyddadwy a cherbydau allyriad isel iawn. Rydym hefyd wedi cynyddu ein perfformiad ailgylchu, gyda 73.4% o wastraff bwrdeisiol yn cael ei anfon ar gyfer ailgylchu, ailddefnyddio neu gompostio, yn uwch na'n targed, a dengys asesiad annibynnol fod ein gwaith ar ostwng gwastraff a bwyd yn neilltuoel o gryf.

Dengys ein tystiolaeth fod maint yr her i gyflawni ein huchelgais ar ddatgarboneiddio yn parhau yn sylweddol. Mae hyn yn ddarlun tebyg ar draws y Deyrnas Unedig. Cynyddodd cyfanswm allyriadau rhwng 2022/23 a 2024/25, yn bennaf oherwydd gweithgaredd caffael ac adeiladu, ac nid yw ein cyfradd bresennol o ostyngiad yn ddigonol i gyrraedd sero net erbyn 2030 heb fuddsoddiad pellach sylweddol. Gwnaethom gynnydd pwysig ac yn adeiladu'r dystiolaeth, cynlluniau a phartneriaethau sydd eu hangen ar gyfer y cam nesaf, ond mae'r llwybr i sero net yn parhau yn heriol tu hwn.

Gwnaethom gynnydd da wrth gefnogi adferiad natur, gwella gwydnwch amgylcheddol a chryfhau systemau bwyd lleol. Rydym wedi gwella 47 hectar o dir cyhoeddus ar gyfer bioamrywiaeth, cyflwyno 13 prosiect seilwaith gwyrdd, cefnogi 25 prosiect adfer natur a pharhau i weithio drwy bartneriaethau dalgylch a natur i wella cynefinoedd ac iechyd afonydd. Rydym wedi datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth, adfer natur, afonydd a risg llifogydd, ac wedi parhau i gefnogi cymunedau drwy brosiectau seiliedig ar natur a gweithgaredd gofod gwyrdd lleol.

Rydym wedi datblygu Strategaeth Fwyd Lleol ac wedi gwneud cynnydd ymarferol ar fwyd cynaliadwy. Rydym wedi gwella neu ddiwygio dros 220 llain rhandir a chafodd mwy na 200,000 dogn o lysiau organig Cymreig eu cyflenwi i ddisgyblion drwy gynllun Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion.

Mae ein tystiolaeth yn dangos cryfderau pwysig sy'n drech na meysydd na chafodd eu cwblhau hyd yma. Sylweddolwn fod iechyd afonydd yn parhau yn bryder sylweddol ac mae canfyddiadau rhai preswylwyr o'r amgylchedd leol yn is. Sylweddolwn hefyd faint yr her i ostwng ein allyriadau carbon a'r adnoddau i sicrhau newid ar y cyflymder sydd ei angen.



Lle Gwyrdd i Fyw		
Yn Lle Gwyrdd 	Sgôr Gwerthusiad:	Lefel 4 Da – Cryfderau pwysig gyda rhai meysydd i'w gwella – mae pwysau'r dystiolaeth yn dangos fod y llwyddiannau yn fwy na'r meysydd nad ydynt wedi eu cyflawni. Rydym yn parhau i weithredu prosiectau sy'n cyfrannu at gyflawni ein nod. Mae ystod ein gwaith yn ein helpu i ddeall maint yr her a'r llwybr sydd angen i ni ei ddilyn i gyrraedd ein nodau am sero net. Rydym wedi cefnogi adferiad natur a gwella iechyd afonydd. Rydym hefyd yn galluogi defnyddio mwy o gynnyrch lleol a thymhorol. Rydym yn parhau yn uchelgeisiol yn ein nod o ddod yn sero net erbyn 2030. Fodd bynnag, os nad oes buddsoddiad cyhoeddus sylweddol, mae'r dystiolaeth a gasglwn yn awgrymu y bydd yn heriol iawn i gyrraedd ein targed.
Pam fod gennym ni ffocws ar hyn? Mae newid hinsawdd, colli natur a dirywiad mewn bioamrywiaeth ymysg yr heriau mwyaf sylweddol sy'n wynebu ein cymunedau, economi a llesiant. Amgylchedd naturiol Sir Fynwy yw un o'i chryfderau mwyaf, gan lunio'r lleoedd y mae pobl yn eu gwerthfawrogi, cefnogi iechyd a llesiant, cynnal bwyd lleol a ffermio, ac yn sylfaen i'n twristiaeth a'r economi ymwelwyr. Mae tywydd eithafol mwy aml, mwy o risg llifogydd, cynnydd mewn tymheredd a phwysau ar gynefinoedd eisoes yn effeithio ar bobl, lleoedd a gwasanaethau. Ar yr un pryd, mae colli natur a bioamrywiaeth yn gwanhau'r ecosystemau y dibynnwn arnynt am aer lân, dŵr, bwyd, storio carbon a gwydnwch i effeithiau hinsawdd. Sylweddolwn yr angen i ddiogelu ac adfer yr amgylchedd naturiol, gostwng allyriadau carbon, cefnogi adferiad natur ac addasu i effeithiau hinsawdd na fedrir eu hosgoi. Bydd hyn yn sicrhau y gall cenedlaethau'r dyfodol barhau i fwynhau a chael budd o dirweddau rhagorol a threftadaeth naturiol cyfoethog Sir Fynwy.		
Pa mor dda ydyn ni'n cyflawni'r canlyniadau a gytunwyd gennym?		Sut ydyn ni'n gwybod?
Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni: Gweithrediadau'r Cyngor yn sero net erbyn 2030 a chymunedau lleol yn cael eu cefnogi i ostwng eu ôl-troed carbon eu hunain		
Rydym yn gweithredu'n lleol i ostwng ein allyriadau carbon a chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd. Fel llawer o gyrff cyhoeddus eraill, rydym yn wynebu heriau systemig i gyrraedd ein huchelgais o gyflawni sero net erbyn 2030. Fodd bynnag, rydym yn gwneud cynnydd da gyda'r adnoddau sydd ar gael. Rydym wedi cwblhau arolygon datgarboneiddio a phennu costau ar draws ein ystâd. Rydym yn eu defnyddio i ddatblygu cynllun datgarboneiddio ystâd, strategaeth gwres carbon a Strategaeth Ddatgarboneiddio ehangach i gyflawni ein huchelgais Sero Net. Rydym hefyd yn gwella ein defnydd o ddata rheoli ynni mewnol ac argaeledd hynny. Gwnawn hyn i ddynodi safleoedd gydag allyriadau uchel a datblygu polisi ynni corfforaethol i gefnogi llai o ddefnydd a gwell rheoli carbon. Rydym wedi buddsoddi mewn technolegau carbon isel tebyg i ddefnyddio ynni adnewyddadwy i ostwng allyriadau o'n ystâd. Rydym wedi gostwng allyriadau ein ystâd gan 17.8% o linell sylfaen 2019/20. Rydym wedi sefydlu gweithgor anffurfiol o rhanddeiliaid i gydlyn mwy o gyfleoedd i ddefnyddio modelau darpariaeth amgen a galluoedd i ostwng ein allyriadau. Rydym yn datblygu Ailffitio Cam 2, sydd â ffocws ar fwy o effeithiolrwydd ynni a phrosiectau adnewyddadwy ar gyfer ein adeiladau. Rydym wedi nodi'r Cynllun Ynni Ardal Leol a luniwyd ar y cyd gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae hyn yn amlinellu camau gweithredu ar gyfer agweddau allanol o'n pontio ynni lleol, yn ogystal ag ymuno camau gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol. Rydym wedi buddsoddi mewn trosi ein fflyd i gerbydau allyriad isel iawn (ULEV). Rydym wedi cynyddu canran ein fflyd ULEV o 8% yn 22/23 i 17.2% yn 25/26. Ni welsom newidiadau diriaethol i'r allyriadau o deithio ers 22/23 ac ers llinell sylfaen o 2019/20. Rydym yn datblygu cynllun trosi fflyd i		Strategaeth Argyfwng Hinsawdd a Natur Data adrodd allyriadau carbon Data ar ailgylchu a gwastraff Cynllun Ynni Ardal Leol Asesiad Argyfwng Hinsawdd y DU

gyflymu'r trosi. Rydym hefyd wedi gweithredu cynllun newydd ceir cronfa i gynyddu'r defnydd o rannu cerbydau, llai o filltiroedd busnes a chefnogi newid ymddygiad.

Cynyddodd cyfanswm allyriadau carbon rhwng 2022/23 a 2024/25. Roedd hyn yn bennaf oherwydd cynnydd mewn allyriadau o gaffael a'n cadwyni cyflenwi. Roedd hyn yn cynnwys datblygiad cartref gofal Parc Severn View ac ysgol 3-19 y Fenni sy'n niwtral o ran carbon. Er bod y gweithgareddau adeiladu hyn wedi cynyddu allyriadau dros dro, rydym wedi sicrhau y cafodd y ddau adeilad eu cynllunio i sicrhau'r effaith leiaf ar yr amgylchedd a gostwng allyriadau carbon yn yr hirdymor. Sylweddolwn nad yw'r gyfradd bresennol o ostyngiad yn ddigon i gyrraedd sero net erbyn 2030 oherwydd cymhlethdod yr her a chost uchel datgarboneiddio ein fflyd ac ystâd. Byddai angen buddsoddiad sylweddol pellach i drosi ar y cyflymder a ddymunir. Rydym wedi dynodi fod 87% o'n allyriadau yn gysylltiedig ag allyriadau yn dod o gaffael, staff yn teithio i'r gwaith a gweithgareddau tebyg. Mae hyn yn debyg i'r sefyllfa ar draws Cymru lle mae'r allyriadau hyn yn ffurfio 83% o gyfanswm allyriadau awdurdodau lleol. Bydd cyflawni sero net felly yn dibynnu ar ostwng ein allyriadau seiliedig ar gyflenwad, ynghyd â defnydd uniongyrchol o ynni yn adeiladau a fflyd y cyngor.

Rydym wedi diweddarau ac ehangu ein seilwaith gwefru cerbydau trydan (EVCI) mewn nifer o safleoedd ar draws y sir. Rydym wedi comisiynu adroddiad technegol i ragweld galw i sicrhau ein bod yn targedu lleoliadau addas. Defnyddiwn ganfyddiadau'r adroddiad hwn i ddatblygu strategaeth EVCI ar gyfer y sir fydd yn cynyddu'r argaeledd a'r hygyrchedd ar gyfer pob preswlydd. Bydd hyn yn cefnogi'r trosi i gerbydau trydan o fewn cymunedau, gan helpu i ostwng allyriadau.



Rydym wedi parhau i gefnogi aelwydydd incwm isel i gael mynediad i gyllid grant i wella effeithiolrwydd ynni eu cartrefi. Rydym yn hyrwyddo cynllun Eco4 sy'n darparu cyllid ar gyfer aelwydydd incwm isel a'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau meddygol a gaiff eu gwaethygu gan leithder neu oerfel i gael mynediad i welliannau effeithiolrwydd ynni.

Rydym wedi cynyddu cyfradd ailgylchu. Ar ddiwedd 25/26, cafodd 73.4% o wastraff bwrdeisiol ei anfon ar gyfer ailgylchu, ailddefnyddio neu gompostio. Roedd hyn yn uwch na'r targed statudol o 70% a'n targed mewnol o 72%. Fe wnaethom gyflawni hyn drwy i breswylwyr barhau i gymryd rhan mewn cynlluniau ailgylchu gan aelwydydd. Dangosodd ein harolwg o breswylwyr fod 68% o breswylwyr yn fodlon gyda gwasanaethau rheoli gwastraff. Ni gafodd y sgôr uchaf yn y Deyrnas Unedig ar gyfer Gostwng Gwastraff a Bwyd yn asesiad Climate Emergency UK, a gaiff ei redeg yn annibynnol, ar 93%. Rydym wedi dynodi fod faint o wastraff gweddilliol aelwydydd a gynhyrchir fesul person bob blwyddyn wedi cynyddu o 198k yn 2022/23 i 202kg yn 2024/25 ac mae'n parhau yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni: Adfer natur, gwella'r amgylchedd ac iechyd afonydd

Y byd naturiol yn ei holl agweddau yw cefnlen bywyd yn Sir Fynwy. Mae angen i ni wneud popeth a fedrwn i sicrhau y caiff ei ddiogelu a'i gadw.

Rydym wedi adolygu a diweddarau ein Strategaeth Argyfwng Hinsawdd a Natur i gynnwys cynllun gweithredu gwydnwch bioamrywiaeth ac ecosystemau. Mae hyn yn sicrhau fod bioamrywiaeth ac adferiad natur yn ganolog i'r hyn a wnawn i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Rydym wedi

Cynllun gweithredu gwydnwch

datblygu cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol i roi map trywydd ar gyfer ymdrechion cadwraeth lleol. Bydd y cynllun hwn yn cefnogi pawb, o unigolion a chymunedau i fusnesau a chadwraethwyr. Mae ein hymdrechion wedi arwain at wella 47 hectar o dir cyhoeddus ar gyfer bioamrywiaeth eleni. Ynghyd â'r gwaith hwn, rydym hefyd wedi datblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd. Drwy hyn anelwn greu rhwydwaith o ofodau gwyrdd i wella ein amgylchedd lleol a hefyd gefnogi iechyd preswylwyr a'u mynediad i ofod gwyrdd. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gyflwyno 13 prosiect Seilwaith Gwyrdd seiliedig ar natur ar draws y sir. Fe wnaeth y rhain sicrhau amrywiaeth o fuddion yn cynnwys gwydnwch ecosystem a lliniaru newid hinsawdd.

Rydym yn parhau i gymryd rhan weithgar mewn partneriaethau, yn cynnwys cydlynu Partneriaeth Natur Lleol Sir Fynwy a rolau ym mhartneriaeth dalgylch Afon Wysg. Rydym wedi cefnogi cyflwyno 25 prosiect adfer natur, yn cynnwys gwelliannau i ofodau gwyrdd, prynu peiriannau i hwyluso rheoli dolydd a pharhau i gyflwyno ein gwaith Natur Wyllt sy'n hyrwyddo rheolaeth ymwybodol o laswelltir i wella natur. Rydym wedi grymuso hyrwyddwyr natur lleol i gyflawni eu gweledigaeth bresennol ar gyfer gofodau gwyrdd lleol a'r gymuned ehangach i gynyddu bioamrywiaeth. Rydym wedi meithrin sgysiau gyda grwpiau cymunedol lleol am ddiogelu natur lleol a phlannu bioamrywiaeth a rhoi cyfleoedd i ysgolion cynradd a gwirfoddolwyr garddio helpu gyda gwella gofodau gwyrdd y tu allan i'w safleoedd arferol. Dengys ein harolwg o breswylwyr eu bod yn weddol fodlon gyda'r amgylchedd yn eu hardaloedd. Teimlai 59% o bobl fod gan eu hardal leol amgylchedd glân, dywedodd 65% fod ansawdd aer lleol yn dda a theimlai 75% fod digon o ofodau gwyrdd yn eu hardal. .

ASTUDIAETH NATUR – NATUR WYLLT

Mae Natur Wyllt yn ddull gweithredu sy'n ein hannog i gyd i newid y ffordd yr ydym yn rheoli glaswelltir ar ymylon ffyrdd, gofodau agored a pharciau er budd natur. Drwy ganiatau i ardaloedd glaswelltir dyfu rydym yn annog mwy o flodau gwyllt i fod yn eu blodau am fwy o amser, gan roi bwyd a chynffwrdd ar gyfer bywyd gwyllt a phryfed fel gwenyn a phili pala sy'n peillio. Yn ogystal â bod o fudd i natur, drwy alluogi planhigion i dyfu gwreiddiau mwy maent yn storio mwy o garbon yn y pridd ac yn helpu i liniaru newid hinsawdd. Mae gwreiddiau mwy hefyd yn creu mwy o aer yn y pridd ac yn helpu i ostwng effaith llifogydd.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda Grid Gwyrdd Gwent i gyflawni'r gwaith hwn ac yn ystod 2025/26 fe wnaethom reoli neu wella 47 hectar o dir cyhoeddus ar gyfer bioamrywiaeth. Dyma uchafswm ardal y tir cyhoeddus y gallwn ei gyflenwi. Mae ein hymdrechion yn helpu i adfer natur yn ein sir a gwella chydnerthedd ein hamgylchedd lleol.

Mae iechyd ein afonydd hefyd wedi dioddef mewn blynyddoedd diweddar. Roedd targedau ffosffad ar gyfer Afon Wysg yn methu ar gyfradd o 88% a'r targedau ar gyfer Afon Wysg yn methu ar 68%. Rydym wedi parhau i lobio dros newid ac mae Dŵr Cymru yn awr yn gosod cyfarpar tynnu ffosffadau i wella iechyd ein hafonydd. Mae gwelliannau i'w gweld eisoes, gyda rhan isaf Afon Gwy bellach heb ei dosbarthu fel methu ar gyfer lefelau ffosfforws. Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu yn dangos sut y byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i wella iechyd ein hafonydd a moroedd. Mae'r Grŵp Llywio Argyfwng a Natur yn monitro ei gynnydd. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned i wella iechyd afonydd ac ansawdd dŵr drwy weithredu ymarferol yn cynnwys tynnu rhywogaethau ymledol, clirio sbwriel a gweithgareddau cymunedol sy'n cynyddu dealltwriaeth o ecoleg afonydd. Rydym yn parhau i gefnogi gweithredu cydlynus drwy bartneriaethau yn cynnwys Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent a chydweithio ehangach rhwng Gwent a Chyfoeth Naturiol Cymru drwy raglenni tebyg i weithgareddau Afonydd LIFE, a gyflwynir drwy'r rhaglenni Rhwydweithiau Ecolegol Cydnerth yn ogystal â gweithgaredd gyda Phartneriaethau Dalgylch Afon Wysg ac Afon Gwy. Rydym hefyd yn cefnogi a chyflwyno gweithredu drwy Dirwedd Cenedlaethol Dyffryn Gwy, y Bartneriaeth Gwastadeddau Byw, Partneriaeth Aber Hafren ac ASERA

bioamrywiaeth ac ecosystemau

Cynllun Gweithredu Adfer Natur

Strategaeth Seilwaith Gwyrdd

(Cymdeithas Awdurdodau Perthnasol Aber Hafren). Gyda'i gilydd, mae'r trefniadau hyn yn cydlynu, rhannu tystiolaeth a llywodraethiant, ac yn helpu i sicrhau cyllid allanol a chyflenwi capasiti i gefnogi dyletswyddau statudol a blaenoriaethau a thargedau'r cyngor. Rydym wedi datblygu ac ymgynghori ar Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol a chynllun gweithredu sy'n asesu risg llifogydd ar ddull seiliedig ar ddalgylch a bydd yn dynodi Ardaloedd Risg Llifogydd Strategol ac yn cefnogi cydnerthedd cymunedol. Rydym wedi sicrhau cyllid allanol i weithio gyda phartneriaid i asesu dichonolrwydd dulliau rheoli llifogydd naturiol. Mae'r dull seiliedig ar natur hwn yn edrych ar reoli tir i fyny'r afon i ostwng risg llifogydd lawr yr afon. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i alw am amddiffynfeydd llifogydd a gwydnwch amgylcheddol ehangach ar gyfer ein prif afonydd. Rydym hefyd yn gweithredu fel y corff cymeradwyo Systemau Draeniad Cynaliadwy (SuDS) i sicrhau fod gan bob datblygiad newydd yn y sir system ddraeniad cynaliadwy yn ei lle, gan ostwng risg llifogydd tra hefyd yn darparu ansawdd dŵr a buddion bioamrywiaeth. Gyda digwyddiadau tywydd eithafol yn digwydd yn amlach, rydym yn deall yn well nag erioed bwysigrwydd cefnogi cymunedau sydd mewn risg o lifogydd. Rydym wedi datblygu cynlluniau argyfwng a ddiweddarwyd ar gyfer ymateb i lifogydd ar gyfer safleoedd ar draws y sir ac yn cysylltu'n rheolaidd gyda'n cymunedau drwy sesiynau un-i-un a chyfarfodydd cymunedol. Cafodd Storm Claudia effaith sylweddol ar ein cymunedau, yn arbennig yn Nhrefynwy, Ynysgynwraidd a'r Fenni. Sylweddolwn yr effaith a gafodd hyn ar breswylwyr a busnesau yn y Sir. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, i ddarparu cymorth ariannol i'r rhai yr effeithiwyd arnynt yn eu hadferiad. Rydym hefyd yn adolygu mesur diogeliad llifogydd ym mhob cymuned ac yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu mesurau diogelu gwell, o gofio fod digwyddiadau tywydd difrifol yn digwydd yn amlach.	
Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni: Amaethyddiaeth lleol ac arferion ffermio cynaliadwy gyda gwasanaethau cyhoeddus a phreswylwyr yn bwyta mwy o gynnyrch lleol a thymhorol	
Rydym wedi creu Strategaeth Bwyd Lleol i hwyluso mynediad i dir y cyngor ar gyfer tyfu bwyd ac wedi dyrannu tir ar gyfer defnydd cymunedol. Rydym wedi cefnogi Grant Cefnogi Rhandiroedd Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi gwella, creu neu adfywio dros 220 llain rhandir mewn chwe safle yn Sir Fynwy. Mae'r buddsoddiad hwn yn cynyddu mynediad i gynnyrch lleol, annog arferion bwyd cynaliadwy ar lefel aelwyd ac yn cefnogi canlyniadau iechyd a llesiant ehangach. Cyflwynwyd cais am Ddyfarniad Baner Werdd ym mis Ionawr 2026 ar gyfer Bwyd Bendigedig Brynbuga, gan gydnabod tyfu bwyd dan arweiniad y gymuned, cynlluniau rhannu ac addysg sy'n annog preswylwyr i dyfu, bwyta a gwerthfawrogi cynnyrch tymhorol lleol. Rydym wedi sicrhau cyllid allanol drwy Bartneriaeth Bwyd y Gororau i ehangu cyflenwi ein strategaeth. Rydym yn gweithio tuag at system bwyd lleol mwy cynaliadwy, gan gynyddu'r defnydd o gynnyrch lleol a thymhorol a ddefnyddiwyd ar draws ein gwasanaethau tra'n cryfhau cadwyni cyflenwi lleol a chefnogi ffermio cynaliadwy. Ar hyn o bryd mae 23% o'n gwariant bwyd ar gynnyrch o Gymru. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i gynyddu hyn. Mae cynlluniau wedi eu targedu yn dechrau symud y system ymhellach, yn arbennig yr rhaglen Llysiau ar gyfer Ysgolion Cymru, sy'n awr yn gweithredu mewn 10 ysgol, gan gyrraedd tua 2,100 o ddisgyblion a chyflenwi 180kg o gynnyrch lleol. Mae hyn yn rhoi cefnogaeth uniongyrchol i dyfwyr lleol ac yn ymwreiddio bwyd ffres, tymhorol mewn ysgolion, gan arddangos sut y gall caffael cyhoeddus hybu'r galw am gynnyrch lleol. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i gyflenwi bwyd lleol maethlon i ddisgyblion mewn ysgolion, waeth beth yw cefndir economaidd-gymdeithasol y disgyblion. Rydym hefyd wedi cefnogi datblygu safonau diogelwch a logisteg newydd, gan alluogi tyfwyr i ehangu a ffermwyr newydd i arallgyfeirio i arddwriaeth organig fel rhan o'r cynllun. Rydym yn cefnogi datblygu arferion ffermio mwy cynaliadwy. Mae rhaglenni wedi eu targedu wedi gweithio gyda ffermydd gyda dros 1,400 erw o dir rhyngddynt, gan sicrhau gwelliannau mewn iechyd pridd, gostwng mewnbynau cemegol a chynyddu arallgyfeirio. Caiff hyn ei ategu gan ymgysylltu ehangach, gyda 377 aelod yn y rhwydwaith ffermio ailwladychu lleol a mwy o ehangu ar y gweill drwy raglenni rhanbarthol y disgwylir y	Strategaeth Bwyd Lleol Grant Cefnogi Rhandiroedd Llywodraeth Cymru

byddant yn gweithio gyda tua 120 o ffermwyr. Mae ein cynlluniau yn cefnogi momentwm cynyddol tuag at reoli tir a chynhyrchu bwyd mewn dulliau mwy cynaliadwy ar draws y sir.	
--	--

Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol						
Cyfraniad nod y Cyngor at Nodau Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol						
Cymru lewyrchus	Cymru gydnerth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
	✓	✓		✓		✓
    Amcan llesiant: Lle gwyrdd i fyw Mae Sir Fynwy yn lle hardd, gydag amgylchedd naturiol ac adeiledig godidog. Mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd i sicrhau fod hyn ar gael i genedlaethau'r dyfodol i'w fwynhau felly mae'n rhaid i'n cynlluniau ganolbwyntio ar yr hirdymor a mynd ati i atal problemau rhag digwydd mewn blynyddoedd i ddod. Mae angen i bartneriaid a chymunedau gymryd rhan er mwyn cynyddu potensial yr amgylchedd i'r eithaf o fewn y sir. Bydd cydweithio gyda sefydliadau a all wella ein hamgylchedd yn rhoi arbenigedd ym mhob agwedd o'n gwaith, er enghraifft bydd hyn yn ein galluogi i dreialu'r technolegau diweddaraf mewn ynni adnewyddadwy. Mae creu ardal iach a gwydn i bobl ei mwynhau yn galw am integreiddio yr amcan hwn gan fod yr amgylchedd yn Sir Fynwy yn ffurfio rhan mor bwysig o gwblhau ystod o nodau.						
Mesurau cynnydd						
Carreg filltir	Targed ar gyfer cwblhau		Cynnydd			
Y Cabinet yn cymeradwyo strategaeth newydd ar yr argyfwng hinsawdd a natur.	Mai 2024			Cafodd hyn ei gwblhau erbyn hyn.		
Datblygu a chymeradwyo strategaeth bwyd	Mai 2024			Cafodd hyn ei gwblhau erbyn hyn.		
Cynyddu defnydd o gynnyrch tymhorol a/neu leol mewn ysgolion, cartrefi gofal a gofal yn y cartref	Mai 2026			Mae gwaith gyda phartneriaid yn mynd rhagddo i gynyddu'r defnydd o gynnyrch lleol a thymhorol mewn ysgolion a gweithgareddau chwarae ar draws y sir.		
Mesur	Blaenorol	Diweddaraf	Targed ar gyfer 2025/26	Golwg Gyflym	Sylw	
Allryiadau carbon (kgCO2e) o asedau a gweithrediadau y cyngor ⁱ	54,859	56,911	36,000	↓	Mae'r ffigur diweddaraf ar gyfer 2024/25, y ffigur blaenorol ar gyfer 2023/24. Caiff data 2025/26 ei gynnwys pan fydd ar gael. Mae'r cynnydd i raddau	

					oherwydd prosiectau adeiladu sylweddol tebyg i'r ysgol Sero Net yn y Fenni oedd yn gollwng carbon yn ystod y gwaith adeiladu ond fydd yn arwain at ostyngiad sylweddol mewn carbon dros gyfnod.
Canran o fflyd yr awdurdod lleol sydd ag allyriadau isel iawn	16.5	17.2	18	↑	
Capasiti (MW) offer ynni adnewyddadwy a osodwyd ar ystâd y cyngor	6.722	6.815	6.75	↑	Mae hwn yn ffigur cronrus. Mae'r ffigur diweddaraf ar gyfer 2024/25, y ffigur blaenorol ar gyfer 2023/24. Caiff data 2025/26 ei gynnwys pan fydd ar gael.
Swm (kwh) o ynni adnewyddadwy a gafodd ei gynhyrchu o safleoedd y cyngor	5.3m	5.5m	4.89m	↑	Mae hwn yn ffigur blynyddol. Mae'r ffigur diweddaraf ar gyfer 2024/25, y ffigur blaenorol ar gyfer 2023/24. Caiff data 2025/26 ei gynnwys pan fydd ar gael.
Canran gwastraff bwrdeisiol a anfonwyd i'w ailgylchu, aildddefnyddio neu gompostio	72.2	73.4	72	↑	Mae hyn yn ddata darpariaethol a all newid.

Golwg Gyflym ar y Tueddiad: ↑ Perfformiad yn gwella; ↓ Perfformiad yn gostwng; ↔ Dim newid yn y perfformiad

Golwg Gyflym ar y Targed: Gwyrdd – Targed a gyflawnwyd; Oren – colli'r targed o ychydig; Coch – gryn dipyn yn fyr

Lle ffynniannus ac uchelgeisiol



Amcan y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle sy'n Ffynnu ac yn Uchelgeisiol

Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni:

- Canol trefi bywiog sy'n dod â phobl ynghyd ac yn denu buddsodded
- Pobl o bob oed a chefnidir â'r sgiliau i wneud yn dda yn y gwaith neu ddechrau eu busnes eu hunain
- Trafnidiaeth a seilwaith cynaliadwy

**Ein sgôr:
4 (Da)**

Asesiad Strategol

Dylai Sir Fynwy fod yn fan lle gall pobl, busnesau a chymunedau ffynnu, lle mae canol trefi yn parhau'n brysur a chroesawgar, lle gall preswylwyr o bob oed ddatblygu'r sgiliau maent eu hangen i lwyddo a lle mae trafndiaeth a seilwaith da yn cysylltu pobl gyda chyfle. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod sir sy'n ffynnu ac yn uchelgeisiol yn cefnogi llewyrch, yn helpu i gadw pobl ifanc, yn cryfhau gwytnwch y gymuned ac yn ei gwneud yn rhwyddach i breswylwyr gael mynediad i waith, gwasanaethau a chyfleoedd diwylliannol. Mae Sir Fynwy yn dechrau o sefyllfa economaidd cymharol gryf, gyda lefelau uchel o ran cyflogaeth a chymwysterau, fodd bynnag nid yw pawb na phob man yn profi hyn yn gyfartal. Mae angen i ni adeiladu ar y cryfderau hyn mewn ffordd sy'n gynhwysol, cynaliadwy ac wedi ei wreiddio yn anghenion ein trefi a chymunedau.

Rydym yn gweld arwyddion cadarnhaol o gynnydd, tebyg i welliant yn ein sefyllfa economaidd fel y'i mesurir gan Fynegai Cystadleurwydd y Deyrnas Unedig. Dengys tystiolaeth fod gan Sir Fynwy boblogaeth gyda chymwysterau uchel ac economaidd weithgar gyda 57% o breswylwyr a chymwysterau i lefel 4 ac uwch a 79% o bobl yn economaidd weithgar, y ddau yn uwch na chyfartaleddau Cymru.

Mae ystod eang o wasanaethau yn cyfrannu at wneud Sir Fynwy yn lle sy'n ffynnu ac sy'n uchelgeisiol. Mae hyn yn cynnwys cynllunio ac adfywio, diwylliant a threftadaeth, twristiaeth, eiddo a rheoli asedau, priffyrdd a thrafnidiaeth, gwasanaethau digidol a seilwaith, addysg a dysgu gydol oes, a chymorth busnes a chyflogaeth. Gyda'i gilydd, maent yn helpu i greu'r amodau ar gyfer buddsoddi, cynyddu

apêl a swyddogaeth ein trefi, cefnogi menter a chyflogadwyedd, a galluogi preswylwyr i gael mynediad i gyfle a chymryd rhan ym mywyd economaidd a dinesig y sir.

Gwnaethom gynnydd da wrth roi'r strategaethau, partneriaethau a'r buddsoddiad ar waith sydd eu hangen i gyflawni'r amcan hwn. Rydym wedi gweithio gyda phreswylwyr, busnesau a chynghorau tref a chymuned i ddatblygu cynlluniau creu lle ar gyfer ein trefi, gan greu dealltwriaeth gliriach a gaiff ei rhannu o flaenoriaethau lleol a sail ar gyfer adfywio wedi ei dargedu. Rydym wedi cryfhau'r fframwaith strategol ar gyfer hyrwyddo'r sir drwy ein Cynllun Rheoli Cyrchfan ac wedi cysylltu hyn gyda gwaith ehangach tebyg i'r Strategaeth Ddiwylliannol. Rydym hefyd wedi parhau i ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i wella adeiladau yng nghanol trefi, asedau sy'n wynebu'r cyhoedd a'r cynnig i ymwelwyr. Mae hyn yn helpu i gynyddu nifer y bobl sy'n dod i'r trefi, cefnogi masnach lleol a gwneud ein trefi yn lleoedd mwy deniadol i fyw, gweithio ac ymweld.

Rydym yn adeiladu ar sylfaen sgiliau a chyflogaeth cryf Sir Fynwy gan ymateb i feysydd lle mae angen gweithredu sydd wedi ei dargedu yn fwy. Rydym wedi parhau i gefnogi preswylwyr i symud i waith, ennill cymwysterau a datblygu busnesau. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth rhaglenni a gefnogir gan y cyngor helpu 120 o bobl i gyflogaeth, a chafodd 90 o fusnesau cyn-cychwyn a busnesau presennol eu cefnogi a chreu 10 busnes newydd. Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd da yn cefnogi pobl ifanc sydd mewn risg o ymddieithrio o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, gyda 44 o bobl ifanc heb fod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET) wedi eu cefnogi i gyflogaeth. Mae'r gyfran o ymadawyr ysgol sy'n NEET yn parhau'n uwch nag a ddymunwn.

Gwyddom fod cadw pobl ifanc yn y sir yn parhau'n her oherwydd costau tai, presenoldeb gyfyngedig o ran addysg uwch a'r angen am lwybrau lleol cryfach i waith a hyfforddiant. Rydym wedi sicrhau fod gan ein Cynllun Datblygu Lleol Adnau Newydd ffocws ar fynd i'r afael â'r heriau hyn. Rydym wedi sicrhau cyllid i ddatblygu Canolfan Sgiliau newydd yn Sir Fynwy fydd hefyd yn helpu llwybrau ôl-16 i ddysgu.

Mae trafndiaeth a seilwaith yn parhau yn alluogwyr hollbwysig ar gyfer yr amcan yma. Mewn sir wledig gan fwyaf, gall diffyg trafndiaeth gyhoeddus gyfyngu mynediad i gyflogaeth, dysgu a gwasanaethau a gall ostwng buddion twf i rai cymunedau. Rydym wedi mabwysiadu Strategaeth Trafnidiaeth Leol newydd, cryfhau cynllunio trafndiaeth ranbarthol, sefydlu tîm prosiect seilwaith a sicrhau cyllid allanol sylweddol ar gyfer trafndiaeth a chynlluniau teithio llesol. Ers 2022, rydym wedi sicrhau £35 miliwn i weithredu prosiectau trafndiaeth. Rydym hefyd wedi sicrhau mwy na £24 miliwn ar gyfer teithio llesol, gyda mwy na 100 o lwybrau teithio llesol nawr yn eu lle a defnydd llwybrau yn cynyddu gan 4.1%. Rydym hefyd wedi gwella amllder bysiau mewn rhai ardal ac yn parhau i gefnogi cynigion rhanbarthol sylweddol ar gyfer rheilffyrdd a ffyrdd fyddai'n gwella cysylltedd.



Rydym yn parhau i wynebu heriau sylweddol mewn cynnal ein rhwydwaith priffyrdd. Gwelsom gyflwr ffyrdd yn gwaethygu ymhellach y gaeaf diwethaf ac mae cefnlwyth cynnal a chadw yn parhau tu hwnt i'r adnoddau sydd ar gael. Rydym wedi cymryd dull gweithredu wedi'i gynllunio i flaenoriaethu buddsoddiad, gan ymateb i angen argyfwng ac adolygu sut y caiff gwaith trwsio tyllau yn y ffyrdd ei wneud a sut y cyfathrebir hynny. Mae'r bwlch cyllid yn parhau'n sylweddol ac yn parhau i gyfyngu pa mor gyflym y gall cyflwr ffyrdd wella yn gyffredinol.

Lle sy'n Ffynnu ac yn Uchelgeisiol		
Yn Lle Ffyniannus ac Uchelgeisiol 	Sgôr gwerthusiad:	Lefel 4 – Da - Cryfderau pwysig gyda rhai meysydd ar gyfer gwella – mae pwysau'r dystiolaeth yn dangos fod y llwyddiannau yn fwy na'r meysydd na chafodd eu chyflawni. Rydym wedi datblygu ein strategaethau i gyflawni'r amcan: mae ein ffocws yn awr ar gyflawni'r rhain. Rydym wedi rhoi cymorth i breswylwyr a busnesau i ennill sgiliau newydd, datblygu a thyfu. Rydym wedi cyflwyno prosiectau i wella cysylltedd yn y Sir. Rydym yn adeiladu o sylfaen economaidd a sgiliau cryf. Dengys ein asesiad fod angen i ni dyfu'r sylfaen yma a rhoi cymorth a phrosiectau wedi eu targedu ar gyfer pobl, busnesau a'r mannau sydd fwyaf eu hangen.
	Pam fod gennym ni ffocws ar hyn? Mae ein man cychwyn yn un cymharol gryf. Mae gan Sir Fynwy economi leol gryf ac mae mewn lle da ar gyfer twf yn nhermau Cymru. Mae nerth mewn nifer o sectorau allweddol a gaiff eu hamlygu a'u cefnogi ar lefel genedlaethol. Mae cyfraddau cyflogaeth yn uchel, a felly hefyd lefelau cymwysterau. Ond gellir gwneud mwy. Gall Sir Fynwy fod yn fwy egniol. Mae'r amodau yn bodoli i gyflawni hyn. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i gynyddu buddsoddiad, gwella cysylltedd a pharhau i ddatblygu economi sy'n ffynnu, yn uchelgeisiol ac yn fentrus.	
Pa mor dda ydyn ni'n cyflawni y canlyniadau y gwnaethom eu cytuno?		Sut ydyn ni'n gwybod?
Yr hyn rydyn ni eisiau ei gyflawni: Canol trefi bywiog sy'n dod â phobl ynghyd ac yn denu buddsoddiad		
Mae denu preswylwyr ac ymwelwyr i'n canol trefi yn hanfodol ar gyfer yr economi leol. Rydym yn ymroddedig i sicrhau fod canol trefi yn parhau'n fannau bywiog a chroesawgar sy'n diwallu anghenion cymunedau lleol, busnesau ac ymwelwyr. Rydym yn gweithio i greu amgylchedd sy'n galluogi canol trefi, twristiaeth a busnesau i ffynnu. Rydym wedi gweithio gyda phreswylwyr, busnesau a chynghorau tref a chymuned i ddatblygu Cynlluniau Creu Lle ar gyfer pob un o'r chwe tref sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r canol trefi unigol. Cytunwyd yn ddiweddar ar gynlluniau ar gyfer Trefynwy, y Fenni a Magwyr gyda Gwndy, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar gynllun ar gyfer Cil-y-coed. Mae'r broses creu lle wedi cryfhau gweithio partneriaeth a chreu dealltwriaeth ar y cyd o heriau a chyfleoedd lleol. Mae'r grwpiau partneriaeth creu lle lleol sy'n cynnwys cynghorwyr tref a hefyd gynghorwyr sir wedi datblygu argymhellion ar sut y dylai'r cyllid sydd ar gael ei roi ar waith yn lleol yn 2026/27 i gefnogi blaenoriaethau trefi penodol. Caiff darpariaeth ei gefnogi gan gyllid Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru a Chronfa Effaith Balchder Bro Llywodraeth y DU, gan roi sylfaen gref ar gyfer gweithgaredd adfywio lleol ar draws canol trefi Sir Fynwy. Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn prosiectau sy'n cryfhau canol trefi, cynyddu nifer y bobl sy'n ymweld â chanol trefi a chefnogi busnesau lleol. Rydym wedi defnyddio cymorth o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i sicrhau gwelliannau i asedau sy'n wynebu ymwelwyr a'r cyhoedd. Rydym wedi defnyddio grantiau ar gyfer gweithgareddau twristiaeth a digwyddiadau sy'n helpu i ddod â mwy o bobl i ganol ein trefi a chefnogi masnach leol. Gwelodd ein hymdrechion gynnydd yn nifer yr ymwelwyr i'n safleoedd treftadaeth o 189,000 yn 24/25 i bron 245,000 yn 25/26. Rydym wedi datblygu Cynllun Rheoli Cyrchfan sy'n gosod fframwaith strategol clir ar gyfer rheoli a hyrwyddo Sir Fynwy fel cyrchfan. Rydym wedi cwblhau Asesiad Effaith Polisi Cyrchfan, gan ymgynghori gyda 30 busnes, i sicrhau fod ein dull gweithredu yn parhau i gael ei lywio gan wybodaeth leol ac anghenion busnesau. Bu cynnydd graddol parhaus mewn gwariant ac arosiadau ymwelwyr yn y sir. Rydym yn sicrhau fod cysylltiad agos rhwng ein strategaethau, yn cynnwys hefyd ein Strategaeth Ddiwylliannol, a'u bod yn cydweithio i feithrin yr amgylchedd cywir ar gyfer trefi ein sir.		Cynlluniau creu lle Cynllun rheoli cyrchfan

Rydym hefyd yn buddsoddi mewn asedau allweddol yng nghanol trefi. Ers 2022, rydym wedi sicrhau £2.4 miliwn o Grant Creu Lle Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru ac wedi defnyddio'r buddsoddiad hwn i wella neu ddod â bron 30 o adeiladau yng nghanol trefi yn ôl i ddefnydd a gwneud gwelliannau i wyneb siopau a'r parth cyhoeddus. Mae hyn yn uniongyrchol yn cryfhau ymddangosiad, defnydd a gwydnwch economaidd canol ein trefi. Rydym hefyd wedi sicrhau £2.2 miliwn arall o ffynonellau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau yn 2026/27, gan gadw'r momentwm ar gyfer adfywio a buddsoddiad yn y dyfodol.

ASTUDIAETH ACHOS – Y NEUADD SIROL

Rydym yn buddsoddi yn ein adeiladau hanesyddol yn y sir, gan sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Wedi'n cefnogi gan fuddsoddiad o £2.8 miliwn, yn cynnwys £1.5 miliwn o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, rydym yn adnewyddu'r Neuadd Sirol, adeilad amlwg iawn yn Sir Fynwy. Bydd y prosiect yn adfywio'r Neuadd Sirol fel amgueddfa gymunedol sy'n ysbrydoli ac yn hyb dysgu deinamig.

Mae'r newidiadau yn cynnwys: arddangosiadau blaengar yn dweud stori Trefynwy, gofodau dysgu hyblyg, storio gwrthrychau gweladwy a gwella amodau ar gyfer ein casgliadau o arwyddocâd rhyngwladol. Bydd uwchraddio'r system wresogi ac effeithiolrwydd ynni yn gwella cynaliadwyedd amgylcheddol, gan ostwng ôl-troed carbon yr adeilad hwn sydd â rhestriad Gradd 1. Bydd ailgynllunio gofodau manwerthu ac adnewyddu croeso i ymwelwyr yn gwella'r profiad i bawb, gan gefnogi adfywio Trefynwy a'r Cynllun Rheoli Cyrchfan; dileu rhwystrau corfforol, ariannol a chymdeithasol i fynediad, gan sicrhau fod y Neuadd Sirol yn ofod croesawgar i bawb.

Mae ymgynghori helaeth gydag ystod eang o gymunedau, yn cynnwys grwpiau lleiafrif ethnig ac unigolion yn byw gyda dementia, wedi llunio'r prosiect. Mae cynlluniau tebyg i'r Casgliadau Deinamig a Cymru Wrth-hiliol eisoes wedi arwain at arddangosfeydd wedi eu cyd-guradu a phrofiadau amgueddfa mwy cynhwysol. Bydd Panel Dinasyddion yn parhau i lywio arddangosfeydd a digwyddiadau yn y dyfodol, gan sicrhau cynrychiolaeth barhaus i'r gymuned.

Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni: Pobl o bob oedran a chefnidir â'r sgiliau i wneud yn dda yn y gwaith neu i ddechrau eu busnes eu hunain

Mae Sir Fynwy yn gwerthfawrogi ei holl ddinasyddion a'r bobl sy'n gweithio i'n busnesau. Yn 2023 fe wnaethom ddatblygu Strategaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau. Rydym yn ymroddedig i helpu pobl o bob oed a chefnidir i ddatblygu'r sgiliau y mae busnesau newydd a sefydledig eu hangen gan eu helpu i dyfu a ffynnu.

Rydym wedi parhau i gefnogi preswylwyr sydd eisiau dechrau neu dyfu eu busnesau drwy Busnes Sir Fynwy. Fe wnaethom gefnogi 90 o fusnesau cyn-cychwyn a busnesau presennol yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth wedi darparu cyngor, clinigau, cymorth rhwydweithio ac wedi ei deilwra i fusnesau cyn cychwyn a busnesau presennol, gan helpu mwy o breswylwyr i ddod yn aros i fusnes, symud ymlaen tuag at hunangyflogaeth a lansio busnesau newydd. Cafodd deg busnes newydd eu creu eleni fel canlyniad i'n cefnogaeth. Rydym wedi sicrhau ffocws ar ddatblygu ein perthynas gyda busnes ar draws y sir, gan gynnal digwyddiadau rhwydweithio i gysylltu ein amrywiaeth enfawr o fusnesau. Yn 2025/26, roedd 60% o fusnesau newydd Sir Fynwy yn dal yn weithredol ar ôl tair blynedd, o gymharu â 53% ar gyfer Cymru a 50% i Brydain Fawr. Byddwn yn parhau i gefnogi ein cymuned busnes ffyniannus i dyfu.

Cymorth i entrepreneuriaid a busnesau

Cymorth cyflogaeth

Cymorth i bobl ifanc NEET

Rydym wedi parhau i roi cymorth cyflogaeth a sgiliau wedi ei dargedu i helpu pobl i symud i waith, sicrhau cynnydd mewn cyflogaeth ac ennill cymwysterau newydd. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth rhaglenni a gefnogir gan y cyngor helpu 120 o bobl i gyflogaeth, mwy na'n targed o 82. Rydym wedi parhau i gefnogi meysydd lle mae prinder sgiliau tebyg i adeiladu drwy gefnogi preswylwyr drwy ein clwb galw heibio Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS). Rydym wedi galluogi'r bobl a gefnogwn i sicrhau 209 cymhwyster ac wedi cefnogi 254 o bobl i wella eu sgiliau. Rydym yn datblygu cynlluniau i Ganolfan Sgiliau Sir Fynwy fod yn lleoliad canolog ar gyfer preswylwyr o bob oed i ddatblygu sgiliau. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n ymadael â'r ysgol sy'n dymuno sicrhau cymwysterau galwedigaethol a phreswylwyr hŷn a all fod yn dymuno uwchsgilio neu newid gyrfa.

ASTUDIAETH ACHOS – RHAGLEN STEM

Ym mis Gorffennaf 2025 fe wnaethom lansio ein rhaglen STEM – Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg. Nod y rhaglen, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, yw denu busnesau newydd i Sir Fynwy a sefydlu cysylltiadau clir rhwng busnesau ac ysgolion, hyrwyddo dysgu STEM rhagorol ac ehangu llwybrau Ôl-16. Mae'r rhaglen hefyd yn ymchwilio os yw ymarferol i sefydlu canolfan prentisiaeth yn Sir Fynwy.

Drwy ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Cabinet, EAS, Coleg Gwent, busnesau lleol a phenaethiaid ysgolion (cynradd ac uwchradd), caiff rhaglen gynhwysfawr o adnoddau, hyfforddiant a chymorth ei datblygu. Bydd yr adnoddau ar gyfer pob ysgol yn cynnwys amrywiaeth o offer codio, roboteg, peirianeg ac argraffu 3D, a chaiff ei ategu gan raglen o rwydweithiau ysgol i ysgol, gweithdai dosbarth ac ymgysylltu busnes i helpu ymwreiddio STEM yn llawn yn y Cwricwlwm ysgol.

Ar draws y Deyrnas Unedig, mae nifer y bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn cynyddu. Mae hon yn broblem a wynebwn hefyd yn Sir Fynwy. Cefnogwn ein pobl ifanc i gael mynediad i hyfforddiant a chyflogaeth drwy ein strategaeth NEET. Rydym yn gweithio gyda phobl ifanc drwy ein rhaglen Ysbrydoli i'w helpu i aros mewn addysg lle'n bosibl neu i gefnogi symud i ddewis arall addas. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gefnogi 285 o bobl ifanc i ennill cymhwyster ychwanegol a/neu ennill sgil bywyd. Rydym wedi cefnogi cynllun peilot cyflogadwydd Ffocws Dyfodol 12-wythnos ar gyfer rhai 18-24 oed mewn partneriaeth gyda'r Ganolfan Byd Gwaith mewn ymateb i gynnydd mewn diweithdra pobl ifanc a rhwystrau hyder, gyda chohortau cynnar eisoes yn sicrhau cyflogaeth. Rydym yn parhau i wynebu heriau wrth sicrhau darpariaeth hyfforddiant addas ar gyfer ymadawyr ysgol. Rydym yn dal i weithio gyda chweched dosbarth ysgolion i ddatblygu llwybrau i gyflogaeth. Bydd datblygu Canolfan Sgiliau Sir Fynwy yn cefnogi ein gallu i sicrhau fod llwybrau ôl-16 addas ar gael. Drwy ein hymdrechion, rydym wedi cefnogi cyfanswm o 44 o bobl ifanc NEET i gyflogaeth, cynnydd ar 10 yn ystod 24/25. Yn gyffredinol, fe wnaeth y canran o ymadawyr Blwyddyn 11 oedd yn NEET ostwng o 3.1% i 2.5% yn y flwyddyn ddiwethaf, mae hyn yn parhau'n uwch na'r 1.8% yn 2023.

Dengys y data diweddaraf fod gan 57% o breswylwyr Sir Fynwy gymwysterau i lefel 4 y fframwaith cenedlaethol (y lefel uchaf), o gymharu â 45% ar gyfer Cymru a 48% ar gyfer Prydain Fawr. Mae'r gymhareb o swyddi i'r boblogaeth yn Sir Fynwy hefyd yn uwch na'r ffigurau ar gyfer Cymru, fodd bynnag ychydig yn is na'r Deyrnas Unedig i gyd. Rydym eisiau sicrhau fod cyfle i'n preswylwyr i weithio a thyfu o fewn y sir. Rydym wedi datblygu Cynllun Datblygu Lleol adnau newydd. Mae hyn yn rhoi sylw i safleoedd cyflogaeth newydd posibl ac yn anelu i fynd i'r afael â'r prinder safleoedd a welwyd



mewn blynnyddoedd diweddar. Mae arwyddion cadarnhaol o gynnydd yn economi Sir Fynwy, tebyg i welliant yn ein sefyllfa economaidd fel y caiff ei fesur gan Fynegai Cystadleurwydd y DU a lefelau cyson o bobl economaidd weithgar: mae 79% o bobl Sir Fynwy yn economaidd weithgar, sy'n uwch na'r gyfradd ar gyfer Cymru (76%).

Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni: Trafnidiaeth Gynaliadwy a Seilwaith

Mae trafndiaeth a seilwaith da yn hanfodol i'n cymunedau ac economi, gan alluogi mynediad i ystod eang o wasanaethau a chyfleoedd i bawb.

Fe wnaethom fabwysiadu Strategaeth Trafnidiaeth Leol newydd ym Mai 2024. Mae hyn yn gosod uchelgais glir ar gyfer seilwaith trafndiaeth yn Sir Fynwy dros y pum mlynedd nesaf. Mae hefyd wedi ein galluogi i gyfrannu at ddatblygu cynllun trafndiaeth rhanbarthol sy'n awr yn llywio sut y caiff cyllid trafndiaeth ei ddynnu yn y rhanbarth. Rydym wedi sefydlu tîm prosiect seilwaith i sicrhau fod yr holl raglenni gwaith trafndiaeth a phriffyrdd yn gydnaws i gynyddu buddion ychwanegol i'r eithaf a sicrhau y caiff yr holl gyllid ei ddefnyddio'n effeithlon. Ers 2022, rydym wedi sicrhau £35m i weithredu prosiectau trafndiaeth i wella mynediad, diogelwch a seilwaith. Mae gwaith yn cynnwys prosiectau gwydnwch ffyrdd i addasu gwasanaethau bws.

Dyrannodd Llywodraeth y DU £445m i alluogi gwelliannau seilwaith rheilffyrdd ar draws Cymru, yn cynnwys cyflwyno argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru. Bydd gwaith uwchraddio prif reilffordd De Cymru yn cynyddu amllder y gwasanaeth trên a darparu pump gorsaf reilffordd newydd – yn cynnwys Magwyr Rhodfa. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'n awdurdodau cyfagos i gyflawni argymhellion eraill y Comisiwn sy'n cynnwys darparu ffordd gyswllt newydd rhwng yr M48 a'r B4245 i wella cyfleusterau parcio a theithio yng ngorsaf reilffordd Cyffordd Twnnel Hafren.



Nid yw Sir Fynwy ar ben ei hun yn wynebu heriau yn cynnal ei phriffyrdd. Mae gennym gefnwlwyth sylweddol mewn cynnal a chadw ffyrdd, yn debyg i ardaloedd eraill ar draws y Deyrnas Unedig, a roedd dirywiad pellach yng nghyflwr ffyrdd drwy'r gaeaf diwethaf. Ni allwn fforddio ariannu yr holl welliannau angenrheidiol o'n cyllideb gyfalaf. Rydym yn comisiynu asesiadau annibynnol o seilwaith priffyrdd allweddol ac mae'r rhain wedi ein galluogi i roi blaenoriaeth i wariant cynnal a chadw yn unol â'n strategaeth cynnal a chadw. Rydym hefyd yn cynnal arolygon o ffyrdd a phalmentydd i gael dealltwriaeth fwy manwl o'u cyflwr. Defnyddiwn Gynllun Benthycia Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru i ganiatáu i ni fenthycia arian i gyllido nifer uwch o brosiectau gwella, er y bydd hyn yn dal i fethu ateb y bwlch cyllid a ddynodwyd. Rydym hefyd wedi cwblhau nifer o

atgyweiriadau a chynnal a chadw i'n rhwydwaith priffyrdd mewn ymateb i angen brys ac argyfwng. Rydym yn adolygu ein dull o atgyweirio tyllau mewn ffyrdd a byddwn yn cyflwyno'r canfyddiadau ym mis Medi 2026. Mae hyn yn cynnwys treialu gwahanol ddulliau o atgyweirio, adolygu blaenoriaethu a dyrannu cynlluniau a chynnyddu'r wybodaeth sydd ar gael i breswylwyr.

Rydym wedi parhau i ddefnyddio cyllid a ddyfarnwyd yn llwyddiannus gan Lywodraeth Cymru i ehangu seilwaith Teithio Llesol. Dros y pedair blynedd ddiwethaf rydym wedi sicrhau mwy na £24 miliwn mewn cyllid ar gyfer ein prosiectau Teithio Llesol. Mae gennym bellach dros 100 o lwybrau Teithio Llesol ar draws y sir, maent yn cynnwys llwybrau sy'n cysylltu ardaloedd preswyl gyda chanol trefi a chysylltiadau i hybiau a gwasanaethau trafndiaeth allweddol. Mae gennym 23 llwybr arall yn cael eu datblygu, yn cynnwys pont y Fenni – Llan-ffwyst. Rydym wedi sefydlu data monitro llinell sylfaen ar gyfer Teithio Llesol ar draws trefi allweddol dros nifer o flynyddoedd; dengys hyn bod defnydd y llwybrau hyn wedi cynyddu gan 4.1%, gan helpu mwy o bobl i ddefnyddio llai ar eu ceir a chynnwys mwy o weithgaredd corfforol mewn bywyd bob dydd.

Strategaeth
Trafndiaeth Leol

Cynnal a chadw
rhaglen priffyrdd
wedi ei chynllunio

Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol						
Cyfraniad nod y Cyngor at Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol						
Cymru lewyrchus	Cymru gydnherth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
✓	✓		✓	✓	✓	✓
Amcan Llesiant: Lle sy'n Ffynnu ac yn Uchelgeisiol      						
Anelir y nod hon at hyfywedd hirdymor Sir Fynwy fel ffyniannus i fyw, gweithio ac ymweld. Mae lleoliad Sir Fynwy fel y porth i dde ddwyrain Cymru yn golygu fod yn rhaid i ni groesawu gweithio gydag ardaloedd cyfagos i gynyddu cyfleoedd i'r eithaf. Mae cadw Sir Fynwy yn ffynnu a gyda chysylltiadau da yn hyrwyddo integreiddiad ac yn effeithio ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y sir. Mae hyn yn galw am gydweithio gyda busnesau lleol a sefydliadau eraill, ac ymgyfraniad y gymuned leol i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd. Mae ystyried llesiant byd-eang Cymru hefyd yn bwysig a bod y nod hon yn canolbwyntio ar sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud gyda chenedlaethau'r dyfodol mewn cof ac yn cymryd dull ataliol i alluogi cadw pobl ifanc.						
Mesurau cynnydd						
Carreg filltir	Targed ar gyfer cwblhau		Cynnydd			
Cynlluniau Creu Lle ar gyfer y Fenni, Magwyr gyda Gwndy a Threfynwy	Mawrth 2025			Cafodd hyn ei gwblhau erbyn hyn.		
Datblygu Strategaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau	Chwefror 2024			Cafodd hyn ei gwblhau erbyn hyn.		
Datblygu a chymeradwyo strategaeth NEET	Tachwedd 2024			Cafodd hyn ei gwblhau erbyn hyn.		
Cynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn cefnogi newid dulliau teithio	Mai 2024			Cafodd hyn ei gwblhau erbyn hyn..		

Mesur	Blaenorol	Diweddaraf	Targed ar gyfer 2025/26	Golwg Gyflym	Sylwadau
Nifer y bobl ifanc NEET a gafodd eu cefnogi i gyflogaeth yn ystod y flwyddyn	10	44	25	↑	Ffigur blynyddol yw hwn. Mae cymorth yn adlewyrchu'r capasiti ar gyfer cyflenwi prosiectau.
Nifer busnesau cyn-cychwyn a busnesau presennol a gynorthwywyd yn ystod y flwyddyn gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid	71	90	100	↓	Cymorth yn adlewyrchu'r cyllid sydd ar gael bob blwyddyn a maint a graddfa y prosiectau a gafodd eu cyflenwi.
Nifer y bobl o oedran gwaith a gefnogwyd i gyflogaeth yn ystod y flwyddyn drwy weithredu gan yr awdurdod lleol	82	120	82	↑	Cymorth yn adlewyrchu'r cyllid sydd ar gael bob blwyddyn a maint a graddfa y prosiectau a gafodd eu cyflenwi
Canran ymadawyr ysgol heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	3.1	2.5	1.5	↑	Diweddaraf yw 2025, blaenorol yw 2024. Mae'r ganran hon yn gyfartal â 20 o bobl ifanc.
Canran y bobl ifanc gyda phrofiad o ofal sydd wedi cwblhau o leiaf dri mis mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth	65	57	60	↓	
Nifer ymwelwyr i'n safleoedd treftadaeth a diwylliannol yn ystod y flwyddyn	189,541	244,915	200,000	↑	
Nifer yr ysgolion a ddywedodd fod Dysgu Treftadaeth MonLife wedi cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu yn eu hysgol	11	10	12	↓	
Nifer y llwybrau teithio llesol a gafodd eu creu neu eu gwella	19	9	18	↓	Dengys y ffigurau hyn y nifer o brosiectau ym mhob blwyddyn. Mae gennym bellach dros gant o lwybrau teithio llesol.

Golwg Gyflym ar y Tueddiad: ↑ Perfformiad yn gwella; ↓ Perfformiad yn gostwng; ↔ Dim newid yn y perfformiad
Golwg Gyflym ar y Targed: **Gwyrdd** – Targed a gyflawnwyd; **Oren** – colli'r targed o ychydig; **Coch** – gryn dipyn yn fyr

Lle diogel i fyw



Amcan y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle Diogel i Fyw



Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni:

- Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ansawdd da
- Gostwng nifer y bobl sy'n dod yn ddigartref
- Stoc tai mwy effeithiol o ran ynni gydag ôl-troed carbon is
- Cymunedau lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn parchu ei gilydd

**Ein sgôr:
4 (Da)**

Asesiad Strategol

Dylai Sir Fynwy fod yn fan lle mae gan bawb fynediad i gartref diogel, saff a fforddiadwy ac yn teimlo'n rhan o gymuned lle cânt eu parchu a'u diogelu. Mae hyn yn bwysig oherwydd fod cael cartref sefydlog yn sylfaenol i iechyd, llesiant a chyfleoedd bywyd, ac mae cymunedau diogel a chydlynol yn helpu i bobl teimlo eu bod wedi cysylltu, yn cael eu cefnogi ac yn medru ffynnu. Mewn sir gyda phrisiau tai uchel, cyflenwad cyfyngedig o gartrefi rhent a phwysau cynyddol ar fforddiadwyedd tai, mae mynediad i dai addas yn parhau yn her sylweddol i lawer o breswylwyr ac yn parhau i lunio diffyg cydraddoldeb ehangach yn y sir.

Yn gyffredinol, mae preswylwyr yn teimlo fod Sir Fynwy yn fan diogel i fyw ynddo. Dywedodd 89% o breswylwyr a gymerodd ran yn ein harolwg blynyddol o breswylwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol yn ystod y dydd, a 65% yn teimlo'n ddiogel ar ôl iddi nosi.

Mae ystod eang o wasanaethau'r cyngor yn cyfrannu at wneud Sir Fynwy yn fan diogel i fyw ynddo yn ychwanegol at ymrwymadau penodol a wnaethom yn ein Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys safonau masnach, iechyd yr amgylchedd, trwyddedu, partneriaethau diogelwch cymunedol, gwasanaethau ieuencid, diogelu'r cyhoedd, diogelu a gwasanaethau rheoleiddio. Gyda'i gilydd, mae'r gwasanaethau hyn yn helpu i ddiogelu preswylwyr rhag anaf, cefnogi aelwydydd bregus a chryfhau cymunedau diogel, sefydlog a gwydn.

Gwnaethom gynnydd wrth godi'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy a rhoi'r fframwaith tymor hirach yn ei lle sydd ei hangen i wella cyflenwad a fforddiadwyedd tai. Cafodd ein Cynllun Datblygu Lleol Newydd ei ddatblygu gyda lle creiddiol i fforddiadwyedd a safonau tai sero net ac mae'n cynnwys uchelgais polisi cryf. Yn ystod y flwyddyn, cafodd 102 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol eu cyflenwi, a chynyddodd nifer y cartrefi fforddiadwy a gafodd ganiatâd cynllunio i 66. Mae hyn yn dangos cynnydd cadarnhaol, fodd bynnag sylweddolwn y bwlch rhwng y ddarpariaeth gyfredol a lefel yr angen yn y sir y mae'r cynllun datblygu yn anelu i'w drin.

Gwnaethom gynnydd mawr wrth ostwng y defnydd o lety dros dro a gwella atal digartrefedd. Drwy ddefnyddio dull gweithredu Ailgartrefu Cyflym, cynyddu galluedd atal ac ailfodelu ein gwasanaethau cymorth tai, rydym wedi cynyddu'r gyfran o geisiadau digartrefedd y llwyddwyd eu hatal rhag dod yn ddigartref i 69.7%. Rydym wedi gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol, landlordiaid preifat a drwy gaffael eiddo ac ailbwrpasu i ehangu'r llety dros dro sydd ar gael. Cyfrannodd hyn at ostyngiad o 93.5% yn y defnydd o lety gwely a brecwast ers 2022/23 ac ni chafodd unrhyw deuluoedd neu bobl ifanc 16 a 17 oed eu rhoi mewn llety gwely a brecwast ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae galw digartrefedd yn parhau'n uchel, mae nifer yr aelwydydd mewn llety dros dro yn parhau'n sylweddol ac mae'r cyfnod cyfartalog y mae pobl yn ei dreulio yn aros am lety sefydlog wedi cynyddu'n sylweddol, gan ddangos fod y cyflenwad o dai parhaol yn parhau'n bwysau enfawr.

Rydym wedi parhau i gefnogi stoc tai mwy effeithiol o ran ynni a chymunedau mwy diogel. Drwy gynlluniau fel Eco4, Solar Together a Nyth, rydym yn helpu preswylwyr, yn arbennig aelwydydd ar incwm is a'r rhai y mae cartrefi oer a llaith yn effeithio arnynt, i wella effeithiolrwydd ynni a gostwng costau. Rydym hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid i ymateb i bryderon am ddiogelwch y gymuned, yn cynnwys gwaith gyda phobl ifanc ar droseddau cylllell ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o breswylwyr yn parhau i deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol, er fod pryderon yn parhau am ymddygiad gwrthgymdeithasol ac mae preswylwyr yn llai hyderus ar ôl iddi nosi. Byddwn yn cadw ffocws cryf ar atal, gweithio partneriaeth a thoi sicrwydd wedi'i dargedu mewn cymunedau lle mae'r pryder mwyaf.



Amcan: Lle Diogel i Fyw		
Yn Lle Diogel 	Sgôr Gwerthusiad:	Lefel 4 – Cryfderau pwysig gyda rhai meysydd i'w gwella – mae pwysau'r dystiolaeth fod y llwyddiannau yn fwy na'r meysydd na chafodd eu cyflawni. Rydym wedi llunio ein huchelgais ar gyfer datblygiad yn y sir ac wedi gweithredu prosiectau i gefnogi cyflawni ein amcan. Dengys ein asesiad fod yr oedi mewn symud ymlaen â'n cynlluniau wedi cyfyngu'r effaith a gawsom i gyflawni ein hamcan yn y tymor byr.
Pam fod gennym ni ffocws ar hyn? I'r rhan fwyaf o bobl, mae Sir Fynwy yn lle gwirioneddol da i fyw, ond nid i bawb. Mae angen i hyn newid. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i greu lle diogel y mae pobl yn falch i'w alw'n gartref, cynyddu'r tai fforddiadwy ansawdd uchel sydd ar gael, gostwng digartrefedd a hyrwyddo dulliau i helpu perchnogion tai i wella effeithiolrwydd ynni a gostwng allyriadau carbon.		
Pa mor dda ydyn ni'n cyflawni y canlyniadau a gytunwyd?		Sut ydyn ni'n gwybod?
Yr hyn rydyn ni eisiau ei gyflawni: Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ansawdd uchel Mae cael lle diogel, saff a thwym i'w alw'n gartref yn un o'r cyfraniadau pwysicaf at lesiant. Mae prisiau uchel eiddo a chyflenwad cyfyngedig o dai fforddiadwy yn y Sir yn golygu fod hyn allan o gyrraedd gormod o bobl leol ar hyn o bryd. Rydym wedi datblygu Cynllun Datblygu Lleol Newydd adnau i fynd i'r afael â'r materion allweddol hyn. Mae'r cynllun yn dyrannu 50% o dai fforddiadwy ar bob datblygiad newydd a bydd yn cyflwyno polisïau galluogi fydd yn caniatáu mwy o ddatblygiadau tai fforddiadwy. Mae hyn yn cynnwys hwyluso mwy o lety un person yn y sir sy'n gyfyngedig iawn ar hyn o bryd ac yn ffactor sy'n cyfrannu at ddigartrefedd. Byddwn hefyd yn sicrhau fod y cynllun yn cefnogi ein hymdrechion i fynd i'r afael â newid hinsawdd a gostwng biliau ar gyfer preswylwyr drwy sicrhau fod datblygiadau newydd o'r safonau uchaf ar gyfer effeithiolrwydd ynni. Cafodd y cynllun adnau ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Hydref ac mae gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ar gyfer archwiliad cyhoeddus. Rydym wedi cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy sydd ar gael yn y Sir. Mae gwella iechyd ein afonydd yn galluogi caniatáu datblygiad addas mewn ardaloedd lle arferai fod wedi ei gyfyngu. Mae hyn yn cyfrannu at y cynnydd yn nifer y cartrefi fforddiadwy a gaiff ganiatâd cynllunio. Cynyddodd y nifer a gafodd ganiatâd cynllunio bob blwyddyn ar draws y sir o 50 yn 22/23 i 66 yn 25/26, er fod hyn yn is na'n targed o 75. Mae nifer y cartrefi fforddiadwy a ddarperir bob blwyddyn hefyd wedi cynyddu o 48 yn 22/23 i 102 yn 25/26, sy'n uwch na'n targed o 80. Sylweddolwn fod angen mwy o gartrefi fforddiadwy i ateb y galw yn y sir. Mae ein Cynllun Datblygu Lleol Newydd adnau yn anelu i gynyddu darpariaeth.		Drafft Gynllun Datblygu Lleol Newydd Nifer y cartrefi fforddiadwy a gafodd ganiatâd cynllunio Nifer y cartrefi fforddiadwy a gafodd eu darparu

ASTUDIAETH ACHOS – CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD Mae Cynllun Datblygu Lleol yn rhoi fframwaith i'r cyngor ei ddefnyddio i benderfynu pa ddatblygu, yn cynnwys adeiladu tai newydd, manwerthu a seilwaith, sy'n digwydd. Caiff y cynlluniau hyn eu datblygu gan y cyngor a'u harchwilio gan arolygwyr allanol, tebyg i Lywodraeth Cymru. Roedd Cynllun Datblygu Lleol diweddaraf Sir Fynwy yn rhedeg tan 2021 – rydym wedi datblygu cynllun newydd, Cynllun Datblygu Lleol Newydd i gymryd lle hwn a chreu'r amgylchedd ar gyfer datblygiadau allweddol a chynaliadwy ar gyfer y sir. Bydd Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Fynwy yn anelu mynd i'r afael â materion allweddol yn y sir, yn cynnwys: • darparu ar gyfer tua 5,400-6210 o gartrefi newydd dros gyfnod y cynllun (2018-33) yn cynnwys tua 2,000 o gartrefi fforddiadwy. • darparu ar gyfer defnyddio tir cyflogaeth i gefnogi twf swyddi o hyd at 6,240 o swyddi ychwanegol, a chynnwys polisiâu i hwyluso twf mewn sectorau sylfaenol fel manwerthu, hamdden, twristiaeth ac amaethyddiaeth. • canolbwyntio twf yn aneddiadau mwyaf cynaliadwy y sir sef y Fenni, Cas-gwent, Trefynwy a Chil-y-coed, yn cynnwys Glannau Hafren, yn ogystal â pheth twf yn ein aneddiadau gwledig mwyaf cynaliadwy i ddarparu cartrefi fforddiadwy y mae angen mawr amdanynt ac i fynd i'r afael â diffyg cydraddoldeb gwledig ac ynysigrwydd gwledig yn yr ardaloedd hyn.	
Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni: Gostwng nifer y bobl sy'n dod yn ddigartref	
Rydym wedi gweld cynnydd yn y galw am wasanaethau digartrefedd mewn blynyddoedd diweddar. Ynghyd â hyn, mae prinder llety dros dro wedi golygu y bu'n rhaid i ni ddibynnu ar lety gwely a brecwast drud ac anaddas i gyflawni ein cyfrifoldebau i ddinasyddion. Rydym wedi defnyddio dull gweithredu Ailgartrefu Cyflym a chynyddu'r adnoddau ar gyfer atal digartrefedd. Mae hyn yn cynnwys cynyddu staffio, newidiadau gweithdrefnol a gweithio partneriaeth agosach i gefnogi mwy o bobl sydd mewn risg. Rydym hefyd yn darparu grantiau o'r Gronfa Atal Digartrefedd i helpu mynd i'r afael ag ôl-ddyledion/dyledion a galluogi aelwydydd i aros yn eu llety presennol neu i gael mynediad i lety arall. Rydym wedi ailfodelu ein gwasanaeth Cymorth Tai i gynnwys cymorth arbennig ar gamddefnyddio sylweddau, cymorth llety dros dro a chymorth ailsetlo. Mae hyn hefyd yn cynnwys cymorth neilltuoel ar gyfer pobl ifanc gydag angen uwch. Cyfrannodd hyn at i ni gynyddu atal digartrefedd. Cynyddodd y ganran o ymgeiswyr a gafodd eu hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref o 50% yn 22/23 i 69.7% yn 25/26. Rydym wedi adolygu ein rhaglen Grant Cymorth Tai ac yn cynyddu capasiti i sicrhau darpariaeth effeithlon. Byddwn hefyd yn cynyddu aliniad gyda gwaith ar ddigartrefedd ieuencid i gefnogi pobl ifanc mewn risg. Deallwn bwysigrwydd sicrhau fod llety addas a diogel ar gael ar gyfer ein preswylwyr. Rydym yn cysylltu gyda landlordiaid cymdeithasol, yn cynnwys landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, i sicrhau fod llety dros dro ar gael o fewn ein cymunedau. Rydym wedi cynyddu ein nifer o gaffaeliadau eiddo i ddarparu llety. Mae hyn yn cynnwys ailbwrpasu Severn View, y cyn gartref preswyl, i ddarparu 17 uned llety, gan roi llety addas dros dro ar gyfer ystod o unigolion, yn cynnwys rhai gydag anghenion cymhleth. Er ein bod wedi esblygu ein dull gweithredu i ddiwallu anghenion, mae'r galw am lety dros dro yn y sir wedi aros yn uchel mewn blynyddoedd diweddar. Mae nifer yr aelwydydd digartref mewn llety dros dro wedi cynyddu o 117 yn 22/23 i 136 yn 25/26 . Rydym wedi gostwng y defnydd o lety Gwely a Brecwast yn sylweddol. Mae ein gwaith i gynyddu'r llety dros dro sydd ar gael, ynghyd â gostyngiad bach mewn galw, wedi arwain at ostyngiad o 93.5% yn y defnydd o lety gwely a brecwast ers 22/23 o 92 i 6. Rydym hefyd wedi sicrhau nad oes	Data ar ddigartrefedd

unrhyw deuluoedd neu bobl ifanc 16=17 oed mewn llety gwely a brecwast. Mae hyn yn golygu fod teuluoedd ac unigolion mewn angen yn cael mynediad i lety mwy addas, sydd hefyd yn arwain at arbedion cost i'r awdurdod. Gwyddom y dylai llety dros dro fod yn ddatrysiad dros dro, nid parhaol, i alw. Mae sicrhau llety sefydlog yn parhau yn her. Mae'r amser cyfartalog y mae aelwydydd digartref yn ei dreulio ym Mand 1 gyda dyletswydd digartrefedd cyn symud ymlaen i lety sefydlog/parhaol wedi bron ddyblu mewn blynyddoedd diweddar, o 10.2 mis yn 22//23 i 20.1 mis yn 25/26. Caiff hyn ei yrru yn bennaf gan y rhai sy'n aros am eiddo un ystafell wely a phedair ystafell wely, gydag amserau aros amdanynt yn 20.5 mis a 24 mis, yn yr un drefn. I fynd i'r afael â'r heriau hyn, rydym yn gweithio i gynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy parhaol addas ar draws y sir. Rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid grant ac yn defnyddio hyn i gynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy sydd ar gael o fewn cymunedau a datblygiadau tai newydd. Mae gan ein Cynllun Datblygu Lleol Newydd ffocws clir ar sicrhau mwy o dai fforddiadwy. Bydd hyn yn ein helpu i fynd i'r afael â pheth o'r angen hwn, yn arbennig y galw am lety i bobl sengl, y mae cyflenwad cyfyngedig ohono. Rydym hefyd yn gweithio i gynyddu nifer yr eiddo sydd ar gael drwy Gynllun Prydlesu Cymru, sy'n darparu llety preifat fforddiadwy hirdymor i deuluoedd ac unigolion.	
Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni: Stoc tai mwy effeithiol o ran ynni gyda llai o ôl-troed carbon	
Rydym yn ymroddedig i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a gostwng allyriadau. Mae eiddo domestig yn un o'r cyfranwyr mwyaf at allyriadau carbon yn Sir Fynwy. Rydym wedi sicrhau fod gostwng allyriadau carbon yn greiddiol i'n Cynllun Datblygu Lleol Newydd drwy ei gwneud yn ofynnol i gartrefi newydd yn y sir fod yn garbon sero net. Bydd hyn yn cyfrannu at ostwng ein ôl-troed carbon fel sir a gostwng costau ynni ar gyfer preswylwyr mewn cartrefi newydd, yn cynnwys cartrefi fforddiadwy. Rydym yn cefnogi'r cynlluniau ynni, Solar Together, sy'n gynllun prynu fel grŵp ar gyfer preswylwyr sydd eisiau gosod paneli solar a chynllun Nyth sy'n rhoi cyngor a chymorth ar gyfer gwelliannau effeithiolrwydd ynni. Rydym wedi parhau i gefnogi aelwydydd incwm isel i gael mynediad i gyllid grant i wella effeithiolrwydd ynni eu cartrefi. Rydym yn hyrwyddo cynllun Eco4 sy'n darparu cyllid ar gyfer aelwydydd incwm isel a'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau meddygol a gaiff eu gwaethygu gan leithder neu oerfel i gael mynediad i welliannau effeithiolrwydd ynni. Fe wnaethom gefnogi cymeradwyo 328 cais yn ystod y flwyddyn ac yn gweithio gyda'r GIG i ddynodi preswylwyr gyda chlefydau anadlol neu ddiffyg imiwnedd a allai gael budd o'r cynllun. Byddwn yn cynnal ymgyrch wedi ei thargedu i geisio cynyddu'r galw gan y rhai a all gael budd o'r cynllun.	Nifer y bobl a gefnogir i gael mynediad i Eco4
Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni: Cymunedau lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn parchu ei gilydd	
Dylai pawb fod â'r hawl i deimlo'n ddiogel a bod ag ymdeimlad o berthyn yn eu cymuned leol. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o bobl yn Sir Fynwy yn teimlo'n ddiogel – dywedodd 85% o breswylwyr a gymerodd ran yn ein harolwg blynyddol o breswylwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol yn ystod y dydd, a 65% yn teimlo'n ddiogel ar ôl iddi nosi. Rydym wedi gweithio'n agos gyda phobl ifanc ar draws y sir i fynd i'r afael â throseddau cyllid ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rydym wedi sicrhau cyllid gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gefnogi'r gwaith hwn. Rydym wedi gweithio gydag elusen Fearless i gyflwyno gweithdai ar bynciau hollbwysig fel llinellau sirol a throseddau cyllid yn ein canolfannau ieuenctid, gan gefnogi pobl ifanc i ddelio gyda'r heriau yma. Rydym wedi targedu pobl ifanc sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghil-y-coed a chanol trefi eraill ac wedi gweld gostyngiad yn nifer y digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rydym yn cryfhau'r berthynas rhwng pobl ifanc a heddlu lleol drwy wahodd swyddogion yn gyson i'n canolfannau ieuenctid i gysylltu'n uniongyrchol a gwrandao ar eu pryderon.	Canlyniadau arolwg o breswylwyr Adborth gan bobl ifanc mewn canolfannau ieuenctid Adroddiad blynyddol yn gwerthuso diogelu

Rydym wedi cynnal gwerthusiad blynyddol o'n trefniadau diogelu. Mae hyn yn gwerthuso conglfeini diogelu yn Sir Fynwy ac yn rhoi sicrwydd fod trefniadau diogelu effeithlon yn eu lle ar draws y sir. Mae'r gwerthusiad hwn hefyd yn ganolog wrth wella ymarfer diogelu ar draws y Cyngor. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Strategaeth Atal Trais Difrifol Gwent. Mae hyn wedi helpu i ddynodi'r blaenoriaethau trais difrifol ar draws Sir Fynwy. Rydym yn awr yn gweithio gyda phartneriaid ac asiantaethau allweddol i gyflwyno ystod o ymyriadau a dargedwyd i fynd i'r afael â hyn. Rydym wedi cyfrannu at ddatblygu strategaeth rhanbarthol Gwent ar drais yn erbyn menywod a thrais rhywiol domestig (VAWDASV). Caiff y strategaeth ei gweithredu'n awr drwy drefniadau partneriaeth a bydd yn sicrhau fod mwy o bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd o gamdriniaeth a thrais.	Strategaeth Atal Trais Difrifol Gwent Strategaeth VAWDASV
---	---

Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cyfraniad nod y Cyngor at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol						
Cymru lewyrchus	Cymru gydnerth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
	✓		✓	✓		✓

Amcan Llesiant: Lle Diogel i Fyw




Mae'n bwysig fod y cyngor yn **cydweithio** gyda phartneriaid ac yn **integreiddio** gyda'u cynlluniau i ostwng digartrefedd a sicrhau y gall pobl aros yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain lle bynnag sy'n bosibl. Mae'n hanfodol **cynnwys** a gweithio gyda phartneriaid ac aelodau'r gymuned i ddatblygu cymunedau lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn parchu ei gilydd. Mae gan y Cynllun Datblygu Lleol newydd ffocws ar yr **hirdymor** ac mae tai fforddiadwy a datblygiadau carbon sero net gyda chysylltiadau da yn ganolog iddo. Mae ffocws ar **atal** problemau rhag digwydd yn hanfodol i greu lle diogel y mae pobl yn falch i'w alw yn adre.

Mesurau cynnydd					
Carreg filltir	Targed ar gyfer cwblhau		Cynnydd		
Y Cyngor yn cymeradwyo'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd	Gorffennaf 2025			Cafodd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ei gymeradwyo gan y cyngor ar gyfer ymgynghori ym mis Hydref 2025. Mae'n awr gyda Llywodraeth Cymru yn cael ei archwilio.	
Dileu defnyddio llety gwely a brecwast ar gyfer aelwydydd gyda phlant a phobl ifanc	Mawrth 2027			Nid oes unrhyw deuluoedd mewn llety gwely a brecwast ar hyn o bryd. Bydd sicrhau cynnydd mewn llety dros dro a hefyd lety parhaol yn allweddol i gyflawni'r garreg filltir hon.	
Cyflwyno dull gweithredu Ailgartrefu Cyflym	Ebrill 2023			Cafodd hwn ei gwblhau erbyn hyn. Cafodd dull gweithredu Ailgartrefu Cyflym ei weithredu ym mis Ebrill ac mae wedi cyfrannu at gynyddu'r ffocws ar atal digartrefedd.	
Mesur	Blaenorol	Diweddaraf	Targed ar gyfer 2025/26	Golwg Gyflym	Sylwadau
Nifer tai fforddiadwy a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y flwyddyn	108	66	75	↓	
Nifer cartrefi fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn y flwyddyn	71	102	80	↑	
Canran ceisiadau digartref a gafodd eu hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref	71	69.7	70	↓	Mae hwn yn ffigur blynyddol ar gyfer 2025/26.
Nifer pobl ifanc 16 a 17 oed mewn llety gwely a brecwast	0	0	0	↔	Y ffigur diweddaraf yw'r sefyllfa ar ddiwedd mis Mawrth 2026.
Nifer teuluoedd mewn llety gwely a brecwast	0	0	0	↔	Y ffigur diweddaraf yw'r sefyllfa ar ddiwedd mis Mawrth 2026.
Nifer aelwydydd digartref mewn llety gwely a brecwast	20	6	25	↑	Y ffigur diweddaraf yw'r sefyllfa ar ddiwedd mis Mawrth 2026, gostyngiad sylweddol ers 2022.
Nifer aelwydydd digartref mewn llety dros dro	140	136	150	↑	Y ffigur diweddaraf yw'r sefyllfa ar ddiwedd mis Mawrth 2026.

Golwg Gyflym ar y Tueddiad: ↑ Perfformiad yn gwella; ↓ Perfformiad yn gostwng; ↔ Dim newid yn y perfformiad

Golwg Gyflym ar y Targed: **Gwyrdd** – Targed a gyflawnwyd; **Oren** – colli'r targed o ychydig; **Coch** – gryn dipyn yn fyr



**Ein sgôr:
5 (Da iawn)**

- Gofal cymdeithasol ansawdd uchel sy'n galluogi pobl i fyw eu bywydau ar eu telerau eu hunain
- Sir Fynwy iach ac egnïol lle mae llai o bobl yn unig ac ynysig, lle caiff llesiant ei hyrwyddo, ac y caiff pobl eu diogelu
- Gweithlu gofal cymdeithasol proffesiynol ac angerddol

n fan lle caiff cyfraniadau pobl eu gwerthfawrogi, eu bod yn teimlo yn rhan o gymuned ac y gallant gael mynediad i
 eu helpu i fyw'n dda ar eu telerau eu hunain. Mae hynny yn bwysig oherwydd fod gwasanaethau iechydd, gofal
 iant cryf yn diogelu'r preswylwyr mwyaf bregus, yn cefnogi annibyniaeth ac urddas, yn gostwng unigrwydd ac
 i pobl i barhau mewn cysylltiad â'u teuluoedd a chymunedau. Mae'r galw am y gwasanaethau hyn yn cynyddu, yn
 ologaeth heneiddio ac anghenion yn dod yn fwy cymhleth. Yn y cyd-destun hwn, mae ansawdd, argaeledd a
 ymorth yn hollbwysig i lesiant pobl yn awr ac yn y dyfodol.

vy yn lle cysylltiedig a lle mae pobl yn gofalu yn dibynnu ar weithio partneriaeth ar draws y cyngor, gwasanaethau oedau. Mae ystod eang o wasanaethau yn cyfrannu at yr amcan hwn, yn cynnwys gofal cymdeithasol oedolion a phobl ifanc, gwasanaethau hamdden ac ieuencid, datblygu cymunedol, diogelu, iechyd y cyhoedd, cymorth gofalwyr, a gwaith partneriaeth ehangach gyda sefydliadau iechyd a sector gwirfoddol. Ynghyd â chefnogaeth gan y cyngor, mae'r gwasanaethau hyn yn helpu preswylwyr i aros yn annibynnol yn hirach, cryfhau cysylltiadau gyda'r cymuned a sicrhau fod pobl yn cael y gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir.

fal a chymorth a hefyd yn adeiladu'r dulliau ataliol a chymunedol sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol. Mae'r galw
al cymdeithasol yn parhau i gynyddu ac anghenion yn dod yn fwy cymhleth, yn arbennig gan fod mwy o
morth yn nes ymlaen yn eu bywydau a gyda lefelau uwch o angen. Mae hyn yn creu risg barhaus i'n gallu i ateb
gyflym ac mor gyson ag yr hoffem ac yn dod â phwysau ariannol sylweddol. Rydym wedi parhau i ymateb i hyn
partneriaeth a datblygu modelau mwy ataliol o gymorth, yn cynnwys ailalluogi, technoleg gynorthwyol, help


cynnar, cymorth llesiant seiliedig yn y gymuned a llwybrau cryfach sy'n helpu pobl i aros yn annibynnol yn hirach. Er fod y pwysau hyn yn parhau'n sylweddol, gwnaethom gynnydd ar draws gwasanaethau plant, gofal oedolion, llesiant a datblygu gweithlu i gyflawni ein amcan.

Mewn gwasanaethau plant, rydym wedi cryfhau help cynnar a chymorth i deuluoedd, ac wedi sicrhau mwy o sefydlogrwydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Gwnaethom hefyd gynnydd da mewn datblygu mwy o leoliadau o fewn y sir ar gyfer plant a phobl ifanc, gan wella'r gallu i'w cadw'n agos at eu cymunedau a'u rhwydweithiau cymorth. Rydym wedi cryfhau'r cynnig gofalwyr maeth ac wedi cyfrannu at gymuned faethu fwy cydlynol. Mae recriwtio a chadw gofalwyr maeth yn parhau'n heriol, gan adlewyrchu pwysau tebyg a welir ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig yn ehangach.

Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu ac addasu gwasanaethau a chynyddu darpariaeth mewn ymateb i alw cynyddol am ofal cymdeithasol oedolion. Rydym hefyd wedi cynyddu ffocws a chapasiti gwasanaethau atal. Rydym wedi cynyddu gweithgaredd ailalluogi gyda dros hanner y pecynnau yn lliniaru'r angen am fwy o gymorth. Rydym wedi cryfhau gofal yn y cartref a gomisiynwyd a gostwng yn sylweddol yr oriau gofal nas diwellir, o 804 awr y mis ym Mawrth 2023 i tua 271 awr y mis dros y flwyddyn ddiwethaf, gan olygu y gallwn yn awr gyflawni mwy o anghenion gofal yn y cartref. Dengys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion fodlonrwydd ychydig yn is gyda gofal a chymorth nag mewn blynyddoedd blaenorol, gyda 83% o oedolion yn dweud eu bod yn hapus. Rydym hefyd wedi agor Parc Severn View, cartref gofal arbenigol newydd sy'n cynyddu capasiti lleol ar gyfer pobl yn byw gyda dementia ac sy'n darparu gofal hirdymor, ailalluogi a seibiant.

Rydym hefyd yn cryfhau llesiant ehangach a chymorth cymunedol. Rydym wedi datblygu dulliau strategol tebyg i'r Strategaeth Byw yn Dda a'n gwaith i ddod yn Rhanbarth Marmot, gan helpu i roi sylw at atal, gwydnwch a phenderfynyddion ehangach iechyd. Rydym wedi ehangu technoleg gynorthwyl, sy'n helpu mwy o breswylwyr i fyw'n ddiogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, ac wedi cynyddu cyflenwi addasiadau tai sy'n gwella ansawdd bywyd a hyder. Rydym wedi cefnogi iechyd meddwl pobl ifanc drwy raglenni gwasanaeth ieuencid, gyda phawb a gymerodd ran yn y rhaglen Rhesymeg Emosiynol yn dweud fod eu llesiant emosiynol wedi gwella, a rydym wedi ehangu cyfranogiad yn sylweddol mewn prosiectau iechyd a llesiant seiliedig ar natur.

Rydym yn parhau i gydnabod a chefnogi gofalwyr, gyda gwybodaeth gryfach, cyfeirio a chymorth ymarferol. Anelwn ostwng amserau aros ar gyfer asesiadau gofalwyr. Rydym wedi datblygu ein gweithlu gofal cymdeithasol drwy recriwtio, cadw a modelau newydd tebyg i ficro-ofal, sydd wedi tyfu o wyth o ofalwyr yn 2022 i 59 o ofalwyr, gan gyflenwi dros 900 o gymorth bob wythnos rhyngddynt.



Lle cysylltiedig lle mae pobl yn gofalu		
Yn lle sydd wedi'i Gysylltu 	Sgôr Gwerthusiad:	Lefel 5 – Da lawn – Cryfderau pwysig – mae mwyafrif sylweddol o gamau gweithredu a mesurau ar y trywydd iawn. Nid oes mwy nag un neu ddau ohonynt yn brin. Rydym wedi cynyddu mynediad i ofal a chymorth yn y sir ac wedi darparu gwasanaethau i gefnogi iechyd a llesiant preswylwyr. Dengys ein tystiolaeth ein bod yn cefnogi lefelau uwch o alw a galw mwy cymhleth. Rydym yn datblygu dulliau ataliol i helpu pobl i fyw'n dda. Mae sicrhau adnoddau ar gyfer y dulliau ataliol sydd eu hangen tra'n diwallu galw presennol yn her wrth gyflawni ein hamcan.
Pam fod gennym ni ffocws ar hyn?		
Bydd Sir Fynwy yn fan lle caiff cyfraniadau pobl eu gwerthfawrogi, eu bod yn teimlo'n rhan o gymuned ac wedi cysylltu gyda phobl eraill. Mae'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn wynebu heriau sylweddol ac mae gwasanaethau statudol ar draws y Deyrnas Unedig yn ei chael yn anodd ymdopi gyda maint a chymhlethdod y galw. Mae gan Sir Fynwy hanes o lwyddiant mewn cyflwyno dulliau gweithredu blaengar a gweithio partneriaeth llwyddiannus. Sylweddolwn fod llesiant am lawer mwy na thrin pobl pan maent yn mynd yn wael. Mae llawer o ffactorau a all effeithio ar ein iechyd yn cynnwys yr amgylchedd, tai, y gwaith a wnawn, faint o arian rydym yn ei ennill, ein ffordd o fyw, trafnidiaeth a chydlyniaeth gymunedol. Gall y penderfynyddion ehangach hyn o iechyd, a elwir weithiau yn benderfynyddion cymdeithasol, effeithio ar iechyd corfforol a iechyd meddyliol mewn naill ai ffordd gadarnhaol neu negyddol.		
Pa mor dda ydyn ni'n cyflawni y canlyniadau y gwnaethom gytuno arnynt?		Sut ydyn ni'n gwybod?
Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni: Gofal cymdeithasol ansawdd uchel sy'n galluogi pobl i fyw eu bywydau ar eu telerau eu hunain		
Rydym yn cyflwyno strategaeth hirdymor i atal a gostwng mewn modd diogel yr angen dros i blant fynd i ofal. Rydym wedi sefydlu dull cydlynol ar gyfer ymyriad ac ataliaeth gynnar mewn Gwasanaethau Cymdeithasol Plant. Mae hyn yn galluogi teuluoedd i dderbyn cymorth ar y lefel gywir i alluogi rhieni i sicrhau'r diogelwch, cefnogaeth a gofal mae plant eu hangen. Rydym wedi datblygu ein hymarfer ar ddrws blaen gwasanaethau plant, yn arbennig drwy ddulliau tebyg i'r Tîm Asesu Help Cynnar a phanel llesiant SPACE. Mae Panel Llesiant a Chymorth i Deuluoedd SPACE yn cefnogi gweithio partneriaeth effeithlon ac yn parhau i fod yn hyb ar gyfer ymyriad cynnar a chymorth wedi ei gydlyn ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae gwerthusiad ac adborth o wasanaethau cymorth teulu yn dangos canlyniadau clir a chadarnhaol ar gyfer deuluoedd. Mae 100% o deuluoedd yn dal i sôn am ganlyniad cadarnhaol yn dilyn ymyriad gan y tîm Adeiladu Teuluoedd Cryfach. Rydym wedi datblygu ystod o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ymarfer a gweithio gyda theuluoedd i gefnogi cryfderau, rheoli risgiau a sicrhau canlyniadau da, gan ostwng yr angen i blant dderbyn gofal. Mae gennym wasanaethau yn eu lle i gefnogi adsefydlu plant yn dilyn cyfnodau o dderbyn gofal drwy Families Re-connect. Rydym yn darparu cefnogaeth holistig tymor canol i deuluoedd sy'n gwneud newid cynaliadwy drwy Dîm Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd. Rydym yn darparu ymateb therapiwtig i rieni a gofalmwyr wrth gefnogi plant sy'n cyflwyno gyda trawma drwy Fy Nhîm Cefnogi (MyST), er enghraifft. Rydym wedi gostwng nifer y plant gyda llai o anghenion cymorth sydd angen mynediad i wasanaethau statudol a gostwng angen rhag cynyddu o fewn gwasanaethau. Yn gyffredinol, mae'r gwaith hwn yn creu canlyniadau mwy sefydlog, yn gostwng pwysau ar wasanaethau statudol ac yn helpu teuluoedd i gael y cymorth cywir ar yr adeg gywir. Os yw teuluoedd angen help gan wasanaethau plant, mae ein ffocws ar gymorth ataliol i		Gwerthusiadau gwasanaeth help cynnar Strategaeth Datblygu Lleoliad Data perfformiad Gofal Cymdeithasol Plant Gwybodaeth monitro rhyddhau cleifion o ysbyty Gwybodaeth am berfformiad y gwasanaeth adsefydlu

deuluoedd ym mhob rhan o'n prosesau mewn gofal cymdeithasol plant, o'r atgyfeiriad cyntaf i achosion cymhleth. Rydym wedi sicrhau sefydlogrwydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, gyda gostyngiad graddol o 208 ym mis Mawrth 2022 i 192 ym mis Mawrth 2026. Rydym wedi buddsoddi mewn recriwtio gofal maeth, datblygu trefniadau cymorth a chynyddu ffioedd gofalwyr maeth i gadw a denu gofalwyr maeth i ddarparu cymorth i'r plant sydd angen hynny. Mae hyn wedi cryfhau'r cynnig i ofalwyr maeth a chyfrannu at gymuned faethu fwy cydlynol. Mae hyn wedi cefnogi cynnydd parodrwydd gofalwyr i dderbyn lleoliadau. Rydym yn parhau i wynebu heriau yn recriwtio a chadw gofalwyr maeth, her a welir ar draws Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig. Nid yw nifer gofalwyr maeth yr Awdurdod Lleol yn cynyddu yn ddigon cyflym i gyflawni ein hanghenion. Rydym wedi cynyddu'r defnydd o ofal gan berthynas a Gorchmynion Gwarcheidwaeth Arbennig, sy'n gydnaws ag ymyriadau cynharach a mwy effeithlon seiliedig ar deuluoedd. Mae hyn yn golygu fod mwy o blant sydd angen gofal yn cael eu lleoli gyda'n gofalwyr maeth ein hunain neu ofal gan berthynas yn hytrach na gydag asiantaethau maethu annibynnol. Ym mis Medi 2025, ar gyfer yr holl blant mewn lleoliadau maeth, cafodd 36% eu lleoli gydag asiantaethau maethu annibynnol a 64% eu lleoli gyda'n gofalwyr maeth ein hunain neu ofal gan berthynas. Rydym yn cyflwyno ein strategaeth datblygu lleoliad i ddatblygu lleoliadau preswyl a llety â chymorth 16+ o fewn y sir. Mae hyn yn mynd i'r afael â phrinder lleoliadau addas ar gyfer plant sydd angen cymorth lleol neilltuol, ac yn arbennig y rhai sydd angen cymorth ychwanegol neu na fedrir eu lleoli gyda gofalwyr maeth. Rydym wedi cwblhau pedwar prosiect o'r chwech a ddynodwyd. Rydym wedi darparu llety â chymorth 16+ ar gyfer pump lleoliad, cartref preswyl pedair ystafell wely i blant a dau gartref preswyl therapiwtig i blant gyda photensial ar gyfer dau leoliad ym mhob un. Mae amrywiaeth o ffactorau allweddol a sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol yn effeithio ar gynnydd mewn datblygu darpariaeth breswyl. Rydym yn datblygu dau brosiect pellach: un cartref preswyl i blant a mwy o lety â chymorth 16+. Nid ydym wedi canfod eiddo addas a phriodol i ddatblygu gwasanaeth pellach llety cymorth 16+ a rydym yn parhau i ymchwilio'r farchnad am hynny. Mae cyflenwi'r strategaeth lleoliadau yn gwella'r cymorth sydd ar gael ac yn helpu i sicrhau y gall plant a phobl ifanc aros yn agos at eu cymunedau. Mae cyfran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd eu cefnogi i aros yn Sir Fynwy wedi amrywio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd, ym mis Mawrth 2026, cafodd 55.7% eu cefnogi i aros yn Sir Fynwy; roedd hyn wedi cynyddu o 50.5% ym mis Mawrth 2024 ond mae'n parhau'n is na'r 59.2% ym mis Mawrth 2023. Rydym yn parhau i adolygu'r galw am leoliadau ac yn ceisio rhagweld galw drwy ddynodi plant a all fod angen, ar ryw adeg, i gael eu lletya. Fodd bynnag, mae rhagweld galw yn parhau yn broses heriol a deinamig gydag angen yn esblygu a newidiadau yn y math a dwyster y ddarpariaeth sydd ei hangen. Caiff hyn hefyd ei gymhlethu gan ansicrwydd o fewn y farchnad gofal yn genedlaethol. Rydym yn parhau i brofi pwysau galw ar draws y system gofal cymdeithasol ac iechyd, gyda phoblogaeth sy'n heneiddio yn Sir Fynwy, yn neilltuol, yn golygu cynnydd yn faint o gymorth sydd ei angen a chymhlethdod anghenion cymorth pobl. Caiff y pwysau galw hyn eu gweld ar draws Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig. Rydym wedi datblygu ac addasu ein gofal cymdeithasol i oedolion i ddiwallu anghenion cynyddol a mwy cymhleth ein preswylwyr hŷn. Rydym wedi datblygu dulliau ataliol tebyg i gynyddu capasiti mewn ailalluogi a defnydd technoleg gynorthwyol, sy'n helpu i liniaru anghenion gofal parhaus, yn arbennig ar gyfer pobl gyda llai o anghenion gofal, a helpu i ostwng yr angen am ofal yn y cartref. Rydym yn parhau i ymdopi â chynnydd yn yr angen am ofal preswyl, a gaiff ei yrru gan ddemograffig heneiddiol a chynnydd mewn anghenion cymhleth. Mewn rhai sefyllfaoedd, mae oedi ceisiadau am gymorth yn gostwng y gallu i ddarparu cymorth ataliol a seiliedig yn y gymuned a fedrai fel arall alluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain am fwy o amser. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gysondeb y cymorth a roddir ar ddrws blaen gofal cymdeithasol oedolion i sicrhau fod pobl yn derbyn yr wybodaeth, cyngor a chymorth mwyaf addas maent ei angen. Rydym hefyd yn parhau i sicrhau fod gennym alluedd a chymorth ar gael i adolygu ac asesu gofynion gofal i ddarparu cymorth sy'n diwallu anghenion gyda'r gwasanaethau cywir, gan alluogi dewis a chysondeb yn cynnwys darparu ailalluogi i geisio gostwng anghenion pellach.	Gwybodaeth am berfformiad Gofal Cymdeithasol Oedolion Strategaeth ar gyfer comisiynu gofal yn y cartref
--	---

Rydym yn gweithredu strategaeth hirdymor ar gyfer comisiynu gofal yn y cartref. Rydym wedi cynyddu capasiti ar draws gofal yn y cartref yn sylweddol ac wedi gostwng nifer yr oriau gofal na chônt eu diwallu o 804 y mis ym mis Mawrth 2023 i gyfartaledd o tua 271 awr y mis dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn awr yn medru darparu 96.4% o oriau gofal yn y cartref ar gyfartaledd yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn oherwydd cyfuniad o'n gweithgareddau a ffactorau allanol sydd wedi arwain at sefydlogi'r farchnad am ofal yn y cartref. Mae hyn yn gwella mynediad i gymorth hanfodol i alluogi pobl i barhau i fyw yn eu cartrefi ein hunain. Gwelsom ostyngiad graddol yn nifer yr oedolion sy'n derbyn gofal cartref, o 636 ym mis Mawrth 2023 i 452 ym mis Mawrth 2026. Mae hyn oherwydd cyfuniad o addasu'r asesiad o ofal a chymorth, yn cynnwys cynnydd mewn gwasanaethau ailalluogi, ynghyd ag ystod o ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar anghenion gofal. Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol oedolion yn dangos lefelau is o fodlonrwydd gyda gofal a chymorth. Yn y flwyddyn ddiwethaf roedd 83% o oedolion yn hapus gyda'u gofal a'u cymorth, sydd ychydig yn is na'r 83.5% yn 2022/2023. Gwelsom gynnydd yn nifer yr oedolion sy'n derbyn gofal preswyl dros yr un cyfnod, gan gynyddu o 317 ym mis Mawrth 2023 i 369 ar hyn o bryd yn 2026. Mae cymhlethdod cynyddol anghenion cymorth preswylwyr yn cyfrannu at y cynnydd hwn. Rydym yn datblygu darpariaeth newydd a'r ffordd y darparwn ofal a chymorth i ateb y galw hwn. Fe wnaethom agor Parc Severn View, cartref gofal arbenigol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, ym mis Mawrth 2024. Mae'r cartref yn darparu 32 ystafell wely ar gyfer cymorth hirdymor a hefyd gymorth tymor byr ar ffurf seibiant yn seiliedig ar fodel gofal sy'n canolbwyntio ar berthynas. Mae'r cartref gofal newydd yn anelu i gadw cysylltiadau gyda'r gymuned gyfagos. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid mewn ieuchyd sylfaenol ac eilaidd i atal pobl rhag gorfod mynd i ysbyty os nad oes angen ac i gefnogi rhyddhau amserol o ysbytai. Mae sicrhau rhyddhau sydd wedi eu cydlynu'n dda ac yn amserol a rheoli'r pwysau o fewn y system ysbytai yn parhau yn her. Rydym yn cynnal cyfarfodydd aml-ddisgyblaethol wythnosol i ddynodi a datrys oedi lle mae'n digwydd. Rydym yn parhau i ddatblygu a sefydlu ein hymarfer, gan gweithio mewn ffordd integredig gyda thimau amlddisgyblaeth i gefnogi rhyddhau o ysbytai dwys a chymunedol. Mae nifer y cleifion sy'n disgwyl cael eu rhyddhau ar gyfer gofal cymdeithasol yn amrywio yn ystod y flwyddyn, gan fod wedi cynyddu yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae nifer yr achosion o oedi wedi sefydlogi eleni. Rydym yn parhau i wynebu heriau wrth ymateb i holl anghenion gofal a chymorth pobl mewn modd mor amserol ag yr hoffem. Rydym wedi gostwng aros am asesiadau gofal cymdeithasol dros y flwyddyn ddiwethaf gan gefnogi preswylwyr i gael asesiad cynharach o'u hanghenion. Mae'r demograffig heneiddiol a chymhlethdod anghenion pobl hefyd wedi cynyddu costau sydd angen eu talu o'r gyllideb Gofal Cymdeithasol Oedolion. Rydym yn parhau i gynllunio ar gyfer y galw cyfredol a'r dyfodol yn ein darpariaeth gwasanaeth a gosod y gyllideb. Rydym yn parhau i gyflwyno ymyriad cynnar a gofal ataliol yn y gymuned i helpu cefnogi preswylwyr i aros yn annibynnol cyhyd ag sydd modd. Sylweddolwn na fydd hyn yn dileu'r angen am ofal a chymorth mwy penodol ac yn parhau i gynllunio ar gyfer hyn fel rhan o'n strategaeth ar ofal yn y cartref a gweithio gyda darparwyr gofal yn y sir.	
Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni: Sir Fynwy iach ac egnïol lle mae llai o unigrwydd ac ynysigrwydd, gyda llesiant yn cael ei hyrwyddo a phobl yn cael eu diogelu	
Gwyddom yn gyffredinol fod preswylwyr yn teimlo wedi cysylltu gyda'u lle yn Sir Fynwy, gyda 69% o ymatebwyr yn ein harolwg o breswylwyr yn teimlo'n rhan o'u hardal leol. Nid yw hyn yn wir ar gyfer pawb. Rydym hefyd yn sylweddoli rôl hanfodol preswylwyr yn eu cymuned leol ac fe wnaeth 57% o'r preswylwyr a ymatebodd i'r arolwg fynegi diddordeb mewn cymryd rhan mewn gweithgareddau neu ddigwyddiadau yn y gymuned leol. Rydym wedi datblygu strategaeth Byw'n Dda i hyrwyddo ymagwedd awdurdod cyfan at ieuchyd a llesiant a mynd i'r afael â diffyg cydraddoldeb drwy hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a meithrin gwydnwch, yn arbennig ymysg cymunedau amddifadus. Bydd hyn yn cydlynu gweithgaredd y cyngor ei hun a gwaith gyda phartneriaid i hwyluso ffyrdd iachach o fyw a meithrin gwydnwch unigolion a chymunedau fel bod preswylwyr, yn arbennig ein	Darpariaeth Gwasanaeth Ieuencid Gwasanaeth Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc

preswylwyr mwy amddifadus, yn cael eu galluogi i fyw bywydau mwy iach ac annibynnol am fwy o amser. Mae hyn yn anelu i gefnogi llesiant preswylwyr yn ogystal ag oedi neu ostwng eu galw ar wasanaethau statudol.

Rydym hefyd yn ymroddedig i weithio gydag eraill ar draws Gwent a'r Sefydliad Tegwch Iechyd i fynd i'r afael â diffyg cydraddoldeb mewn iechyd fel rhan o fod yn Rhanbarth Marmot. Mae ffocws hyn ar benderfynyddion iechyd, a gânt eu galw weithiau yn benderfynyddion cymdeithasol, tebyg i'r amgylchedd, tai, incwm, ffyrdd o fyw a thrafnidiaeth a all gael effaith un ai gadarnhaol neu negyddol ar ein hiechyd corfforol a'n iechyd meddwl.

Rydym wedi datblygu ein gwasanaethau i gefnogi oedolion i fyw'n annibynnol am fwy o amser. Rydym yn cyflwyno cynllun trawsnewid i ehangu'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol yn Sir Fynwy. Mae technoleg gynorthwyol yn cyfrannu at wella a chyfoethogi byw gartref, gan gefnogi pobl i barhau i fyw'n ddiogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag sydd modd. Mae'r gwasanaeth Technoleg Gynorthwyol wedi tyfu o gefnogi 850 o gleientiaid yn ei flwyddyn gyntaf yn 2022/23 i 1070 yn 2025/26. Mae'r gwasanaeth wedi cwblhau tua 300 gosodiad y flwyddyn. Mae hyn wedi darparu ystod technoleg sy'n helpu cefnogi rhywun i fyw'n annibynnol adref am fwy o amser. Rydym yn parhau i anelu i gynyddu'r defnydd o offer technoleg gynorthwyol mewn cynllunio gofal a chymorth mewn gofal cymdeithasol i gefnogi dull gweithredu mwy ataliol. Rydym hefyd yn parhau i ymgysylltu gyda chyflenwyr i ddynodi cyfleoedd offer newydd.

ASTUDIAETH ACHOS – TECHNOLEG GYNORTHWYOL

Mae Mary wedi byw yn y Fenni ar hyd ei hoes ac mae ganddi lawer o atgofion annwyl am y dref.

Mae'r offer technoleg gynorthwyol yn ei helpu hi a hefyd ei theulu i deimlo'n fwy diogel ac annibynnol gan wybod fod help ar gael os yw angen hynny.

Roedd Mary wedi syrthio yn flaenorol a'r tro diwethaf bu'n rhaid iddi fynd i ysbyty ar ôl torri ei phelfis. Oherwydd ei bod mewn risg uwch o syrthio, cafodd Mary synhwyrdd syrthio. Mae'r teclyn hwn yn galluogi Mary i alw am help drwy bwysu botwm, ac mae ganddo bwrpas deulol a bydd yn awtomatig yn ffonio'r gweithredwr drwy Lifeline os yw'n synhwyro ei bod wedi syrthio. Bydd y teclyn yn hysbysu'r gweithredwr os canwyd y larwm drwy bwysu ar y pendant neu drwy syrthio, sy'n eu galluogi i ddilyn y protocol gosod ar gyfer y math o argyfwng.

Ar ôl byw yn ei fflat am flynyddoedd lawer, mae Mary eisiau dal i fyw yno. Mae darparu larwm Lifeline gyda'r synhwyrdd syrthio yn mynd beth o'r ffordd i roi'r sicrwydd a'r tawelwch meddwl mae Mary ei angen i barhau i fyw yn ei chartref ei hun.

Rydym yn darparu addasiadau tai sy'n helpu pobl i aros yn annibynnol, byw gydag urddas a dychwelyd adre yn ddiogel o'r ysbyty neu ofal. Yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi darparu 57 addasiad. Yn dilyn gwaith addasu, teimlai 73% o bobl fod eu hansawdd bywyd wedi gwella a roedd 69% o ymatebwyr yn teimlo'n fwy hyderus a/neu annibynnol.

Rydym wedi cynyddu capasiti a nifer y bobl sy'n cael mynediad i ailalluogi. Mae ailalluogi yn rhoi cymorth i bobl ail-ddysgu sut i wneud gweithgareddau bob dydd ac yn helpu i ostwng angen pobl am fwy o gefnogaeth a gostwng y galw ar wasanaethau gofal tymor hirach. Rydym wedi cynyddu nifer y pecynnau ailalluogi a gyflwynwn o 184 y flwyddyn yn 2022/23 i 445 yn 2025/26. Yn y flwyddyn ddiwethaf roedd 53.3% o'r pecynnau ailalluogi a gyflwynwyd wedi lliniaru angen yr unigolyn i gael cymorth pellach.

Strategaeth Byw yn Dda

Rydym yn galluogi bywydau mwy iach a mwy egnïol drwy gynyddu mynediad i'r awyr agored. Fe wnaethom gefnogi 574 o ysgolion, gwirfoddolwyr a phartneriaid i gymryd rhan mewn prosiectau llesiant seiliedig ar natur ledled y sir. Rydym wedi cefnogi iechyd a llesiant meddwl pobl ifanc ar draws y sir drwy brosiect Shift y gwasanaeth ieuencid. Rydym wedi ehangu'r cynnig gyda rhaglen cyllid grant gyda ffocws dan yr enw Rhesymeg Emosiynol. Dywedodd pob person ifanc a gymerodd ran yn y prosiect fod eu hiechyd meddwl/llesiant emosiynol wedi gwella. Sylweddolwn rôl hanfodol gofalwyr wrth gefnogi pobl yn y sir. Rydym wedi comisiynu gwasanaethau gofalwyr, rhoi gwybodaeth a chynghor a chynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau rhad ac am ddim i gefnogi anghenion gofalwyr a gofalwyr ifanc. Bu ein ffocws ar ail-lunio'r wybodaeth a roddwn i ofalwyr, a gaiff ei llywio gan adborth o'r grŵp strategaeth gofalwyr ifanc a gofalwyr. Mae'r adborth hwn yn llwyio aildatblygu ein gwefan, diwygio'r llawlyfr gofalwyr a gwella cyfeirio at sefydliadau eraill sydd ag arbenigedd a gwybodaeth penodol. Rydym yn cryfhau cysylltiadau gyda gwasanaethau gwybodaeth, cynghor a chymorth mewn gofal cymdeithasol i hwyluso adnabod gofalwyr yn gynnar. Mae nifer yr oedolion sy'n ofalwyr y gwyddom amdanynt wedi cynyddu gan dros 100 yn y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn rhoi cymorth a chynghor i'r 1,166 o oedolion sy'n ofalwyr ar ein cronfa ddata drwy ein cylchlythyr dwywaith y flwyddyn i ofalwyr a chynnig hamdden rhatach. Mae nifer y gofalwyr ifanc sydd wedi cofrestru gyda'r Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc wedi gostwng o 136 i 103 eleni. Mae hyn yn dangos gwell prosesau adnabod ac adolygiadau rheolaidd o ofalwyr ifanc y gwyddom amdanynt. Cysylltir â'r rhai nad ydynt wedi ymwneud â'r gwasanaeth yn y flwyddyn ddiwethaf dair gwaith (drwy e-bost, dros y ffôn a drwy lythyr) i wirio os ydynt angen adolygiad. Os nad oes ymateb, caiff eu manylion eu harchifo, gyda'r opsiwn i ail-gysylltu os yw eu hamgylchiadau yn newid. Cynhaliwn asesiadau o anghenion gofalwyr i sicrhau y caiff anghenion gofalwyr eu deall. Mae galw cynyddol yn parhau am gymorth i ofalwyr. Mae nifer y gofalwyr sy'n aros asesiad anghenion wedi parhau i gynyddu o 8 yn 2023/24 i 27 yn yr un cyfnod yn 2025/26. Mae cynnydd yn y galw a llai o gapasiti oherwydd swydd wag yn y tîm gofalwyr wedi arwain at restrï aros hirach am asesiad. Mae hyn hefyd wedi gostwng ein gallu i roi blaenoriaeth i gymorth ataliol, gan fod ffocws capasiti ar gynnal asesiad sydd ei angen. Rydym yn parhau i ddatblygu gwybodaeth gliriach am asesiad anghenion gofalwyr i sicrhau y caiff gofalwyr di-dâl o bob oed eu cefnogi'n gywir gan yr asiantaethau priodol ar yr adeg gywir. Rydym hefyd yn ailffocysu ac yn cynyddu capasiti yn y tîm gofalwyr i gefnogi'r cynnydd mewn gofynion cymorth gan ofalwyr.	
Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni: Gweithlu gofal cymdeithasol proffesiynol ac angerddol	
Rydym wedi datblygu ein trefniadau cynllunio gweithlu mewn gofal cymdeithasol. Rydym wedi canolbwyntio ein gwaith datblygu gweithlu gofal cymdeithasol ar fynd i'r afael â meysydd o alw uchel a recriwtio i swyddi hanfodol i ateb anghenion gofal ein preswylwyr. Mae ffocws recriwtio ar ddangos y cyfleoedd, cynnydd gyrfa, cydbwysedd gwaith a bywyd a bodlonrwydd swydd pobl sy'n gweithio o fewn y sector. Rydym hefyd yn datblygu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith a chyfleoedd llwybr prentisiaeth ar gyfer swyddi mewn gofal cymdeithasol. Yn gyffredinol, mae'r gweithlu mewn gofal cymdeithasol yn parhau'n sefydlog. Mae ein gweithlu gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i brofi pwysau mewn ymateb i alw cynyddol gymhleth a dwys gydag adnoddau cyfyngedig. Rydym wedi profi heriau cynyddol yn ddiweddar wrth recriwtio a chadw staff, yn arbennig mewn Gofal Cymdeithasol Plant, ac mae'r gofynion a phwysau cynyddol gwaith yn sbardun allweddol yn hynny. Rydym hefyd yn parhau i brofi heriau recriwtio ar gyfer rhai swyddi ar draws gofal cymdeithasol. Mae gennym lai o swyddi gwag mewn gofal cymdeithasol yn gyffredinol ar draws y flwyddyn, gyda 19 swydd wag ym mis Mawrth 2026 o gymharu â 26 swydd wag ym mis Mawrth 2025. Rydym wedi gwella datblygu a'r cynnig llesiant ar gyfer ein staff gofal cymdeithasol presennol. Rydym wedi cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant a defnyddio hyn i ddatblygu cynlluniau hyfforddiant gyda ffocws ar ddatblygiad ac ymarfer proffesiynol, yn ogystal ag adolygiadau hyfforddi, mentora a datblygu personol.	Data ar recriwtio a chadw gweithlu gofal cymdeithasol Prosiect gofal micro Ffioedd ar gyfer darparwyr gofal

Rydym wedi cyflwyno ystod o weithgareddau a chymorth gan weithio gyda darparwyr gofal a'n partneriaid. Rydym wedi datblygu prosiect micro-ofal i gynyddu'r gofal sydd ar gael yn y sir. Mae'r prosiect yn cefnogi gofalcwyr hunangyflogedig i ddatblygu eu busnesau yn ogystal â rhoi cyfle am fwy o drosolwg a llywodraethiant gweithwyr gofal hunangyflogedig sy'n gweithredu o fewn Sir Fynwy. Mae nifer y micro-ofalcwyr yn cynyddu'n gyson. Dechreuodd y cynllun fel cynllun peilot yn 2022 pan oedd 8 micro-ofalcwr wedi cofrestru. Mae nifer y gofalcwyr wedi cynyddu i 59, sydd bellach yn cyflenwi dros 900 wythnos o ofal a chymorth bob wythnos, gan gefnogi preswylwyr Sir Fynwy yn eu cymuned leol.

Rydym wedi dyrannu cyllid ychwanegol i dalu ffioedd i ddarparwyr gofal i gynyddu nifer y lleoliadau sydd ar gael ar gyfer pobl sydd angen gofal. Rydym wedi darparu cyllid ychwanegol o'r cyllidebau diweddar ar gyfer ffioedd darparwyr gofal ledled gofal cymdeithasol Plant ac Oedolion. Mae hyn yn cynnwys dyrannu £290m ychwanegol eleni i gefnogi talu'r cynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae hyn yn sicrhau y gall darparwyr barhau i dalu'r cyflog byw gwirioneddol i ddenu a chadw staff allweddol i ateb y galw cynyddol. Rydym hefyd yn parhau i anelu sicrhau fod ein cyfradd ffioedd yn parhau'n ddewis hyfyw a deniadol ar gyfer darparwyr gofal fel y gall preswylwyr ddewis y cymorth gorau iddyn nhw.

Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cyfraniad nod y Cyngor ar Nodau Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol

Cymru lewyrchus	Cymru gydnerth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang
		✓	✓	✓		



Amcan Llesiant: Lle cysylltiedig lle mae pobl yn gofalu

Mae mabwysiadu dulliau gweithredu gyda ffocws ar y gymuned yn hyrwyddo **cydweithio** fydd yn ei dro yn cefnogi llesiant. Drwy weithio gyda chymunedau, gobeithiwn **atal** problemau rhag digwydd. Mae cyfleoedd niferus yn ein sir, felly mae'n hanfodol y gall pawb **gymryd rhan** i gynyddu buddion i lesiant i'r eithaf. Dylai hyn fod â budd **hirdymor** ar gyfer unigolion a chymunedau. Bydd gan ein camau gweithredu fudd **integredig** ar gyfer llawer agwedd o hyrwyddo Cymru iachach. Byddant yn hyrwyddo Cymru o gymunedau cydlynol ac yn gyffredinol helpu i greu Cymru sy'n fwy cyfartal. Mae hefyd integreiddiad cryf gyda'n cyfrifoldebau dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Mesurau cynnydd

Carreg filltir	Targed ar gyfer cwblhau	Cynnydd	
Datblygu Strategaeth Datblygu Llesiant pobl ifanc	Ebrill 2024		Cafodd hyn ei gwblhau erbyn hyn.

Cymeradwyo strategaeth comisiynu i gefnogi sector cynaliadwy gofal yn y cartref.	Mai 2024			Cafodd hyn ei gwblhau erbyn hyn.	
Mesur	Cyfnod Blaenorol	Cyfnod Diweddaraf	Targed ar gyfer 2025/26	Golwg Gyflym	Sylwadau
Canran pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn oedd yn lliniaru'r angen am gymorth/canlyniadau cadarnhaol o ailalluogi	55.7	53.3	60	↓	Mae cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gaiff eu cyflenwi ac wedi cwblhau wedi cynyddu.
Canran defnyddwyr gwasanaethau oedolion sy'n hapus gyda'r gofal a'r cymorth a gawsant	84.7	83	85	↓	
Canran oriau gofal yn y cartref hirdymor a gafodd eu cyflawni	97.5	96.4	96	↓	Dyma'r cyfartaledd dros y flwyddyn Ebrill 25 – Mawrth 26
Canran y teuluoedd a adroddodd ganlyniad cadarnhaol yn dilyn ymyriad tîm Adeiladu Teuluoedd Cryfach	100	100	90	↔	
Canran defnyddwyr gwasanaethau oedolion a gafodd yr wybodaeth neu gyngor cywir pan oeddent ei angen	78.0	71.2	80	↓	Rydym yn cynyddu ein hadnoddau drwy staff ychwanegol i sicrhau fod gan fwy o bobl fynediad i'r wybodaeth gywir pan maent ei hangen.
Canran lleoliadau plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol a wnaed gyda gofal maeth yr awdurdod lleol ei hun	35.8	40.6	43	↑	Mae'r mesur hwn yn dangos canran y plant sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol a gaiff eu lleoli gyda gofalwyr maeth yr awdurdod lleol ei hun
Canran y bobl ifanc sy'n cymryd rhan ym mhrosiect Shift y gwasanaeth ieuenctid sy'n gweld gwelliant yn eu hiechyd meddwl/llesiant emosiynol	90	100	85	↑	
Nifer yr ysgolion, gwirfoddolwyr, grwpiau diddordeb lleol a phartneriaid sy'n ymwneud â phrosiectau a chynlluniau iechyd a llesiant seiliedig ar natur ar draws y sir	41	574	30	↑	Mae'r cynnydd hwn yn ganlyniad dau brosiect sylweddol a dderbyniodd gyllid grant yn ystod y flwyddyn

Golwg Gyflym ar y Tueddiad: ↑ Perfformiad yn gwella; ↓ Perfformiad yn gostwng; ↔ Dim newid yn y perfformiad

Golwg Gyflym ar y Targed: **Gwyrdd** – Targed a gyflawnwyd; **Oren** – colli'r targed o ychydig; **Coch** – gryn dipyn yn fyr

Lle sy'n dysgu



Amcan y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol: Lle sy'n dysgu

Ein sgôr
5 (Da lawn)



Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni:

- Gwella presenoldeb mewn ysgolion a gostwng lefelau allgau sy'n dileu rhwystrau dysgu ar gyfer disgyblion bregus
- Cynydd manteision y cwricwlwm newydd yng Nghymru i'r eithaf drwy addysgu a dysgu rhagorol
- System addysgol wirioneddol gynhwysol sy'n cydnabod mannau dechrau, cryfderau ac anghenion addysgol dysgwyr
- Parhau ein rhaglen o foderneiddio ysgolion

Asesiad Strategol

Dylai Sir Fynwy fod yn fan lle gall pob plentyn, person ifanc ac oedolyn ddysgu, datblygu sgiliau a chyflawni eu potensial. Mae addysg yn un o'r sylfeini cryfaf ar gyfer llesiant, cyflogaeth ac iechyd. Mae dechrau da mewn bywyd yn helpu plant a phobl ifanc i feithrin hyder, gwydnwch ac uchelgais, ac mae dysgu gydol oes yn galluogi preswylwyr i addasu, ailhyfforddi a chyfrannu ar hyd eu bywyd fel oedolion. Fe wnaeth y pandemig darfu'n sylweddol ar ddysgu, presenoldeb, llesiant emosiynol a datblygu cymdeithasol, ac mae ei effeithiau'n dal i gael eu teimlo. Ar yr un pryd, mae addysg yn parhau i newid drwy'r Cwricwlwm i Gymru a'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae hyn yn golygu fod yn rhaid i ni sicrhau fod pob dysgwr, yn arbennig y rhai sy'n fregus neu dan anfantais, yn cael y gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir.

Mae ystod eang o wasanaethau cyngor yn helpu i wneud Sir Fynwy yn fan lle gall pobl ddysgu a datblygu'r sgiliau maent eu hangen i gyflawni eu potensial. Mae hyn yn cynnwys blynyddoedd cynnar a gofal plant, cludiant ysgol, gwasanaethau ieuenctid, diogelu, cynhwysiant addysg, anghenion dysgu ychwanegol, dysgu oedolion yn y gymuned, lles addysg, rheoli stad ysgolion, llyfrgelloedd, hamdden, diwylliant a gwaith partneriaeth gyda iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol. Gyda'i gilydd, mae'r gwasanaethau hyn yn cefnogi mynediad i addysg, dileu rhwystrau dysgu, helpu i ennyn diddordeb parhaus dysgwyr a theuluoedd, gwella llesiant a chreu amgylcheddau cynhwysol ar gyfer dysgu gydol oes.

Rydym wedi cryfhau'r systemau, strategaethau a'r ddarpariaeth sydd eu hangen i ateb anghenion cynyddol dysgwyr. Rydym wedi diweddarau polisïau a chanllawiau allweddol a chryfhau cymorth aml-asiantaeth ar gyfer disgyblion bregus. Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn agos i'r hyn oedd cyn y pandemig ac yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd hefyd wedi gwella ac mae'n parhau'n uwch na chyfartaledd Cymru, er ei fod yn dal yn is na lefelau cyn y pandemig. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn parhau yn her, yn arbennig mewn ysgolion uwchradd. Mae'r achosion yn aml yn gymhleth ac wedi cysylltu gydag anfantais ehangach, llesiant, amgylchiadau teuluol ac anghenion dysgu ychwanegol.

Rydym wedi ymateb i gymhlethdod cynyddol ac ymddygiad sy'n herio drwy ail-lunio gwasanaethau cynhwysiant, gwella data, sefydlu panel cynhwysiant a gweithio gydag ysgolion i ddefnyddio symudiadau wedi'u rheoli, darpariaeth dysgu ychwanegol a chymorth arall i osgoi pethau rhag gwaethygu. Mae gwaharddiadau cyfnod penodol yn parhau'n uchel ac yn dal i roi pwysau ar ysgolion a darpariaeth arbenigol. Fodd bynnag, cafodd pob gwaharddiad parhaol a roddwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf eu hatal drwy waith aml-asiantaeth cryfach a threfniadau amgen ar gyfer cymorth.

Mae addysgu, dysgu a datblygu cwricwlwm yn parhau'n gryf yn gyffredinol. Mae dysgwyr mewn ysgolion uwchradd yn parhau i gael canlyniadau uwch na chyfartaledd Cymru, gyda sgôr cap 9 o 375.9.

Dengys arolygiadau Estyn fod llawer o ysgolion yn datblygu cwricwla eang, cytbwys a phwrpasol sy'n adlewyrchu eu cyd-destun ac sy'n diwallu anghenion disgyblion. Mae amrywiad yn parhau, yn arbennig ar gyfer disgyblion gyda chyrhaeddiad is a dysgwyr difreintedig, felly bydd ein cymorth a'n her yn parhau i ganolbwyntio ar lle mae mwyaf o angen gwelliant.

Rydym wedi cryfhau addysg gynhwysol gan helpu i greu dull mwy cyson a theg ar gyfer dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol a rhwystrau eraill i ddysgu. Rydym yn gostwng dibyniaeth ar ddarpariaeth tu allan i'r sir drwy ehangu darpariaeth arbenigol leol yn cynnwys Canolfan Adnoddau Arbenigol Cymdeithasol, Emosiynol ac Iechyd Meddwl, a drwy ddatblygu darpariaeth ychwanegol mewn ysgolion. Mae'r galw am gymorth anghenion dysgu ychwanegol yn cynyddu ac mae ysgolion yn wynebu pwysau ariannol a chapasiti parhaus.

Rydym hefyd wedi ehangu cyfleoedd ar gyfer dysgwyr a phreswylwyr. Fe wnaeth y rhaglen Ysbrydoli gefnogi 285 o bobl ifanc i ennill cymhwyster neu sgil bywyd ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Cydnabu Estyn y Gwasanaeth Ieuenctid am gefnogi hyder, gwydnwch a sgiliau bywyd pobl ifanc, a gallodd pobl ifanc ddatgan eu barn drwy bleidlais Gwneud eich Marc a chynhadledd ieuenctid. Daeth dysgu oedolion yn y gymuned yn fwy hygyrch drwy gyrsiau yn derbyn cymhorthdal a gwaith partneriaeth gyda Choleg Gwent, gyda 963 ymrestriad yn ystod y flwyddyn.



Gwnaethom gynnydd gyda moderneiddio ysgolion ac addysg Gymraeg. Mae ysgol newydd pob oed Brenin Harri VIII yn y Fenni yn cynnig cyfleusterau dysgu modern, cynhwysol a sero net ar gyfer disgyblion 3 i 19 oed, yn cynnwys darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion gydag anghenion niwroddatblygiadol a dysgu cymhleth. Rydym hefyd wedi gwella ac ailfodelu cyfleusterau gwasanaeth cyfeirio disgyblion yn ne Sir Fynwy, cwblhau adeilad meithrinfa newydd Tryleg, agor Ysgol Gymraeg Trefynwy a sicrhau safle newydd ar gyfer Ysgol Gymraeg y Fenni.

Lle sy'n Dysgu		
Yn lle i Ddysgu 	Sgôr Gwerthusiad:	Lefel 2 – Da iawn – Cryfderau pwysig – mae mwyafrif sylweddol o gamau gweithredu a mesurau ar y trywydd iawn. Nid oes mwy nag un neu ddau ohonynt yn brin. Rydym wedi datblygu ein dulliau gweithredu a chynyddu ein cymorth i ysgolion a disgyblion i ymateb i gynnydd yn y galw a chymhlethdod y cymorth mae plant a phobl ifanc ei angen, yn arbennig ddysgwyr bregus. Mae ein asesiad yn dynodi'r cynnydd a wnaed mewn presenoldeb, cyrhaeddiad a chymorth i ddysgwyr bregus. Rydym yn parhau i addasu, datblygu a thargedu ein cymorth i ateb cymorth ac angen pellach.
Pam fod gennym ni ffocws ar hyn? Bydd Sir Fynwy yn fan lle mae pawb yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd ac yn cael cyfle i ddysgu, gan ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth y byddant eu hangen i gyflawni eu potensial. Cafodd y pandemig effaith sylweddol ar ysgolion a disgyblion. Mae'n anochel fod y ddwy flynedd o ansicrwydd a tharfu sylweddol ar ddysgu wedi gadael gwaddol. Cyn y pandemig gwyddem nad oedd ein dysgwyr difreintiedig yn cyflawni'r deiliannau y byddem wedi eu dymuno. Mae'r pandemig wedi gwaethygu profiadau dysgu llawer o fyfyrwyr bregus tebyg i'r rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Effeithiwyd yn aml ar lesiant emosiynol a meddyliol disgyblion, gyda llawer yn profi mwy o ansicrwydd, pryder ac unigrwydd. Yn unol â'n prif egwyddorion, mae'n hanfodol ein bod yn datblygu mwy o gyfleoedd i wrando a dysgu gan ein disgyblion a'n myfyrwyr. Ers i ysgolion ailagor mae'r system addysg yng Nghymru wedi parhau i esblygu gyda diwygiadau a datblygiadau yn cynnwys y cwricwlwm newydd i Gymru a chyflwyno Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd.		
Pa mor dda ydyn ni'n cyflawni y canlyniadau y gwnaethom gytuno arnynt?		Sut ydyn ni'n gwybod?
Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni: Gwellu presenoldeb yn yr ysgol a gostwng lefelau gwaharddiad sy'n dileu rhwystrau i ddysgu ar gyfer disgyblion bregus		
Bu presenoldeb is mewn ysgolion yn her ledled Cymru ers y pandemig. Gwyddom fod bod yn yr ysgol yn cefnogi llesiant a datblygiad plant. Rydym yn gweithio gydag ysgolion i wella presenoldeb disgyblion, sydd wedi cynyddu mewn ysgolion cynradd a hefyd ysgolion uwchradd, er fod y cynnydd yn parhau'n raddol. Rydym wedi diweddarau ein polisi presenoldeb ac ymgysylltu. Mae hyn yn rhoi dull mewn camau i ysgolion gefnogi gwelliannau mewn presenoldeb. Mae gennym Wasanaeth Llesiant Addysg sy'n darparu cymorth wedi ei dargedu ar gyfer disgyblion bregus. Mae Swyddog Cyswllt â Theuluoedd hefyd yn sicrhau cymorth ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid tebyg i Cynhwysiant, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd a'r Heddlu i sicrhau dull gweithredu cydlynol. O'r 80 disgybl cynradd a gefnogwyd gan y Tîm Cymorth Addysg ar draws 24/25, fe wnaeth 79% ddangos cynnydd mewn presenoldeb. Rydym yn ehangu ein dealltwriaeth o sbardunau presenoldeb isel. Fel rhan o ddiweddarau ein polisi ar bresenoldeb ac ymgysylltu, rydym wedi datblygu canllawiau ychwanegol ar osgoi ysgol am resymau emosiynol (EBSA). Rydym hefyd wedi cynnal gwaith aml-asiantaeth helaeth i wella'r ddealltwriaeth o, a'r cymorth a gynigir, am EBSA gan weithwyr proffesiynol yn cynnwys staff ysgolion. Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth adnabod cynnar ac ataliol sy'n helpu i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol ac atal absenoliaeth cyson. Rydym wedi datblygu polisi ar blant sy'n colli addysg sy'n nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i gefnogi ac ymgysylltu gyda phlant sy'n colli addysg a'r rhai sydd mewn risg o beidio mynychu. Rydym yn cymryd rhan mewn gwaith datblygu gyda Llywodraeth Cymru i gryfhau prosesau ar gyfer plant sy'n colli addysg. Mae hyn yn sicrhau fod gennym wybodaeth dda i fonitro a chefnogi'r grŵp hwn o ddisgyblion bregus yn effeithlon. Mae gennym brosesau polisi cadarn yn eu lle i sicrhau bod y Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithredu os cânt eu hysbysu am blant sy'n colli'r ysgol ac yn eu hymchwilio. Rydym yn cefnogi'r plant i ddychwelyd i'r ysgol cyn gynted ag sydd modd lle mae hynny'n bosibl.		Gwasanaeth Lles Addysg Presenoldeb mewn Ysgolion Gwaharddiadau o Ysgolion Dull gweithredu ysgol gyfan at lesiant emosiynol a meddyliol Hyfforddiant Ysgolion Ystyriol o Drawma

Dywedodd arolwg gan Estyn o wasanaethau addysg a gwblhawyd ym mis Tachwedd 2025 fod dull gweithredu ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar berthynas at wella presenoldeb yn gryfder, gyda gwelliannau clir mewn presenoldeb ysgolion cynradd ac arwyddion cynnar o gynnydd ar gyfer rhai grwpiau bregus. Mae Estyn hefyd yn glir fod angen gwella pellach ar bresenoldeb ar gyfer disgyblion oedran uwchradd a disgyblion gyda ADY. Fe wnaethant hefyd nodi nad yw'r gwerthusiad o strategaethau presenoldeb yn ddigon cadarn hyd yma i benderfynu pa ymyriadau sy'n cael yr effaith fwyaf. Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn dychwelyd yn gyflymach i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig, o 92.9% yn 22/23 i 93.9% yn 24/25. Er eu bod yn is na'r lefelau cyn y pandemig, mae hyn 1.1 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru. Bu presenoldeb ysgolion uwchradd yn fwy heriol i'w gynyddu oherwydd yr ystod gymhleth o ffactorau sy'n gyrru presenoldeb is. Cynyddodd presenoldeb mewn ysgolion uwchradd o 88.1% yn 22/23 i 89.5% yn 24/25. Mae hyn fwy na 5 pwynt canran yn is na lefelau cyn y pandemig, fodd bynnag mae'n uwch na chyfartaledd Cymru. Sylweddolwn fod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â heriau parhaus mewn presenoldeb, yn arbennig mewn ysgolion uwchradd. Mae sicrhau lefelau uchel o bresenoldeb ymysg disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn her fwy cymhleth. Rydym yn ymroddedig i gynyddu presenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Roedd presenoldeb disgyblion cymwys am brydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd yn 89.1% yn 24/25, bron 4 pwynt canran yn is na disgyblion nad oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim, fodd bynnag mae hyn 0.9 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mewn ysgolion uwchradd, roedd presenoldeb disgyblion cymwys am brydau ysgol am ddim yn 79.8%, bron 10% yn is na disgyblion heb fod yn gymwys am brydau ysgol am ddim ac ychydig is na chyfartaledd Cymru. Rydym yn weld cynnydd mewn ymddygiad heriol mewn ysgolion. Mae hon yn her a welir ar draws y Deyrnas Unedig ers y pandemig. Fel canlyniad, mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol yn ein ysgolion wedi mwy na dyblu rhwng 22/23 a 24/25, gyda 2,198 wedi eu rhoi yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Rydym yn gwella sut ydym yn casglu a dadansoddi data ar waharddiadau. Mae hyn yn cyfoethogi ein gwybodaeth o resymau dros waharddiadau ac yn hwyluso her a chymorth i ysgolion. Rydym wedi dynodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer cymorth yn cynnwys cynyddu gallu ysgolion i gefnogi dysgwyr sy'n cyflwyno ymddygiad sy'n achosi consyrn a all fod angen darpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae ysgolion yn parhau i wynebu pwysau ariannol ac mae rhai yn ei chael yn anodd i roi'r cymorth ychwanegol mae dysgwyr ei angen. Rydym wedi gweithredu Panel Cynhwysiant i reoli gwaharddiadau parhaol. Mae hyn yn caniatáu gwneud penderfyniadau aml-asiantaeth ar y camau nesaf a monitro. Rydym yn sicrhau, drwy'r panel hwn, fod buddiannau dysgwyr yn ganolog i'r penderfyniad. Rydym yn gweithio gydag ysgolion i ddefnyddio symudiadau wedi eu rheoli i leoliad priodol, yn cynnwys Cysgod y Coed (Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion Sir Fynwy yn flaenorol). Rydym hefyd yn gweithio gydag ysgolion i gynyddu'r cymorth sydd ar gael neu addasu darpariaeth ddysgu ychwanegol lle'n bosibl i osgoi pethau rhag gwaethygu. Mae'r gwelliannau hyn yn y broses wedi arwain at ddiddymu pob gwaharddiad parhaol a gyhoeddwyd yn ystod 24/25. Mae hyn yn galluogi disgyblion oedd mewn risg o waharddiad parhaol i barhau i gael eu cefnogi mewn lleoliad priodol, gan wella cyfleoedd bywyd y disgyblion hyn. Rydym yn rhoi cyllid ychwanegol i ysgolion i alluogi pob ysgol i gael darpariaeth ychwanegol ar y safle. Bydd hyn yn galluogi mwy o bobl ifanc gydag anghenion ychwanegol i aros yn eu lleoliad ysgol ac mae'n gydnaws gyda'n gwerthoedd o hyrwyddo amgylchedd ysgol cynhwysol ac sy'n dangos cydymdeimlad.	Arolwg Estyn o Wasanaethau Addysg Sir Fynwy
Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni: Cynyddu buddion y cwricwlwm newydd yng Nghymru i'r eithaf drwy addysgu a dysgu rhagorol Mae angen i ni gefnogi pob dysgwr i sicrhau'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol y byddem yn disgwyl iddynt eu cael ar y pwynt perthnasol yn eu haddysg. Rydym yn sicrhau fod ysgolion yn Sir Fynwy yn croesawu'r cwricwlwm newydd. Drwy fonitro cyson ac arolygiadau Estyn gwyddom, yn	Adroddiadau arolygon Estyn

gyffredinol, fod llawer o ysgolion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu cwricwlwm eang, cytbwys a phwrasol sy'n adlewyrchu cyd-destun yr ysgol ac yn diwallu anghenion disgyblion yn dda. Mae bron bob ysgol wedi alinio eu cwricwlwm gydag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru ac mae gan y rhan fwyaf weledigaeth glir ar gyfer y cwricwlwm. Maent wedi cynllunio eu cwricwlwm yn ofalus i hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithlon.

Mae canlyniadau dysgwyr yn ein hysgolion uwchradd yn parhau i fod yn uwch nag mewn mannau eraill yng Nghymru. Ar gyfartaledd roedd y sgôr cap 9 pwynt yn 357.9 yn Sir Fynwy yn 2025, o gymharu â 354.3 ledled Cymru. Fe wnaeth y rhan fwyaf o'n disgyblion berfformio yn unol â'u disgwyliadau. Yn gyffredinol, roedd dwy ysgol yn Sir Fynwy yn uwch na deilliannau cap 9 a fodelwyd gan Lywodraeth Cymru, a dwy islau mewn rhai categorïau. Mae gwahanu grwpiau o ddysgwyr ym mhob ysgol unigol i 'draeanau' o gymharu gyda deilliannau a fodelwyd yn dangos fod pob ysgol yn uwch na'r disgwyl ar gyfer y traean sy'n cyflawni uchaf. Gwelwn fwy o amrywiad o'r canlyniad a fodelwyd yn y traean canol a'r traean isaf, yn arbennig y traean isaf. Mae hyn yn awgrymu fod angen ymyriad wedi ei dargedu i gefnogi dysgwyr gyda chyrhaeddiad is.

Pan mae ysgolion yn gwerthuso eu perfformiad eu hunain, maent yn asesu hyn o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae hyn yn asesiad mwy gwybodus a manwl o gyrhaeddiad a chynnydd ehangach, o gofio am gyfansoddiad a chynlluniau unigol amrywiol ysgolion, na'u cymharu gyda chyfartaleddau Cymru. Caiff y grwpiau hyn o ysgolion tebyg eu galw yn 'deuluoedd'. Wrth gymharu ein hysgolion uwchradd gyda'r rhai yn eu 'teulu', mae dwy ysgol yn perfformio'n well nag ysgolion ym mhob categori (yn cynnwys cap 9, llythrennedd, rhifedd, gwyddoniaeth, Bagloriaeth Cymru, 5+ A*=A, dim cymwysterau). Mae un o'n hysgolion yn perfformio'n is ym mhob categori ac un mewn mwyafrif o gategorïau o gymharu ag ysgolion tebyg.

Rydym yn parhau i gefnogi ein ysgolion i godi lefelau cyrhaeddiad tu hwnt i'r lefelau disgwylledig i lefelau lle maen nhw a ni eisïau i gyrhaeddiad fod. Mae gennym strategaeth glir ar gyfer gwella ysgolion. Mae hyn wedi ein cefnogi i sefydlu system gadarn o gymorth a her. Canfu arolwg gan Estyn o wasanaethau addysg a gwblhawyd ym mis Tachwedd 2025 fod rolau wedi eu diffinio'n dda, atebolrwydd cryf a chasglu gwybodaeth yn gyson yn galluogi arweinwyr a Phartneriaid Gwella Ysgolion i ddatblygu dealltwriaeth gywir o ysgolion. Mae ein gwaith yn sicrhau y caiff rhwystrau i wella eu trin yn brydlon.

Rydym wedi gweld gwelliannau yn ansawdd addysgu a dysgu yn ein hysgolion. Ers mis Chwefror 2022, mae Estyn wedi cynnal arolwg mewn 20 ysgol gynradd, 11 lleoliad nas cynhelir, 3 ysgol uwchradd a Cysgod y Coed yn Sir Fynwy. Barnwyd fod dwy ysgol uwchradd a Cysgod-y-Coed angen gwelliant sylweddol. Ers hynny, mae un ysgol uwchradd oedd yn cael gweld gwella sylweddol wedi cau. O weddill yr ysgolion, nid oedd angen gweithredu dilynol, gydag arfer da neu astudiaethau achos wedi eu dynodi mewn llawer.

Rydym wedi cytuno ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n gosod ein cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio, cyflenwi a thwff addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Fynwy dros y deng mlynedd nesaf. Rydym yn bennaf ar y trywydd cywir gyda thargedau cyflenwi y cynllun. Fe wnaethom agor Ysgol Gymraeg Trefynwy i wasanaethu Trefynwy a hefyd y trefi a phentrefi cyfagos ym mis Medi 2024. Bu'r galw am leoedd yn gadarnhaol, gyda 33 disgybl wedi ymrestru ar hyn o bryd. Rydym yn ehangu darpariaeth yn Ysgol Gymraeg y Fenni. Mae'r ehangiad hwn, o'i gyfuno gydag Ysgol Gymraeg Trefynwy, yn golygu y bydd 120 lle ysgol ar gyfer pob cohort. Mae hyn yn fwy na tharged o Lywodraeth Cymru o 115 lle, a chyflawni dyheadau a thargedau ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Rydym yn cynyddu nifer dysgwyr Cymraeg drwy ein darpariaeth trochi. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ymuno â'n hysgolion cyfrwng Cymraeg yn ddiweddarach. Mae dosbarthiadau trochi wedi cefnogi twf mewn rhifau disgyblion mewn dosbarthiadau derbyn gan ei fod yn galluogi rhieni i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu holl blant, nid dim ond y rhai sy'n dechrau yn yr ysgol. Ers agor ein dosbarth trochi cyntaf yn Ysgol Gymraeg y Ffin, mae 32 disgybl wedi cael budd o'r ddarpariaeth yma. Rydym yn awr wedi ehangu ein darpariaeth i Ysgol Gymraeg y Fenni, ac yn bwriadu agor darpariaeth yn Ysgol Gymraeg Trefynwy o fis Medi 2026. Rydym yn gweithio gyda phob un o'r tair ysgol i gyd-adeiladu model cynaliadwy ar draws y

Data cyrhaeddiad

Cynllun Strategol
Cymraeg mewn
Addysg

sir ar gyfer trochi. Er fod y gwaith hwn ar gam gynnar o gael ei ddatblygu bydd alinio darpariaeth ar draws y ddau ddosbarth trochi a sefydlwyd yn cefnogi unrhyw newidiadau yn y dyfodol.	
Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni: System addysgol gwirioneddol gynhwysol sy'n cydnabod mannau dechrau, cryfderau ac anghenion addysgol dysgwyr	
Mewn blynyddoedd diweddar gwelodd ysgolion gynnydd cyson yn nifer y plant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Gall y myfyrwyr hyn wynebu heriau nad yw pob myfyriwr yn eu hwynebu. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn cefnogi ein dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim i gyflawni eu potensial. Rydym yn parhau i fynd i'r afael â'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt. Mae hwn yn fater cymhleth gyda llawer o ffactorau yn dylanwadu arno, yn cynnwys presenoldeb is ymysg y cohort sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a bod disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o fod ag anghenion ychwanegol neu fod angen darpariaeth dysgu ychwanegol. Yn ystod 2025 cynyddodd y bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng dysgwyr y ddau gohort yn Sir Fynwy, gan fod yn awr tua 1.8 gradd TGAU. Mae ysgolion yn parhau i gynnal asesiad manwl o gyrhaeddiad a chynnydd ehangach yn seiliedig ar wahanol gyfansoddiad a cynlluniau unigol pob ysgol i sicrhau fod pob disgybl yn cael cyfle cyfartal i lwyddo waeth beth yw eu cefndir economaidd-gymdeithasol. Rydym hefyd yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau fod llwybrau a chyfleoedd ar gael sydd o ddiddordeb i bob dysgwr. Rydym yn ymchwilio opsiynau gyda Coleg Gwent ar ddatblygu Prentisiaethau Iau yn y sir, ac wedi parhau i weithio i hybu cyfleoedd i gwblhau cymwysterau gofal plant. Rydym wedi datblygu Strategaeth Cynhwysiant newydd a diweddarau ein Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol i lunio ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc mewn ysgolion a lleoliadau yn Sir Fynwy. Mae'r Strategaeth Cynhwysiant yn cyflwyno ein blaenoriaethau i wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc mewn grwpiau bregus a'u teuluoedd. Mae'r Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yn amlinellu ein dull o gefnogi plant a phobl ifanc sydd â rhwystrau i ddysgu ac anghenion dysgu ychwanegol, gan sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth, adnoddau a chyfleoedd angenrheidiol i ffynnu yn academiaidd, cymdeithasol ac emosiynol. Mae'r polisiâu a'r strategaethau hyn yn hwyluso sicrhau amgylchedd cynhwysol a charedig mewn ysgolion. Rydym yn sicrhau y gall anghenion bron bob dysgwr gyda Sir Fynwy gael eu diwallu gan eu ysgol brif ffrwd leol drwy ein Canolfannau Adnoddau Arbenigol. Mae hyn yn galluogi mwy o blant i aros yn eu hysgol leol ac yn gostwng yr angen am leoliadau tu allan i'r sir. Rydym wedi sefydlu Adolygiad o Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol a chylch sicrwydd ansawdd cysylltiedig i sicrhau fod dull cyson a theg i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc Sir Fynwy sydd ag ADY. Mae'r asesiad yn dangos llawer o gryfderau mewn darpariaeth ar draws Sir Fynwy, yn ogystal â dynodi rhai argymhellion i'w datblygu ar gysondeb darpariaeth ADY ar draws y sir. Gwelwn y galw yn cynyddu am ddarpariaeth ADY ar draws y sir, ac efallai na fydd modd i ni ateb hynny o fewn y ddarpariaeth bresennol. Rydym yn ehangu ein darpariaeth arbenigol leol drwy sefydlu Canolfan Adnoddau Cymdeithasol, Emosiynol a Iechyd Meddwl yn adeilad blaenorol Ysgol y Fenni. Bydd hyn yn sicrhau y gall mwy o blant gael mynediad i'r cymorth sydd ei angen a gostwng dibyniaeth ar leoliadau tu allan i'r sir. Rydym yn parhau i weithredu rhaglen Ysbrydoli ar draws y sir. Mae'r rhaglen hon yn cefnogi pobl ifanc a all fod yn wynebu rhwystrau i ddysgu tebyg i bresenoldeb, cyrhaeddiad, ymddygiad a llesiant. Rydym yn gweithio gyda phobl ifanc i oresgyn heriau, eu dychwelyd i leoliad ysgol lle'n bosibl neu dynodi llwybrau addas eraill. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gefnogi 285 o bobl ifanc i sicrhau cymhwyster ychwanegol a/neu sicrhau sgil bywyd. Mae Gwasanaeth Ieuencid y cyngor yn darparu ystod o wasanaethau cynhwysol i gefnogi hyder, gwydnwch a sgiliau bywyd pobl ifanc. Cafodd y gwahaniaeth cadarnhaol a wnaiff y Gwasanaeth Ieuencid i blant a phobl ifanc ar draws y sir ei gydnabod mewn arolwg Estyn o'r gwasanaeth ym mis Tachwedd 2025. Cynhaliodd y Gwasanaeth Ieuencid bleidlais "Gwneud eich Marc", y cymerodd bron dri-chwarter y bobl ifanc 11-18 oed ran ynddi	Data cyrhaeddiad Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol Strategaeth Cynhwysiant Adolygiad o Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol Rhaglen Ysbrydoli Cyfranogiad mewn cyrsiau addysg oedolion

yn 2025 a Chynhadledd leuenctid. Dywedodd pobl ifanc mai eu tair prif flaenoriaeth oedd costau byw, materion iechyd meddwl, a chyflogaeth a sgiliau. Fe wnaeth hyn alluogi pobl ifanc i fynegi eu barn yn glir ac yn ddemocrataidd ac mae eu sylwadau yn llywio datblygu polisi. Rydym yn gostwng rhwystrau ariannol i’n cyrsiau addysg oedolion i’w gwneud yn fwy hygyrch i’n preswylwyr. Rydym wedi adolygu ein model cyllido cyrsiau sy’n awr yn golygu fod ein holl gyrsiau addysg gymunedol yn derbyn cymhorthdal uniongyrchol. Rydym hefyd wedi parhau ein partneriaeth gyda Choleg Gwent i gynnig dysgu lefel sylfaen ar gost isel. Sylweddolwn bwysigrwydd dileu unrhyw rwystrau i gymryd rhan mewn addysg oedolion a’r effaith y gall ei gael ar oedolion yn ennill sgiliau a gwybodaeth newydd. Roedd cyfanswm o 963 wedi ymrestru ar gyrsiau addysg gymunedol yn 25/26.	
Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni: Parhau ein rhaglen o foderneiddio ysgolion	
Mae’r amgylchedd y mae plant a phobl ifanc yn dysgu ynddo yn bwysig i’w datblygiad a’u llesiant. Rydym wedi buddsoddi £1.2m mewn gwella ac ailfodelu ein gwasanaeth cyfeirio disgyblion yn ne Sir Fynwy. Mae hyn yn rhoi amgylchedd ansawdd uchel parhaol a neilltuol sy’n gweddu anghenion a gofynion cynyddol y boblogaeth fregus o ddisgyblion y mae’n eu gwasanaethu. Rydym yn ehangu ein darpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg. Rydym wedi sicrhau safle newydd ar gyfer Ysgol y Fenni fydd yn cynyddu capasiti’r ysgol o 210 i 420 disgybl. Mae oedi yn y gwaith adeiladu yn golygu y cafodd agoriad y safle ei ohirio. Agorwyd Ysgol Gymraeg Trefynwy ar safle Ysgol Gynradd Overmonnow ym mis Medi 2024, gyda 24 disgybl yn mynychu, sydd bellach wedi cynyddu i 33 disgybl. Er mwyn parhau i ehangu ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg mae angen i ni ganolbwyntio ar hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a sicrhau staff addas i sicrhau addysg ansawdd uchel ar gyfer ein pobl ifanc.	Ysgol pob oed Brenin Harri VIII Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion
ASTUDIAETH ACHOS – YSGOL BRENIN HARRI VIII Ym mis Gorffennaf 2025 roeddem yn dathlu agoriad swyddogol ysgol pob oed newydd Ysgol Brenin Harri VIII yn y Fenni. Mae’r adeilad yn ganolbwynt ar gyfer dysgu yn y Fenni, gan roi’r dulliau i bobl ifanc ffynnu yn ogystal â chyfleusterau i’r gymuned ehangach. Yr adeilad yw’r ysgol bob oed gyntaf yng Nghymru i fod yn weithredol garbon sero net, yn unol â’n hymrwymiad i ddatgarboneiddio ein gweithgareddau. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 1,200 o ddisgyblion oed ysgol uwchradd, 420 o ddisgyblion oed ysgol gynradd a 200 lle ar gyfer addysg ôl-16. Bydd hefyd gyfleusterau addas ar gyfer 71 disgybl gydag anghenion niwroddatblygiadol a dysgu cymhleth yn yr ysgol. Bydd hyn yn helpu i ostwng nifer y disgyblion sy’n mynychu ysgol uwchradd tu allan i’r sir.	

Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Cyfraniad nod y Cyngor at Nodau Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru						
Cymru lewyrchus	Cymru gydnerth	Cymru iachach	Cymru sy’n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydynus	Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy’n gyfrifol yn fyd-eang
✓		✓	✓		✓	

Amcan Llesiant: Lle i ddysgu



Mae natur **hirdymor** y nod hon yn gynhenid i'w llwyddiant. Bydd gweithio gyda a **chynnwys** plant a phobl ifanc cyn gynted ag sydd modd, i ddynodi eu hanghenion yn rhoi'r cyfle gorau o gyflawni eu potensial mwyaf. Bydd **atal** problemau cyn iddynt ddechrau yn rhoi'r cyfle gorau i bobl ifanc ddatblygu. Mae defnyddio dull **cydweithiol** ac alinio gwasanaethau yn rhoi adnodd crwn sy'n gweithio mewn cytgordd ar gyfer y person ifanc. Drwyddi draw, mae'r dull hwn yn **integreiddio** anghenion ein pobl ifanc, gan sicrhau eu bod yn cael y cyfle gorau o gyflawni eu nodau.

Mesurau cynnydd

Carreg filltir	Targed ar gyfer cwblhau	Cynnydd
Diweddaru'r Strategaeth Presenoldeb ac Ymgysylltu i gryfhau systemau a phrosesau i wella a chynnal lefelau uchel o bresenoldeb yn unol â chanllawiau newydd Llywodraeth Cymru	Medi 2024	Cafodd hyn ei gwblhau erbyn hyn
Y Cabinet yn cymeradwyo Strategaeth Cynhwysiant	Tachwedd 2025	Cafodd hyn ei gwblhau erbyn hyn
Cwblhau Sicrwydd Ansawdd Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) ar draws y sir drwy ffurflenni cyllid a phyramidiau darpariaeth. DDdY yn diwallu anghenion dysgwyr bregus y sir ac o ansawdd da	Asesiad rheolaidd	Sefydlwyd cylch sicrwydd ansawdd cysylltiedig ag Adolygiad DDdY. Cyflwynwyd diweddariad ar ganlyniadau ac argymhellion sicrwydd ansawdd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg ym Mehefin 2025.
Cydlynwyr Anghenion Dysgu ychwanegol ac Arweinwyr Canolfannau Adnoddau Arbenigol yn cymryd rhan mewn prosesau sicrwydd ansawdd am gysondeb ac effaith darpariaeth ADY drwy fforwm a chlwestwr DDdY / Tîm Darpariaeth Arbenigol ac Allgymorth	Asesiad Rheolaidd	Cafodd Cynlluniau Datblygu Unigol eu safoni ar lefel clwstwr a hefyd Awdurdod Lleol. Cafodd hunanwerthusiad uwchradd a gefnogwyd ar gyfer deiliannau ADY / DDdY eu rhannu gyda chydlynwyr ADY a phenaethiaid ysgol; lle'n berthnasol, cafodd cynlluniau gweithredu eu datblygu gyda ysgolion neu ychwanegwyd at gynlluniau presennol.
Agor ysgol 3-19 newydd niwtral o ran carbon yn y Fenni	Cam 1 Ebrill 2025, Cam 2 Ebrill 2026	Cafodd Cam 1 ei gwblhau ym mis Ebrill 2025 pan gafodd yr adeilad newydd ei gwblhau. Nid yw Cam 2 wedi ei gwblhau eto.
Cwblhau adolygiad strategol o ddalgylchoedd ysgolion a gwneud argymhellion i'r Cabinet.	Adolygiad blynyddol o bolisi	Y Cabinet yn cymeradwyo Polisi Derbyn i Ysgolion 2025/26, yn cynnwys adolygiad o ddalgylchoedd ysgolion, ym mis Ebrill 2024 pan gytunwyd cynnwys pentrefi Tredynog, Llanhenog a Llandegfedd yn nalgylch Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Brynbuga. Cafodd y newidiadau hyn eu gweithredu ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26.
Darparu meithrinfa nas cynhelir yn Nhryleg, buddsoddi cyllid A106 i wella seilwaith ysgolion Parc y Castell ac Archesgob Rowan Williams a gwella a datblygu'r adeiladau a ddefnyddir ar gyfer y Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion	Tryleg Mawrth 2025, Archesgob Rowan Williams Ionawr 2027	Cafodd adeilad Meithrinfa Tryleg ei gwblhau a'i agor yn Chwefror 2025. Rydym yn buddsoddi cyllid A106 i wella seilwaith ysgolion Parc y Castell ac Archesgob Rowan Williams a disgwyliwn gwblhau hyn erbyn Ionawr 2027.

Agor darpariaeth egin cyfrwng Cymraeg newydd yn Nhrefynwy	Medi 2025			Cafodd hyn ei gwblhau erbyn hyn	
Agor ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi ei hadnewyddu	Agor ac adnewyddu Medi 2025			Sicrhawyd safle newydd ar gyfer Ysgol y Fenni fydd yn cynyddu capasiti'r ysgol o 210 i 420 disgybl. Mae oedi yn y gwaith adeiladu wedi golygu y cafodd agoriad yr ysgol hon ei ohirio hyd at 2026.	
Mesur	Blaenorol	Diweddaraf	Targed ar gyfer 2025/26	Golwg Gyflym	Sylwadau
Canran presenoldeb disgyblion (cromfachau yn dangos ffigurau disgyblion cymwys am brydau ysgol am ddim) i) Cynradd ii) Uwchradd	i) 93.6 (89.0) ii) 88.2 (75.8)	i) 93.9 (89.1) ii) 90.1 (79.8)	i) 94 (92) ii) 94 (92)	↑	Mesurir data mewn blynyddoedd academiaidd. Mae'r golofn Flaenorol yn dangos data blwyddyn academiaidd 2023/24, a Diweddaraf yn dangos blwyddyn academiaidd 2024/25.
Canran ysgolion sy'n cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol yn gysylltiedig ag Osgoi Ysgol am Resymau Emosiynol (EBSA), Dulliau Ystyriol o Drawma, ac Awtistiaeth	79	94	100	↑	
Nifer disgyblion Derbyn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg	56	57	85	↑	Mae'r ffigur Blaenorol ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24, y Diweddaraf ar gyfer blwyddyn academiaidd 2024/25.
Nifer y plant sy'n symud o ysgol gynradd Gymraeg i ysgol uwchradd Gymraeg	27	22	46	↓	Blaenorol yw blwyddyn academiaidd 2023/24, Diweddaraf yw blwyddyn academiaidd 2024/25.
Nifer y bobl ifanc a gefnogwyd gan Ysbrydoli (cymorth yn yr ysgol/allgymorth/cymorth ôl-16) i gyflawni cymhwyster ychwanegol a/neu ennill sgil bywyd	186	285	133	↑	Mae hwn yn ffigur blynyddol ar gyfer 2025/26.
Nifer oedolion wedi ymrestru ar gyrsiau addysg gymunedol yn cynnwys cyrsiau ffransais Coleg Gwent	909	963	950	↑	

Golwg Gyflym ar y Tueddiad: ↑ Perfformiad yn gwella; ↓ Perfformiad yn gostwng; ↔ Dim newid yn y perfformiad

Golwg Gyflym ar y Targed: **Gwyrdd** – Targed a gyflawnwyd; **Oren** – colli'r targed o ychydig; **Coch** – gryn dipyn yn fyr

Mae'r Ddeddf yn nodi meysydd craidd mewn sefydliad sydd angen addasu i fodloni'r gofynion ar ein gwasanaethau sy'n newid a sicrhau eu hirhoedledd a'u cynaliadwyedd. Rydym wedi gwerthuso ein trefniadau ar gyfer y meysydd hyn a chynnwys digidol a data fel galluoogydd pwysig o'r modd yr ydym yn cyflawni gwasanaethau'r cyngor. Y meysydd yr ydym wedi eu hasesu yw:

- ## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym wedi paratoi drafft Ddatganiad Llywodraethiant Blynyddol am y flwyddyn 2025/26 sy'n dangos bod gennym drefniadau llywodraethiant priodol yn eu lle i fodloni egwyddorion llywodraethiant a bod adolygiad wedi ei gynnal i asesu effeithiolrwydd y trefniadau hynny. Mae'r hunan-asesiad hwn o'n hadnoddau yn integreiddio gyda chanfyddiadau'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a bydd hefyd yn cynnwys camau ac argymhellion yn ymwneud â'r trefniadau hyn.

Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Rheoli Risg – Sgôr Gwerthuso: Lefel 4 - Da

Pa mor effeithlon yw cynllunio corfforaethol?	Sut ydyn ni'n gwybod?
Rydym wedi datblygu a chytuno ar Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28. Mae hyn yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer y cyngor. Canfu adolygiad gan Archwilio Cymru o'n hamcanion yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol bod y cyngor wedi gosod ei amcanion llesiant yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn alinio ei strategaethau a chynlluniau busnes allweddol i gefnogi eu cyflenwi, ond gallai gryfhau ei ddull gweithredu ymhellach drwy gynyddu amrywiaeth ymgyfraniad dinasyddion yn y dyfodol. Rydym wedi datblygu fframwaith mesur perfformiad ategol. Rydym wedi adolygu'r fframwaith mesur i gynyddu'r ffocws ar ganlyniadau, lle'n bosibl. Rydym wedi gosod targedau ar gyfer y mesurau hyn sy'n dangos uchelgais y cyngor ar gyfer preswylwyr. Mae hyn yn ein galluogi i gael ein dal i gyfrif am berfformiad a mesur ein perfformiad ar feysydd y gall y cyngor effeithio yn uniongyrchol arnynt a chynnydd canlyniadau ehangach nad ydynt yn uniongyrchol o fewn rheolaeth y cyngor. Yn unol â chanfyddiadau ein Panel Asesu Perfformiad, mae angen i ni barhau i ddatblygu diwylliant gwerthuso mwy cyson fel bod adrodd yn cynyddu ei ffocws ar ganlyniad ac effaith. Cafodd strategaethau cefnogi a galluogi eu datblygu i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn cefnogi'r nodau ac amcanion polisi newydd a nodir yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Bydd y rhain yn bwysig i alluogi cyflawni uchelgais y cynllun. Rydym wedi datblygu trefniadau i fonitro effaith y strategaethau hyn a rydym yn gwerthuso perfformiad yn rheolaidd o gymharu â chanlyniadau, drwy asesiad perfformiad blyneddol.	Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28 a fframwaith mesur Asesiad Perfformiad Panel Strategaethau galluogi Asesiad perfformiad blyneddol o strategaethau galluogi
Pa mor effeithlon yw rheoli perfformiad?	Sut ydyn ni'n gwybod?
Mae cymeradwyo'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol wedi sicrhau fod cyfeiriad clir ar gyfer y cyngor. Mae hyn wedi ei sefydlu yn ein fframwaith rheoli perfformiad. Mae adroddiadau rheolaidd yn sicrhau atebolrwydd ar bob lefel ac yn dangos cynnydd i breswylwyr. Cafodd y broses hunanasesu ei sefydlu yn fframwaith rheoli perfformiad y cyngor. Mae'r broses hunanasesu wedi hwyluso cwblhau gwerthusiad cadarn ar berfformiad. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yma wedi helpu i ddynodi meysydd cynnydd a meysydd datblygu yn glir. Canfu adolygiad gan Archwiliad Cymru o'n trefniadau rheoli perfformiad fod gan y cyngor system rheoli perfformiad sy'n aeddfedu ac sy'n cefnogi cyflawni ei amcanion corfforaethol. Fe wnaeth y Panel Asesu Perfformiad gydnabod y gwnaed peth cynnydd wrth ddangos canlyniadau ac effaith fel rhan o'n fframwaith rheoli perfformiad. Cadarnhaodd y Panel yr angen i gyfathrebu cynnydd yn gliriach i gynghorwyr, preswylwyr a busnesau. Mae angen parhau i symud o ddisgrifio'r hyn a wnaethom i esbonio'r hyn sydd wedi newid, pwy a gafodd fudd, beth sydd heb weithio fel y bwriadwyd a'r hyn a wnawn yn wahanol fel canlyniad. Mae egwyddorion cynllunio busnes gwasanaeth, yn cefnogi templedi ac arweiniad yn eu lle a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae cynlluniau busnes gwasanaeth yn hwyluso gwasanaethau i gynllunio ar gyfer y tair blynedd nesaf, asesu'r hyn a aeth yn dda, dysgu o'r hyn nad aeth cystal a mesur yr effaith a gafodd eu gwasanaeth ar bobl a lleoedd yn Sir Fynwy. Mae cyfraddau ac ansawdd cwblhau cynlluniau busnes gwasanaeth wedi gwella yn gyffredinol er bod hyn yn parhau'n amrywiol ac angen eu gwella. Dangosodd sicrwydd ansawdd ar gynlluniau busnes gwasanaethau fod dal i fod angen datblygu meysydd o gynllunio i sicrhau y caiff yr egwyddorion eu	Adroddiad cynnydd ar y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol Drafft adroddiad hunanasesu Cynlluniau gwasanaeth busnes a sicrwydd ansawdd Asesiad Perfformiad Panel

gweithredu'n gyson. Rydym yn datblygu cyfres wedi ei diweddarau o hyfforddiant rheoli perfformiad i sicrhau fod gan y swyddogion sy'n cwblhau cynlluniau yr wybodaeth a'r canllawiau sydd eu hangen.	
Pa mor effeithlon yw rheoli risg?	Sut ydyn i'n gwybod?
Rydym wedi datblygu a diweddarau polisi a chanllawiau ar reoli risg strategol. Mae hyn yn diffinio'r dull, proses a chyfrifoldeb am reoli risg strategol yn y cyngor. Mae hyn hefyd yn diffinio goddefiant risg a pharodrwydd i dderbyn risg ar gyfer y cyngor. Mae'r polisi hwn wedi ymwreiddio yn y cyngor erbyn hyn a chafodd gofynion eu hintegreiddio fel rhan o fframwaith rheoli perfformiad y cyngor. Mae angen cryfhau rhan o'r polisi newydd i gael ei weithredu drwy'r sefydliad.	Polisi rheoli risg strategol, datganiad archwaeth a chanllawiau
Caiff y gofrestr risg strategol ei diweddarau'n gyson ac mae ar gael i bob aelod a swyddog ei gweld ar unrhyw amser. Mae trefniadau i adolygu'r holl gofrestr risg strategol yn ffurfiol ac adrodd arni bob chwe mis i craffu, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet. Mae hyn yn hwyluso ac yn dangos fod rheoli risg wedi ei sefydlu yn y cyngor ac mae risgiau strategol sy'n wynebu'r cyngor yn cael eu dynodi a'u rheoli mewn modd cadarn. Ni chaiff yr asesiad risg mewn cynlluniau busnes gwasanaeth ei orffen yn drwyadl bob amser. Mae hyn yn cyfyngu gallu gwasanaethau i ddefnyddio eu cynlluniau busnes gwasanaeth i reoli'n gadarn a lliniaru risgiau a gall effeithio ar gynnydd risgiau i'r gofrestr risg strategol. Rydym yn datblygu cyfres hyfforddiant rheoli perfformiad wedi ei diweddarau, yn cynnwys rheoli risg. Dylai hyn gefnogi gwella adnabod a rheoli risg ar lefel gwasanaeth.	Cofrestr risg strategol

Cynllunio Ariannol – Sgôr Gwerthusiad: Lefel 4 – Da

Pa mor effeithlon yw monitro ariannol?	Sut ydyn ni'n gwybod?
Mae'r Cyngor yn parhau i gadw trefniadau cadarn ar gyfer llywodraethiant ariannol creiddiol, yn cynnwys monitro'r gyllideb yn rheolaidd, gosod cyllideb flynyddol, adroddiadau am y trysorlys a chyfalaf, llunio cyfrifon statudol a throsolwg drwy'r Cabinet, craffu a'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio. Daeth y Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol i'r casgliad fod trefniadau llywodraethiant y Cyngor yn parhau'n effeithlon ac yn fframwaith gadarn ar gyfer darparu gwasanaethau ac mae trefniadau rheoli ariannol yn cydymffurfio gyda gofynion llywodraethiant Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol.	Adroddiadau monitro ariannol
Bu hefyd sicrwydd allanol ar drefniadau cynaliadwyedd ariannol y Cyngor. Roedd adolygiad cynaliadwyedd ariannol Archwilio Cymru yn gadarnhaol am y Strategaeth Ariannol Tymor Canol ac yn cadarnhau fod trefniadau yn gadarn yn fwy eang. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i symud ymlaen â'r cynllun cyflenwi sy'n gysylltiedig gyda'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol, yn cynnwys hunanasesiad ar God Rheoli Ariannol CIPFA ac adolygiad annibynnol o wydnwch ariannol.	Datganiad Blynnyddol ar Lywodraethant
Cafodd cyfrifon drafft 2025/26 eu paratoi a'u cyhoeddi ac mae'r gyllideb ac adroddiadau alldro yn dangos cydymffurfiaeth barhaus gyda gofynion rheoli ariannol statudol a phroffesiynol. Roedd cyllideb 2026/27 hefyd yn cynnwys asesiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol o gadernid a chronfeydd wrth gefn, a chafodd Cronfa'r Cyngor ei chadw ar isafswm y Strategaeth Ariannol Tymor Canol o 5% o'r gyllideb referniw net.	Adolygiad Archwilio Cymru
Mae'n dal i fod angen i ni ffurfioli fframwaith hunan-asesu strwythuredig, diweddarau rheoliadau ariannol a rheolau sefydlog lle mae angen. Mae hefyd angen i ni sicrhau y caiff y dysgu o adolygu allanol, archwilio mewnol, monitro'r gyllideb a'r Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol eu tynnu ynghyd yn un cynllun gwella cydlynol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau fod y Cyngor yn parhau i ateb newid mewn disgwyliadau rheoleiddiol a chryfhau gwydnwch mewn amgylchedd ariannol mwy cymhleth.	

Pa mor effeithlon yw cynllunio ariannol?	Sut ydyn ni yn gwybod?
Rydym wedi gwneud cynnydd wrth gryfhau'r sylfeini ariannol a threfniadol sydd eu hangen i gyflenwi newid dros y tymor canol. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol nawr wedi sefydlu fel y fframwaith ar gyfer cynllunio'r gyllideb, gan ddefnyddio diweddariadau chwe misol i'r Cynllun Ariannol Tymor Canol i ddiwygio tybiaethau, asesu risgiau a chefnogi ymgysylltu cynnar gyda'r Cabinet, craffu a gwasanaethau. Mae hyn wedi helpu i symud y Cyngor tuag at ddull gweithredu mwy disgybledig a blaengar ar gyfer cynllunio ariannol. Cafodd cyllideb 2026/27 ei gosod ar sail gytbwys, heb ddibynnu ar gronfa wrth gefn y Cyngor, a roedd yn cynnwys pecyn o arbedion gwasanaeth, diwygio a mesurau incwm ynghyd â buddsoddiad wedi'i dargedu mewn gwasanaethau blaenoriaeth. Fe wnaeth proses y gyllideb barhau i gael ei chefnogi gan craffu, ymgynghori cyhoeddus ac asesu effaith, gan helpu i sicrhau y cafodd dewisiadau anodd eu hystyried yng nghyd-destun y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol, cydraddoldeb, hinsawdd ac anghenion preswylwyr. Mae ein cynllunio cyfalaf yn seiliedig ar broses wedi sefydlu ar gyfer blaenoriaethu a gaiff ei llywio gan dystiolaeth ac asesiad o risg i ddatblygu rhaglen o fewn y cyfyngiadau ariannol ar y cyngor. Rydym wedi adolygu a chytuno ar raglen gyfalaf gyfredol a blaenraglen ar gyfer 2026/27. Caiff y rhaglen gyfalaf greiddiol ei chynnal ac mae'n gosod buddsoddiad wedi'i gynllunio yn seilwaith y cyngor. Mae nifer sylweddol o bwysau cefnwyth yn parhau sy'n eistedd tu allan i'r rhaglen gyfalaf greiddiol. Mae gan y rhain lefelau amrywiol o risg yn gysylltiedig â nhw. Mae ein trefniadau cynllunio ariannol yn dynodi pwysau cyfredol a dyfodol ar y gyllideb sy'n achosi risg i gyflawni yr amcanion yn ein Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Cafodd rhaglen o newid cronfeydd ei chryfhau drwy all-dro 2025/26, gydag adnoddau ychwanegol wedi eu neilltuo i gefnogi gweithgaredd trawsnewid a gwaith buddsoddi-i-gynilo. Mae hyn yn rhoi mwy o allu i'r Cyngor symud ymlaen gyda newid mewn ffordd wedi'i chynllunio. Fodd bynnag, mae maint yr her ariannol tymor canol yn parhau'n sylweddol. Amcangyfrifir ar hyn o bryd fod bwlch refeniw dangosol 2027/28 yn £9.9m ac mae angen mwy o waith i droi gweithgaredd newid yn opsiynau arbedion wedi eu costio'n llawn, ac sy'n ddichonadwy a chylchol. Mae gan bwysau cyfalaf, yn arbennig briffyrdd a seilwaith, ganlyniadau refeniw hefyd drwy gostau benthyca, felly bydd angen i gynlluniau newid y dyfodol fod yn dethol, yn fforddiadwy ac wedi eu cysylltu'n glir gyda blaenoriaethau gwasanaeth. Cynllunio Gweithlu – Sgôr Gwerthuso: Lefel 4: Da	Adroddiadau gosod cyllideb 2026/27 Strategaeth Ariannol Tymor Canol
Pa mor effeithlon yw rheoli gweithlu?	Sut ydyn ni'n gwybod?
Mae gennym weithlu teyrngar, ymroddedig a thalentog sy'n parhau i gyflenwi ein gwasanaethau ac amcanion ar gyfer preswylwyr. Mae gennym set o bolisiau a gweithdrefnau wedi eu sefydlu sy'n llywio ein gwaith Adnoddau Dynol. Mae'r rhain yn cefnogi safonau ac ymddygiad y disgwyliwn i gyflogaion eu cyflawni. Maent hefyd yn caniatáu hyblygrwydd a chyfle i'n gweithlu ddatblygu eu gyrfaedd yn Sir Fynwy. Os nad yw cyflogaion yn cyrraedd y safonau hyn, mae gennym drefniadau i reoli a datrys y materion hyn. Rydym wedi ail-sefydlu'r gynhadledd staff a rhaglen Gweithdy Arweinwyr Pobl mwy effeithlon. Ynghyd â hyn rydym wedi cynnal sesiynau holi ac ateb gyda chydweithwyr, ac mae'r arweinydd a'r prif weithredwr hefyd wedi ymweld â llawer o dimau. Mae'r canran o ymatebwyr i'r arolwg staff a ddywedodd eu bod yn teimlo fod yr wybodaeth ddiweddaraf ganddynt wedi gwella ar lefel tîm, cyfarwyddiaeth ac awdurdod cyfan. Mae'r canran o gydweithwyr sy'n dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac y caiff eu llais ei glywed wedi cynyddu o 65% i 71%.	Strategaeth Pobl Data rheoli gweithlu Arolwg staff

Mae ein radar gweithlu yn dechrau rhoi data i'r timau rheoli i ffurfio barn gliriach o risgiau cysylltiedig â phobl. Dylai hyn alluogi gweithredu wedi ei dargedu'n well i wella cyfraddau salwch, trosiant a chynllunio gweithlu. Mae'r cynnydd yn gadarnhaol, fodd bynnag mae gwaith yn dal i fod i sefydlu'r dull gwerthuso yn gyson ac i wneud cyfathrebu am staff newydd sy'n ymuno, staff sy'n gadael a symudiadau mewnol yn fwy systematig. Rydym wedi gwella sut mae cydweithwyr yn deall a chael mynediad i'n cynnig llesiant a buddion drwy ei hyrwyddo drwy'r wefan swyddi, cynadleddau cydweithwyr a deunydd wedi ei ffilmio ar gyfer mynediad ehangach. Rydym hefyd wedi datblygu gwell dulliau rhybuddio cynnar drwy'r radar gweithlu, sesiynau holi ac ateb timau ac arolwg cydweithiwr, gan roi golwg gryfach i ni ar faterion diwylliannol cyn iddynt fynd yn fwy difrifol.

Pa mor effeithlon yw cynllunio gweithlu?

Mae gennym ymagwedd hyblyg at gynllunio gweithlu ar gyfer denu a chadw pobl i swyddi yn y cyngor. Mae hyn yn cynnwys trefniadau hirsefydlog ar gyfer gweithio ystwyth ar gyfer swyddi lle nad oes angen i gyflogaion deithio i'w prif weithle bob dydd ac ymgyrch recriwtio wedi ei thargedu ar gyfer rhai swyddi.

Rydym wedi cryfhau ein sefyllfa fel cyflogwr o ddewis drwy wella ein llwyfan recriwtio, diwygio adran swyddi y wefan, hyrwyddo cyfleoedd datblygu a gosod y sylfeini ar gyfer cynllunio gweithlu cryfach. Mae trosiant yn 8.1% sydd yn iach ond ychydig yn uwch na'r sefyllfa ddelfrydol. Nid ydym yn gwneud defnydd llawn o ddata cyfweiliadau gadael i ddeall y rhesymau pam fod pobl yn gadael y sefydliad ynghyd â ffynonellau eraill o ddata. Fodd bynnag, mae ein harolwg yn dangos y byddai 89% o gydweithwyr yn argymhell Cyngor Sir Fynwy fel cyflogwr i'w cyfeilion a'u perthnasau, cynnydd o bum pwynt canran ar y flwyddyn flaenorol. Cafodd hyn ei gadarnhau gan yr Asesiad Panel Cymheiriaid a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2026 a ddangosodd fod staff yn cael eu gweld fel teyrngar, ymroddedig a chanolog i ddiwylliant a model cyflenwi y cyngor.

Rydym yn profi heriau recriwtio mewn sectorau penodol, y rhan fwyaf ohonynt yn debyg i broblemau recriwtio cenedlaethol ehangach. Rydym wedi lansio ein system e-recriwtio a gwella profiad ymgeiswyr, er y bu rhai heriau ac ni chafodd buddion awtomeiddio eu gwireddu'n llawn hyd yma. Rydym hefyd wedi datblygu polisi profiad gwaith, dull prentis-yn-gyntaf ac opsiynau profiad gwaith mewnol i ehangu llwybrau i yrfaeodd gyda Chyngor Sir Fynwy.

Rydym yng nghamau cynnar datblygu ein trefniadau cynllunio gweithlu. Daethom yn aelod o rwydweithiau cynllunio gweithlu er mwyn dysgu gan eraill wrth ddatblygu ein hymarfer. Nid yw'r holl drefniadau gennym yn eu lle i hwyluso'r sefydliad i gynllunio'r gweithlu mae ei angen i ateb gofynion cyfredol a'r dyfodol. Mae hyn yn ymrwymiad yn y Strategaeth Pobl a soniwyd amdano hefyd yn adroddiad Asesu'r Panel Cymheiriaid.

Mae datblygu a chadw staff presennol yn elfen hanfodol o gynllunio gweithlu. Rydym wedi gwella mynediad i ddysgu yn sylweddol drwy lansio Thinqi ar draws yr awdurdod a'i ddefnyddio i ddarparu dysgu hanfodol ynghyd â chyfleoedd datblygu ehangach. Dywedodd 84% o gydweithwyr fod ganddynt fynediad i'r hyfforddiant maent ei angen, i fyny o 81%. Fodd bynnag, mae cyfraddau ymateb ar gyfer yr arolwg yn tueddu i fod yn is ar gyfer y rhai sydd heb fynediad i liniadur a'r cam nesaf yw gwella mynediad i hyfforddiant ar gyfer cydweithwyr nad ydynt yn defnyddio glianiadur neu gyfrifiadur personol yn rheolaidd.

Sut ydyn ni'n gwybod?

Strategaeth pobl

Data rheoli gweithlu

System rheoli dysgu

Caffael – Sgôr Gwerthusiad Lefel 3 =- Digonol

Pa mor effeithlon yw caffael strategol?	Sut ydyn ni'n gwybod?
Mae gennym Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol 2023-2028 sy'n gosod llwyfan galluogi ar gyfer datblygu polisiau blaengar fydd yn cyflawni mwy o enillion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ac sydd wedi eu targedu yn well drwy weithio gyda'n cadwyni cyflenwi. Yn unol â hyn, rydym wedi datblygu Polisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol ar y cyd gydag Ardal i sicrhau fod cynghorau Ardal yn cynyddu i'r eithaf y llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y mae'n ei gyflwyno drwy ei weithgaredd caffael. Rydym wedi datblygu hyfforddiant a chanllawiau i sicrhau y caiff swyddogion eu cefnogi i gyflawni gofynion y strategaeth a sicrhau mwy o gydymffurfiaeth. Rydym wedi cyflwyno sesiynau hyfforddi ar draws y cyngor ac yn datblygu safle mewnrudd caffael i roi storfa ar gyfer pob llwybr caffael, ffurflenni a chanllawiau angenrheidiol. Rydym hefyd wedi comisiynu datblygu 'bot caffael' i gynorthwyo swyddogion i gael mynediad i ddata a dogfennau sydd eu hangen. Dangosodd adborth nad yw swyddogion bob amser yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn ystod y broses gaffael. Nod ein cynlluniau yw gostwng pwysau ar swyddogion a chynyddu hyder yn eu gallu i ddiwallu gofynion y strategaeth. Drwy ddatblygu'r strategaeth, rydym wedi parhau â'n ffocws ar gyfrannu i ostwng yr allyriadau carbon y mae'r cyngor yn eu cynhyrchu. Rydym wedi datblygu dangosfwrdd i alluogi timau i ddynodi gwasanaethau sy'n defnyddio llawer o garbon ac ymchwilio cyfleoedd i ostwng carbon. Rydym hefyd wedi datblygu canllawiau ar ostwng carbon i gefnogi swyddogion sy'n ystyried allyriadau carbon fel rhan o'u prosesau caffael. Byddwn yn datblygu cyfathrebu sydd wedi ei dargedu yn well i gynyddu gwybodaeth cyflenwyr a chaiff strategaeth cyfathrebu ei datblygu i amlygu gofynion carbon isel yr Awdurdod Lleol. Rydym yn gweithio i gynyddu cyfleoedd i fusnesau lleol gynnig am waith. Cynhaliwyd digwyddiad rhwydweithio 'Cwrdd â'r Prynwr' i gynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd caffael ar gyfer cyflenwyr lleol. Cynhelir digwyddiad ychwanegol mewn partneriaeth gyda thîm yr Economi, Cyflogaeth a Sgiliau drwy eu Fforymau Busnes i hyrwyddo cyfleoedd tendro uwchben y trothwy o £75k. Er fod Blaengynllun Contract yn bodoli, sylweddolir bod angen mwy o waith i sicrhau ei fod yn casglu gweithgaredd y dyfodol yn fwy cywir i roi mwy o amser wedi'i neilltuo i gyflenwyr gynllunio ac ymgynghori ar gyfleoedd. Caiff gweithgareddau wedi eu targedu eu cynnal gyda chyfarwyddiaethau i godi ymwybyddiaeth o'r angen i sicrhau y caiff y Blaengynllun Contract ei gadw'n gyfoes i sicrhau y gellir rhoi cymorth digonol ar waith ar gyfer swyddogion cyn cynnal gweithgareddau caffael.	Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol 2023-27 Polisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol Canllawiau a hyfforddiant diweddaraf Datblygu dulliau Cynnal digwyddiad 'Cwrdd â'r Prynwr'



Rydym wedi ymrwymo i gynyddu buddion cymdeithasol a gwerth cymdeithasol a geir gan gyflenwyr. Sefydlwyd Grŵp Cyflenwi Gwerth Cymdeithasol traws-gyfarwyddiaeth sy'n cwrdd yn rheolaidd ac sy'n cynnwys swyddogion o amrywiaeth o feysydd gwasanaeth. Y bwriad yw y bydd y Grŵp yn codi ymwybyddiaeth o'r angen i gynnwys cyfleoedd ar gyfer pobl ddi-waith neu brentisiaid o fewn contractau awdurdodau lleol i gynyddu llesiant, gwerth a budd caffaeliadau y Cyngor i'r gymuned leol ehangach. Byddir hefyd yn rhoi cymorth wedi ei deilwra ar gyfer contractwyr a rheolwyr contract i'w cynorthwyo i gyflawni eu hymrwymadau 'Themâu, Canlyniadau a Mesurau' i sicrhau'r gwerth mwyaf o wariant caffael lleol.

Mae sicrhau gwerth am arian, cydymffurfiaeth cyfreithiol a thryloywder yn allweddol i'n gwaith. Cafodd Blaengynlluniau Contract Cyngorau Ardal eu datblygu. Fe'u defnyddir i ddynodi cyfleoedd i gydweithio i greu gwell arbedion maint o gofio am y gwariant cronus posibl ar draws Partneriaethau Ardal. Caiff y Blaengynlluniau eu defnyddio hefyd i ddynodi'r cymorth posibl fydd ei angen gan swyddogion o dimau Rheoli Categori Ardal pan mae gwariant caffael sylweddol ar y gweill. Bydd timau Rheoli Categori Ardal hefyd yn defnyddio'r Blaengynllun Contract i ddechrau trafodaethau gyda chyfarwyddiaethau i ddynodi arbedion a chyfleoedd i arloesi ac adolygu cydymffurfiaeth o wariant wedi ei gontractio yn erbyn gwariant heb ei gontractio. Fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, mae'n rhaid hefyd gyhoeddi Cofrestr Contractau i sicrhau tryloywder. Er bod Cofrestr Contract yn bodoli, nid yw mor helaeth ag sydd angen felly bydd yr Arweinydd Caffael Strategol yn gweithio gyda chyfarwyddiaethau i gynyddu cofnodion ac fel canlyniad amlygrwydd gweithgareddau caffael.

Meysydd pellach i'w datblygu a ddynodwyd drwy ein hunan-asesiad 2025/26

Cryfhau trefniadau sy'n cefnogi swyddogion sy'n ymgymryd â chaffael i gyflawni uchelgeisiau Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol.

Asedau – Sgôr Gwerthuso: Lefel 5 – Da lawn

Pa mor effeithiol yw Rheoli Asedau strategol?	Sut ydyn ni yn gwybod?
Rydym wedi datblygu Strategaeth Rheoli Asedau sy'n llywio'r ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud a sut y caiff tir ac eiddo'r cyngor ei reoli o ddydd i ddydd. Mae'n gosod pump amcan clir ar gyfer tir ac eiddo i gyflawni amcanion y cyngor. Mae hefyd yn sefydlu'r fframwaith polisi cefnogi y caiff y strategaeth ei gweithredu ohono. Caiff y Strategaeth Rheoli Asedau ei chefnogi gan Gynllun Rheoli Asedau sy'n dynodi'r camau gweithredu i gyflawni'r strategaeth. Mae gwasanaethau Landlord yn parhau i fod â rôl hollbwysig wrth gefnogi gwasanaethau ar draws y sefydliad i gyflawni eu hamcanion. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo drwy gydol eleni i gaffael eiddo i greu llety â chymorth, yn arbennig ar gyfer pobl ifanc gyda phrofiad o ofal. Mae'r datblygiadau hyn yn ein galluogi i ddiwallu anghenion pobl fwy bregus yn ein sir a sicrhau fod gan bawb fynediad i le diogel i fyw. Rydym hefyd wedi cynnal a datblygu ystod o brosiectau ar draws ein ystâd ysgolion fydd yn sicrhau bod adeiladau yn ddiogel ac yn addas i'r diben. Mae hyn yn cynnwys adnewyddu hen Ysgol Gynradd Deri View fydd yn galluogi symud Ysgol Gymraeg y Fenni i'r safle, gan gynyddu nifer y disgyblion. Mae egwyddorion dylunio carbon isel yn parhau i lunio ein rhaglen cynnal a chadw cyfalaf, gyda ffocws neilltuol ar y cynllun sero net. Cafodd opsiynau gwresogi wedi eu datgarboneiddio eu gosod mewn datblygiadau newydd, yn cynnwys Ysgol 3-19 newydd Brenin Harri VIII ac mewn datblygiadau adeiladau dros dro. Ynghyd â'r gwelliannau hyn, cafodd cyfleusterau gwefru cerbydau trydan eu gosod mewn amryw o leoliadau'r cyngor, yn cynnwys Neuadd y Sir a Chartref Gofal Parc Severn View. Mae'r gosodiadau hyn wedi cefnogi ehangu rhwydwaith gwefru trydan ledled y sir.	Strategaeth Rheoli Asedau a Chynllun Rheoli Asedau
Pa mor effeithlon yw Rheoli Asedau gweithredol?	Sut ydyn i'n gwybod?
Rydym yn cynnal astudiaethau dichonolrwydd, asesiadau technegol ac arolygon ar eiddo, seilwaith ac asedau. Mae'r rhain yn sail wrth gynllunio'r gyllideb gyfalaf ac amserlenni cynnal a chadw yn unol â phrosesau a sefydlwyd. Bydd angen cryfhau gwneud penderfyniadau ar reoli ein hasedau yn unol â'r dulliau a sefydlwyd yn ein Strategaeth Rheoli Asedau. Mae gennym nifer sylweddol o bwysau cynnal a chadw ar gyfer ein hasedau, yn cynnwys eiddo a seilwaith priffyrdd a hawliau tramwy cyhoeddus sydd tu allan i unrhyw botensial i'w hariannu o fewn y cynllun ariannol tymor canol cyfalaf. Mae gan y rhain risg sylweddol. Rydym yn parhau i weithio ar draws y Cyngor i ddeall a chynllunio ar gyfer anghenion adeiladau y dyfodol, gan gefnogi gwasanaethau a sicrhau fod yr ystâd yn esblygu yn unol â blaenoriaethau'r sefydliad. I fod yn sylfaen i wneud penderfyniadau cryfach a mwy effeithiol, rydym wedi caffael System Rheoli Asedau newydd fydd yn gwella'r adolygiad strategol o opsiynau eiddo, dynodi cyfleoedd i resymoli ac optimeiddio gofod, a chryfhau ein gallu i olrhain costau cylch oes, atgyweiriadau ac anghenion buddsoddi dros gyfnod. Er y gwnaed cynnydd da i gryfhau'r rôl alluogi a threfniadau llywodraethiant o amgylch Gwasanaethau Landlord a'r defnydd o asedau'r cyngor, caiff mwy o waith ei wneud i ddatblygu Cynlluniau Asedau Gwasanaeth unigol fel y gellir cynllunio'n fwy rhagweithiol ar y potensial ar gyfer asedau a rhagweld gofynion y gwasanaeth. Caiff Gweithgorau Asedau Gwasanaeth eu sefydlu ar gyfer pob cyfarwyddiaeth i lywio datblygiad y gyllideb cynnal a chadw cyfalaf. Byddwn yn parhau i weithio gyda chyfarwyddiaethau i benderfynu os yw'r gofodau a ddefnyddiant yn parhau'n addas i'r diben, eu bod yn y lle cywir, yn hygyrch ac yn diwallu anghenion cyfredol a dyfodol y gwasanaeth yn y ffordd orau.	Strategaeth Rheoli Asedau a Chynllun Rheoli Asedau System Rheoli Asedau

Digidol a Data – Sgôr Gwerthusiad: Lefel 3 - Digonol

Pa mor effeithlon yw'r datblygiad o ddigidol?	Sut ydyn ni yn gwybod?
Rydym wedi datblygu Strategaeth Ddigidol a Data ddiwygiedig sy'n gosod y cyfeiriad dros y tair blynedd nesaf. Mae gennym drefniadau partneriaeth cryf yn eu lle ar gyfer digidol gyda SRS (Gwasanaeth Rhannu Adnoddau) er mwyn cyflymu ein defnydd o ddigidol fel ffordd i drawsnewid y ffordd yr ydym yn gweithio a chyflawni uchelgeisiau y strategaeth. Rydym wedi gweithredu model rhannu gwasanaeth ar gyfer digidol a data mewn cysylltiad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, drwy ehangu rôl SRS. Cwblhawyd trosglwyddo ein tîm digidol i SRS. Mae hyn yn rhoi mynediad i arbenigedd digidol ehangach. Fel rhan o'r cydweithio hwn, rydym yn datblygu dull ar draws y bartneriaeth at ddeallusrwydd artifffisial (AI). Rydym wedi cytuno ar gynnig AI fydd yn sicrhau dull diogel, a gaiff ei rannu ac lywodraethir yn dda at ddefnyddio AI ar draws partneriaid SRS. Bydd y cyfnod dechreuol yn gostwng dyblygu, cryfhau cysondeb a rhoi mynediad i staff i ddulliau cymeradwy ar gyfer tasgau fel crynhoi, cyfieithu, golygu a thrin ymholiadau cyffredin. Wrth i'r defnydd o AI ddatblygu, dylai hyn helpu i ddarparu gwasanaethau mwy effeithiol, gwell gwerth am arian a gwell canlyniadau i breswylwyr. I gefnogi hyn, rydym yn datblygu Polisi AI i gryfhau llywodraethiant defnyddio AI. Mae hefyd angen i ni sicrhau fod digon o gapasiti i gefnogi gweithredu. Rydym yn cryfhau sut y rhoddwn flaenoriaeth i brosiectau digidol a data yn seiliedig ar y canlyniadau y gallant eu cyflawni a sut y gallwn wedyn werthuso effaith digidol a data, yn cynnwys effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Rydym wedi sefydlu llwybrau i wasanaethau i alw am, hyrwyddo a llunio'r defnydd o ddigidol a data yn eu meysydd. Mae'r rhain yn cefnogi gweithgaredd digidol a data y cyngor i ddod yn fwy cydnaws gyda blaenoriaethau'r Cyngor, yn cynnwys trawsnewid rhaglen newid l'r Diben Ar Ddiben a blaenoriaethau gwella gwasanaeth. Rydym yn datblygu fframwaith buddion a gwerth i wella sut y caiff prosiectau digidol a data eu dynodi, eu blaenoriaethu, cael adnoddau a'u gwerthuso. Rydym wedi sefydlu trefniadau diogelwch gwybodaeth a thechnoleg i sicrhau fod yr wybodaeth sydd gan gan y cyngor yn parhau'n gyfrinachol a chywir ac ar gael i'r rhai sydd angen mynediad iddi fel rhan o'n gwaith. Rydym yn cefnogi, cynghori a hyfforddi ein gweithlu. Rhoddir hyfforddiant gorfodol ar GDPR a seiber-ddiogelwch, ynghyd â chanllawiau cynhwysfawr a pholisïau ar gyfer pob agwedd arall o reoli data. Rydym wedi datblygu amrywiaeth o hyfforddiant ar gyfer swyddogion i wella llythrennedd digidol ar draws y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys rhaglen sgiliau digidol sylfaenol ar ein llwyfan hyfforddiant corfforaethol. Gwyddom fod datblygiad parhaus mewn sgiliau digidol yn hanfodol i gyflawni ein huchelgais. Mae angen i ni barhau i ddatblygu adnoddau hyfforddiant digidol i alluogi staff i barhau i wella eu sgiliau digidol.	Cynllun Busnes Gwasanaeth Digidol Strategaeth Digidol a Data Trefniadau diogelwch gwybodaeth a llywodraethiant Cydweithio digidol, data a thechnoleg Achos buddsoddi data a deallusrwydd artifffisial

Pa mor effeithlon yw datblygu data?

Rydym wedi bod yn gweithredu prosiectau yn unol â'n strategaeth ddigidol a data gyda ffocws ar ddarparu dealltwriaeth yn defnyddio ein data i lywio ein darpariaeth gwasanaeth a datblygu polisi. Er enghraifft, yr ydym wedi gwella ein gwefan Gwybodaeth Leol gan roi gwybodaeth bwrpasol benodol i'w heiddo i breswylwyr. Rydym wedi datblygu defnydd geo-ofodol, yn cynnwys diweddarau awtomatig o systemau mewnol a ffynonellau allanol drwy ein Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i lywio darpariaeth gwasanaeth. Rydym wedi cynnal yr arolwg cenedlaethol o breswylwyr a dadansoddi ymatebion i roi gwybodaeth ar farn preswylwyr o'u hardal leol a'r cyngor. Rydym wedi dadansoddi Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a rhagestyniadau poblogaeth, gan helpu gwasanaethau ac uwch arweinwyr i ddeall yn well y newid mewn demograffeg ac amddifadedd i lywio penderfyniadau.

Nid ydym wedi medru cyflawni ein holl uchelgais data yn y flwyddyn. Mae angen i ni harneisio a chysylltu data ymhellach fel ased ar draws y cyngor. Rydym wedi buddsoddi yn ein galluedd a chapasiti data drwy gydweithio gyda SRS. Rydym wedi cytuno ar achos busnes pellach i ysgogi gwybodaeth well drwy ddatblygu llwyfan data modern yn gweithio gyda phartneriaid ar draws Gwent. Bydd hyn yn galluogi deall, glanhau, paru a delweddu setiau data gwahanol. Mae gan hyn y potensial i gefnogi mwy o wybodaeth, dadansoddeg hunanwasanaeth a, dros gyfnod, ddadansoddeg ragfynegol.

Mae hefyd angen i ni wella ein aeddfedrwydd data ar draws y sefydliad. Rydym wedi dechrau datblygu ein hyfforddiant ar gyfer swyddogion i wella sgiliau data. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar ddefnydd dulliau gwybodaeth busnes a datblygu safonau data ar gyfer y sefydliad. Mae angen i ni barhau i ddatblygu adnoddau hyfforddiant i alluogi staff i barhau i wella eu sgiliau data.

Democratiaeth a Chraffu – Sgôr Gwerthuso: Lefel 4 – Da

Pa mor dda y caiff adnoddau eu defnyddio?	Sut ydyn ni yn gwybod?
Mae defnydd presenoldeb o bell mewn cyfarfodydd o'r Cyngor, y Cabinet a phwyllgorau wedi ei sefydlu yn llawn. Mae hyn yn rhoi buddion cadarnhaol i'r rhai gydag ymrwymadau gwaith neu deuluol a all gymryd rhan mewn cyfarfodydd na fyddent fel arall wedi medru eu mynychu. Mae presenoldeb mewn cyfarfodydd wedi parhau'n uchel. Mae diwygiadau i newidiadau pwyllgorau craffu wedi gostwng dyblygu, er enghraifft caiff adroddiadau ar y gyllideb a pherfformiad yn awr eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg yn hytrach na'r un adroddiad yn cael ei gyflwyno i bedwar cyfarfod gwahanol. Mae her gadarn gan aelodau craffu. Caiff canlyniadau cyfarfodydd craffu eu casglu yn glir a'u rhannu gyda'r cabinet a swyddogion eu hystyried. Defnyddir blaengynllunydd gwaith i ddynodi adroddiadau gwneud penderfyniadau i gael eu hystyried gan y Cyngor, y Cabinet a phenderfyniad Aelod Unigol o'r Cabinet. Defnyddir hyn hefyd i lywio rhaglen waith pwyllgorau craffu. Mae adroddiad y Panel Asesu Perfformiad yn nodi y gall amseroldeb blaengynllun gwaith y Cabinet lesteirio effeithlonrwydd craffu. Mae angen gwaith i wella'r defnydd o'r cynllunydd a sicrhau y caiff adroddiadau gwneud penderfyniadau eu cynnwys arno cyn gynted ag sydd modd i gefnogi gwell cynllunio ar waith democrataidd. Canfu'r adroddiad hefyd fod diffyg eglurdeb am sut y gall aelodau ddefnyddio dulliau ymchwil ddwn o fewn dulliau gorchwyl a gorffen, gan awgrymu fod angen mwy o gymorth a fframweithiau cliriach.	Ffigurau presenoldeb Blaengynllunydd gwaith
Meysydd pellach ar gyfer datblygu a ddynodwyd drwy ein hunanasesiad 2025/26	
Cryfhau cynllunio democrataidd i sicrhau craffu a gwneud penderfyniadau effeithlon.	

Asesiad Panel Perfformiad

Ym mis Chwefror 2026 cafodd Cyngor Sir Fynwy ei Asesiad Panel Perfformiad cyntaf dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhoddodd yr asesiad olwg cymheiriaid annibynnol o'r Cyngor.

Roedd ffocws yr asesiad ar ba mor dda mae'r Cyngor yn cyflawni ei ofynion perfformiad: gweithredu ei swyddogaethau yn effeithlon, yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, effeithiol ac effeithlon, a chynnal trefniadau llywodraethiant effeithlon. Fe wnaeth y Panel hefyd ystyried tri maes ffocws a gytunwyd yn lleol yn gysylltiedig ag aliniad ar draws cyfarwyddiaethau i gyflenwi blaenoriaethau, ataliad a gweithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a gallu'r Cyngor i arddangos a chyfathrebu canlyniadau o'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol.

Roedd casgliad cyffredinol y Panel yn gadarnhaol. Disgrifiodd Sir Fynwy fel:

“Cyngor uchelgeisiol, a gaiff ei redeg yn dda gyda chymunedau wrth ei galon a chyrraedd sy'n ymestyn tu hwnt i ffiniau”.

Mae'r asesiad hwn yn rhoi sicrwydd allanol gwerthfawr fod gan y Cyngor gryfderau pwysig mewn arweinyddiaeth, gweithio partneriaeth, llywodraethiant a'i ymrwymiad i lesiant cymunedol. Mae hefyd yn cadarnhau'r angen am ffocws parhaus, blaenoriaethu a darpariaeth ddisgybledig os yw'r Cyngor i droi ei uchelgais yn ganlyniadau mesuradwy a chynaliadwy ar gyfer preswylwyr.

Mae canfyddiadau'r Panel yn dangos fod gan y Cyngor sylfaen gref i adeiladu arno. Caiff ein diben, a gaiff ei osod drwy'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol, ei ddeall yn dda ac mae'n rhoi fframwaith clir ar gyfer gwella llesiant, gostwng diffyg cydraddoldeb chefnogi sir carbon sero. Cydnabu'r Panel uchelgais y Cyngor, ei berthynas adeiladol gyda phartneriaid a'r ymrwymiad a ddangoswyd gan aelodau, swyddogion, cymunedau a rhanddeiliaid.


Rhoddodd yr asesiad her i ni fod yn fwy craff am sut ydym yn blaenoriaethu, trefnu a rhoi tystiolaeth ein gwaith. Mae'r Cyngor yn gweithredu mewn amgylchedd ariannol a gwasanaeth anodd, gyda galw cynyddol, anghenion cymhleth gan y gymuned a chapasiti trefniadol cyfyngedig. Felly mae canfyddiadau'r Panel yn cadarnhau pwysigrwydd bod yn fwy eglur am y newidiadau mawr fydd yn sicrhau canlyniadau gwell ar gost is, ac am sut y caiff y rhain eu llywodraethu, y rhoddir adnoddau iddynt a'u gwerthuso.

Gwnaeth y Panel dri argymhelliad:

1. Rhoi blaenoriaeth i gyfleoedd mawr i sicrhau canlyniadau gwell i breswylwyr ar gost is.
2. Cryfhau gwydnwch cymunedol a rhannu dealltwriaeth.
3. Gweithlu a chynllunio olyniaeth

Fe wnaethom yr argymhellion hyn a datblygu ymateb i fynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn cynnwys defnyddio rhaglen newid y Cyngor I Ddiben Ar Ddiben fel dull i flaenoriaethu cyfleoedd am newid mawr, gan ddiffinio a chryfhau dull i sicrhau cymunedau gwydn ac ymwreiddio cynllunio gweithlu.

Mae'r adroddiad llawn ar gael yn: [Monmouthshire-PPA-Report-2026-Final cy-002.pdf](#)



Ein gwaith gydag eraill

I gyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen ar gyfer y sir, mae angen i ni gydweithio gydag ystod o bartneriaid, rhanddeiliaid a'n cymunedau. Ni fydd gan y cyngor yr holl atebion i ddatrys yr heriau sy'n wynebu'r sir a ni fyddwn yn medru cyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen ar ben ein hunain. Mae cydweithio gydag eraill yn cynyddu'r tebygrwydd y byddwn yn datblygu datrysiadau effeithlon a chynaliadwy.

Rhanddeiliaid a gweithio partneriaeth

Pa mor effeithlon mae'r cyngor yn gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ar ddeilliannau a gytunwyd?	Sut ydyn ni'n gwybod?
Mae gweithio mewn partneriaeth yn un o'r ffyrdd y gallwn gyflawni ein hamcanion tra'n sicrhau gwerth am arian. Rydym yn ymrwymo i drefniadau cydweithio yn bwylllog gan ddeall yn glir sut y gallant ein helpu i gyflawni ein amcanion. Yn rhanbarthol gweithiwn gyda llawer o sefydliadau mawr mewn partneriaeth yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i gyflawni ein hymrwymadau ar, er enghraifft, ddatgarboneiddio, trafndiaeth, iechyd a gofal cymdeithasol, tai ac adfywio. Dynododd adolygiad Archwilio Mewnol fod lefel resymol o sicrwydd ar gyfer trefniadau llywodraethu yr awdurdod yn seiliedig ar sampl o bartneriaethau. Dynododd yr archwiliad fod angen i ni gryfhau ein canllawiau ar y trefniadau mae partneriaethau eu hangen a rhoi sicrwydd i'n hunain y cydymffurfir â'r rhain wedyn. Rydym wedi datblygu pecyn cymorth partneriaeth i gefnogi swyddogion arweiniol y cyngor i ddatblygu a chynnwys y trefniadau ar gyfer y bartneriaeth. Mae angen i ni gwblhau ei weithredu ar gyfer y partneriaethau hynny a ddynodwyd ar ein cofrestr partneriaeth yn cynnwys ei ddefnyddio i werthuso os yw'r deilliannau a ddisgwyliid gan y partneriaethau yn cael eu gwireddu. Mae gan Gydbwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru gyfrifoldeb cyfreithiol am baratoi'r Cynlluniau Datblygu Strategol Rhanbarthol, Cynlluniau Trafndiaeth Rhanbarthol a gwella neu hyrwyddo 'llesiant economaidd yr ardal. Mae'r pwyllgor yn cynnwys arweinwyr y deg awdurdod lleol yn Ne Ddwyrain Cymru. Caiff yr holl bapurau llywodraethiant eu cyhoeddi ar wefan Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Caiff y trefniadau eu goruchwyllo gan gydbwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o'r deg awdurdod lleol gyda Archwilio Cymru yn cynnal gweithgaredd rheoleiddio ychwanegol. Rydym yn ymestyn ein cyrraedd tu hwnt i ffiniau drwy ein gwaith gyda Phartneriaeth Gororau Ymlaen. Yn hyn deun ynghyd â chynghorau yn Swydd Henffordd, Powys a Swydd Amwythig i ail-lunio tirlun economaidd rhanbarth y Gororau drwy feithrin cydweithio ac arloesi. Caiff gwaith ei oruchwyllo gan Fwrdd Partneriaethau Gororau Ymlaen sy'n cynnwys arweinwyr a phrif weithredwyr y cynghorau sy'n gysylltiedig. Fe wnaeth ein Hasesiad Panel o Berfformiad diweddar gydnabod cyfalaf cymdeithasol cryf a diwylliant partneriaeth yn edrych ar i faes sydd gan Sir Fynwy. Canfu fod cymunedau, partneriaid, cynghorau tref a chymuned a rhanddeiliaid yn barod ac yn fodlon i weithio gyda'r cyngor. Mae'r asesiad yn ein hannog i sianelu y cryfderau hyn yn fwy bwriadol i waith cyd-gynhyrchu ac atal. Argymhellodd ein bod yn cryfhau dealltwriaeth a gaiff ei rhannu o wydnwch cymunedol yng nghyd-destun Sir Fynwy. Canfu'r panel fod y cyngor yn gweithio'n effeithlon gydag awdurdodau cyfagos a bod ganddo rôl flaenllaw mewn partneriaethau allweddol a chaiff ei weld fel partner y mae eraill eisiau gweithio gydag ef. Dywedodd y panel mai dyma'r amser i adeiladu ar y buddsoddiad hwn a dechrau gwireddu enillion diriaethol, a gefnogir gan arweinyddiaeth sensitif a gwerthfawr. Mae partneriaethau a chydweithio o bob maint yn bwysig i sicrhau gwell canlyniadau yn y sir. Rydym yn ymroddedig i gryfhau ein cydweithio gyda chynghorau cymuned a thref a defnyddio arbenigedd a brwdfrydedd y llu o wirfoddolwyr a grwpiau cymunedol sy'n gwneud y sir hon mor arbennig.	Adolygiad Archwiliad Mewnol o bartneriaethau a chydweithio Cydbwyllgor Corfforaethol Partneriaeth Gororau Ymlaen Asesiad y Panel o Berfformiad

Ein Camau Gweithredu

Drwy'r hunanasesiad rydym wedi dynodi pa mor dda yr ydym yn gwneud a'r hyn y gallwn ei wneud yn well. Nid dynodi'r rhain yw diwedd y broses hunanasesiad. Byddwn yn anelu i adeiladu ar a dysgu o'r meysydd sy'n mynd yn dda a mynd i'r afael â meysydd lle gallwn wneud yn well.

Mae gan y cynllun gweithredu ffocws penodol ar beth, a sut, y gallwn wneud yn well ar gyfer casgliadau sylweddol yr asesiad. Bydd yr holl ganfyddiadau yn llywio datblygiad amcanion a chynlluniau cyflenwi llesiant y cyngor. Byddant yn llywio sut y dylai prosesau a gweithdrefnau mewnol newid i gefnogi cynllunio, cyflenwi a gwneud penderfyniadau mwy effeithlon i sicrhau gwell deilliannau a ffyrdd i gyflawni swyddogaethau'r cyngor. Mae'r rhain hefyd yn integreiddio gyda chamau gweithredu pellach a ddynodir yn Natganiad Llywodraethiant Blynyddol 2025/26 y Cyngor a chamau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion yn yr Asesiad Panel o Berfformiad a gwblhawyd yn 2026.

Caiff y camau gweithredu eu monitro drwy'r flwyddyn fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad y cyngor. Bydd yr adroddiad hunanasesiad nesaf hefyd yn cynnwys asesiad o'r cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu hyn.

Cynnydd ar Gamau Gweithredu 2024/25

Rydym wedi rhoi diweddariad ar gynnydd ar y camau gweithredu y gwnaethom eu dynodi yn adroddiad hunanasesiad 2024/254. Mae asesiad mwy manwl o'r trefniadau yn adran berthnasol yr adroddiad.

Adran	Yr hyn y gallwn ei wneud yn well	Sut	Cynnydd
Canlyniadau	Datblygu mwy o leoedd gofal plant, yn cynnwys Dechrau'n Deg a darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg	Rhoi'r cynllun gweithredu ar waith fel rhan o Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant	Rydym wedi cynyddu nifer y lleoliadau gofal plant. Rydym yn datblygu ein cynnig Dechrau'n Deg yn seiliedig ar alw. Anelwn sicrhau y gallwn ateb y galw cynyddol am addysg gynnar cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.
Canlyniadau	Deall y rhesymau am y cynnydd yn nifer y bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)	Gweithredu Strategaeth Atal NEET a chymorth wedi ei dargedu gyda phartneriaid	Rydym yn parhau i gefnogi ein pobl ifanc i gael mynediad i hyfforddiant a chyflogaeth rwy gyflwyno ein strategaeth NEET
Canlyniadau	Datblygu'r cynnig cymorth ar gyfer dysgwyr difreintiedig i gyflawni eu potensial	Datblygu dull gweithredu awdurdod cyfan ar gefnogi dysgwyr difreintiedig yn cynnwys gweithio gyda EAS	Rydym yn parhau i weithio gydag ysgolion ac EAS i gefnogi dysgwyr difreintiedig
Galluogwyr	Rhaglen o newid gwasanaeth sy'n dynodi ffyrdd cynaliadwy i ddarparu gwasanaethau tra'n mynd i'r afael â'r bwlch a ragwelir mewn cyllid	Datblygu rhaglen newid i alluogi cyflawni'r arbedion sydd eu hangen dros y tymor canol	Rydym wedi datblygu rhaglen awdurdod cyfan ar gyfer newid 'I Ddiben, Ar Ddiben'. Mae'r camau nesaf yn cynnwys datblygu prosiectau arfaethedig ar gyfer newid yn y dyfodol, fydd yn cynnwys prosiectau yn llywio cynllun ariannol tymor canol y Cyngor.
Galluogwyr	Cryfhau trefniadau sy'n cefnogi gweithwyr sy'n ymwneud â chaffael i gyflawni uchelgeisiau y	Datblygu canllawiau cyson, hyfforddiant a chymorth ar gyfer swyddogion	Rydym wedi datblygu a chyflwyno canllawiau a hyfforddiant i swyddogion ar draws y cyngor, mewn

	Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol		partneriaeth gydag Ardal. Rydym yn buddsoddi mewn hyb caffael a bot AI i symleiddio'r broses ar gyfer swyddogion. Mae angen mwy o waith i sicrhau fod swyddogion yn teimlo fod ganddynt gymorth a'u bod yn hyderus yn y broses caffael.
Galluogwyr	Cryfhau capasiti a galluedd i gyflawni uchelgais y strategaeth digidol a data	Datblygu a chyflenwi'r cynllun gweithredu yn y Strategaeth Digidol a Data	Rydym wedi parhau i gyflenwi'r cynllun gweithredu yn y strategaeth digidol a data a llunio asesiad blynyddol o'i gynnydd. Rydym wedi gwneud buddsoddiadau pellach mewn gallu digidol a data ar y cyd i gyflawni ein huchelgeisiau.
Rhanddeiliaid a Phartneriaeth	Gwerthuso os yw canlyniadau disgwylidig partneriaethau yn cael eu gwireddu a'u heffaith ar gyflawni amcanion y cyngor	Gweithredu pecyn cymorth y bartneriaeth i hwyluso swyddogion arweiniol y cyngor ar gyfer partneriaethau a ddynodwyd i werthuso os yw canlyniadau disgwylidig y partneriaethau yn cael eu gwireddu	Cafodd pecyn cymorth partneriaeth ei ddatblygu. Mae hyn yn rhoi cymorth i swyddogion arweiniol y Cyngor ar gyfer partneriaethau a ddynodwyd i'w defnyddio fel rhan o drefniadau goruchwyllo ar gyfer eu partneriaethau.

Meysydd Newydd i'w Datblygu 2025/26: Beth a sut fedrwn ni wneud yn well?

Adran	Beth fedrwn ni wneud yn well	Sut	Pwy	Pryd
Canlyniadau	Gweithio gyda chymunedau a rhanddeiliaid i ddatblygu dealltwriaeth a gaiff ei rannu o wydnwch cymunedol	Caiff camau gweithredu eu dynodi mewn ymateb i argymhellion Cryfhau Gwydnwch Cymunedol a Dealltwriaeth ar y Cyd yn yr Asesiad Perfformiad Panel	Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Rhagfyr 2007
Galluogwyr	Cryfhau cynllunio strategol i sicrhau craffu a gwneud penderfyniadau effeithlon	Sicrhau cynnwys adroddiadau yn gynharach ym mlaengynllunwyr pwyllgorau, cabinet a'r cyngor a gwella'r cydlynu rhwng gwneud penderfyniadau a rhaglenni gwaith	Prif Swyddog Cyfraith a Llywodraethiant	Mawrth 2027

Camau Gweithredu o Asesiad y Panel o Berfformiad

Gwnaeth yr Asesiad y Panel o Berfformiad dri argymhelliad i'r Cyngor. Caiff y camau gweithredu yr ydym wedi ymrwymo iddynt eu nodi isod a byddwn yn adrodd ar gynnydd yn ein hunanasesiad nesaf.

Argymhelliad	Cam gweithredu	Amserlen a Chyfrifoldeb
Rhoi blaenoriaeth i gyfleoedd mawr i sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer preswylwyr ar gostau byw	Sefydlu a chynnal un portffolio newid byw o fewn l Ddiben, Ar Ddiben (yn cynnwys cyfleoedd mawr), gyda meini prawf clir ar gyfer mynediad, clwydi camau a phapurau penderfyniad wedi ei cyfeirio drwy'r Bwrdd Sicrwydd Rhaglen.	Tymor Byr – nawr - Medi 2026
	Gweithredu Fframwaith a Fframwaith Gwerthoedd l Ddiben, Ar Ddiben i asesu'r buddsoddiad sydd ei angen, capasiti trefniadol, yr enillion a ddisgwylir (ariannol a heb fod yn ariannol) a hyder cyflenwi; defnyddio hyn i flaenoriaethu cyfleoedd a rhoi cyflenwi mewn trefn .	Prif Weithredwr – pob cam gweithredu Tymor Byr: nawr – Medi 2026
	Cryfhau disgyblaeth rheoli rhaglen drwy Swyddfa Rheoli Rhaglen l Ddiben, Ar Ddiben yn cynnwys templedi cyson, adroddiadau, rheoli risg a dangosfwrdd portffolio i gefnogi ymyriad cynnar lle nad yw'r ddarpariaeth ar y trywydd.	Tymor Canol: Hydref 2026 – Mawrth 2027
	Sicrhau bod cyfleoedd sydd angen penderfyniadau gan aelodau yn symud ymlaen drwy lwybrau cymeradwyo presennol (Cabinet/Cyngor) gydag achosion busnes clir a disgwyliadau gwireddu buddion.	Hirdymor: Ebrill 2027 – Rhagfyr 2027
Cryfhau Gwydnwch Cymunedol a Rhannu Dealltwriaeth.	Cyd-gynhyrchu diffiniad clir ac ymarferol o Gymunedau Gwydn gyda chymunedau, partneriaid, cynghorau tref a chymuned a swyddogion rheng flaen, gyda thegwch wedi'i ymwreiddio ym mhob rhan o'r broses.	Tymor Canol: nawr – Medi 2026
	Cynnal mapio cymesur ar asedau cymunedol, rhwydweithiau a gweithgaredd presennol, gyda ffocws ar gryfderau a bylchau sy'n bwysig ar gyfer atal. Bydd hyn yn cynnwys map asedau cymunedol digidol, a gefnogir gan bwyntiau cyswllt lleol ar gyfer preswylwyr sydd â llai o allu digidol.	Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu ac Ymgysylltu – Pob cam gweithredu Tymor Canol: Hydref 2026 – Mawrth 2027
	Symud o ymgysylltu eang i weithredu wedi ei dargedu drwy ddynodi nifer fach o fannau a/neu themâu i gael blaenoriaeth lle gall cryfhau Cymunedau Gwydn roi'r budd ataliol a thegwch mwyaf.	Tymor Canol: Hydref 2026 – Mawrth 2027
	Sefydlu Rhwydwaith Cymunedau Gwydn i gefnogi aliniad, rhannu dysgu a gostwng dyblygu ar draws y Cyngor, partneriaid, iechyd, y sector gwirfoddol a chynghorau tref a chymuned.	Hirdymor: Ebrill 2027 – Rhagfyr 2027
	Defnyddio cymysgedd cymesur o brofiad bywyd, dealltwriaeth ansoddol a mesurau dirprwy i arddangos cynnydd, gan adlewyrchu disgwyliadau'r PPA am dystiolaeth ystyrlon tymor byr a thymor canol.	Hirdymor: Ebrill 2027 – Rhagfyr 2027
Gweithlu a Chynllunio Olyniaeth	Cynnal sesiwn ddatblygu ar gyfer rheolwr ar gynllunio olyniaeth gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol	Tymor Byr – nawr – Medi 2026

	Prif Swyddog, Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau – pob cam gweithredu
Uwchsgilio Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol mewn cynllunio strategol ar gyfer y gweithlu	Tymor Canol – Hydref 2026 – Mawrth 2027
Llunio cynllun datblygu gweithle i fynd o dan y Strategaeth Pobl i roi eglurdeb am y camau sydd angen eu cymryd i sicrhau gweithlu gyda ffocws ar y dyfodol	Tymor Canol – Hydref 2026 -Mawrth 2027
Gweithredu gweithlu'r dyfodol drwy ehangu mannau mynediad talent, yn cynnwys profiad gwaith, prentisiaethau, cyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd i raddedigion.	Tymor Canol: Hydref 2026 – Mawrth 2027
Datblygu llwybr hyfforddiant ar gyfer pob rôl swydd i sicrhau y caiff staff presennol eu datblygu i gynyddu eu galluedd i'r eithaf	Tymor Canol: Hydref 2026 – Mawrth 2027
Cynnal ymchwil i ddeall gofynion sgiliau'r dyfodol ar draws yr awdurdod a datblygu neu gomisiynu hyfforddiant i ddarparu ein gweithlu ar gyfer y dyfodol	Tymor Canol: Hydref 2026 – Mawrth 2027





Mesurau Perfformiad

Mae defnyddio dulliau mesur perfformiad yn un o'r dulliau pwysig i asesu ein perfformiad. Mae gan bob un o'n nodau ddulliau mesur perfformiad penodol a osodwyd i fonitro cynnydd. Nodir rhai dangosyddion perfformiad perthnasol eraill a ddefnyddiwn i asesu perfformiad ein gwasanaethau yn yr adran hon.

Gosodwyd dangosyddion cenedlaethol fel rhan o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer mesur y cynnydd tuag at gyflawni nodau llesiant yng Nghymru gyfan. Er na fydd y dangosyddion cenedlaethol yn mesur perfformiad cyrff cyhoeddus unigol na byrddau gwasanaethau cyhoeddus, mae'n bwysig eu bod yn cael eu hystyried i olrhain y cynnydd a wneir i wella llesiant yn Sir Fynwy. Cynhwysir rhai o'r dangosyddion cenedlaethol sy'n berthnasol i'r amcanion yr ydym ni wedi eu gosod, pan fydd diweddariad ar gael ar lefel sirol, yn y tabl isod.

Mesurau tymor hwy yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28

Ochr yn ochr â'r mesurau penodol a gynhwysir dan bob amcan mae'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol hefyd yn cynnwys mesurau ar gyfer pob amcan y dymunwn eu holrhain oherwydd y byddant yn sail i'n gwaith. Rydym am weld symudiad cadarnhaol yn y mesurau hyn, ond maent yn bethau lle mai dim ond rhan o ddarlun llawer mwy yw ein mewnbwn ni. Gellir gweld y diweddariad diweddaraf o'r mesurau isod. Mae'r llinell gymharu goch mewn rhai graffiau a welir isod yn dangos data cyfartalog Cymru, lle mae ar gael.

Mesurau tymor hirach	Tueddiad (Tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael)	Diweddaraf	Mesurau tymor hirach	Tueddiad (Tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael)	Diweddaraf
Lle Teg i Fyw					
Canran y bobl sy'n fodlon gyda'u gallu i gyrraedd/cael mynediad i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau maent eu hangen		86	Bwlch mewn disgwyliad bywyd iach rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf amddifadus – dynion (blynnyddoedd)		3.1

Hunanasesiad Cyngor Sir Fynwy 2025-26







Mesurau tymor hirach	Tueddiad (Tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael)	Diweddaraf	Mesurau tymor hirach	Tueddiad (Tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael)	Diweddaraf																				
Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol	<table><tr><th>Yr</th><th>10</th><th>7</th><th>8</th></tr><tr><td>Canran</td><td>10</td><td>7</td><td>8</td></tr></table>	Yr	10	7	8	Canran	10	7	8	8	Gwahaniaeth mewn tâl cyfartalog rhwng dynion a menywod yn gweithio yn y sir (£)	<table><tr><th>Yr</th><th>135.3</th><th>89.5</th><th>-20</th><th>28</th><th>40.2</th></tr><tr><td>Gwahaniaeth</td><td>135.3</td><td>89.5</td><td>-20</td><td>28</td><td>40.2</td></tr></table>	Yr	135.3	89.5	-20	28	40.2	Gwahaniaeth	135.3	89.5	-20	28	40.2	40.2
Yr	10	7	8																						
Canran	10	7	8																						
Yr	135.3	89.5	-20	28	40.2																				
Gwahaniaeth	135.3	89.5	-20	28	40.2																				
Disgwyliad bywyd iach – menywod (blynyddoedd)	<table><tr><th>Yr</th><th>66.1</th><th>69.3</th><th>65.9</th></tr><tr><td>Disgwyliad</td><td>66.1</td><td>69.3</td><td>65.9</td></tr></table>	Yr	66.1	69.3	65.9	Disgwyliad	66.1	69.3	65.9	65.9	Canran y plant yn byw mewn aelwydydd incwm cymharol isel	<table><tr><th>Yr</th><th>12</th><th>11.5</th><th>13.5</th><th>17.4</th></tr><tr><td>Canran</td><td>12</td><td>11.5</td><td>13.5</td><td>17.4</td></tr></table>	Yr	12	11.5	13.5	17.4	Canran	12	11.5	13.5	17.4	17.4		
Yr	66.1	69.3	65.9																						
Disgwyliad	66.1	69.3	65.9																						
Yr	12	11.5	13.5	17.4																					
Canran	12	11.5	13.5	17.4																					
Disgwyliad bywyd iach – gwrywod (blynyddoedd)	<table><tr><th>Yr</th><th>66.4</th><th>68.7</th><th>65.9</th></tr><tr><td>Disgwyliad</td><td>66.4</td><td>68.7</td><td>65.9</td></tr></table>	Yr	66.4	68.7	65.9	Disgwyliad	66.4	68.7	65.9	65.9	Canran preswylwyr sy'n teimlo 'Mae pobl yn fy ardal leol yn dod ymlaen yn dda ac yn helpu ei gilydd'	<table><tr><th>Yr</th><th>78...</th><th>79.1</th></tr><tr><td>Canran</td><td>78...</td><td>79.1</td></tr></table>	Yr	78...	79.1	Canran	78...	79.1	79.1						
Yr	66.4	68.7	65.9																						
Disgwyliad	66.4	68.7	65.9																						
Yr	78...	79.1																							
Canran	78...	79.1																							
Bwlch mewn disgwyliad bywyd iach rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf amddifadus – menywod (blynyddoedd)	<table><tr><th>Yr</th><th>11.4</th><th>12</th><th>8.8</th><th>9.5</th><th>7.7</th></tr><tr><td>Bwlch</td><td>11.4</td><td>12</td><td>8.8</td><td>9.5</td><td>7.7</td></tr></table>	Yr	11.4	12	8.8	9.5	7.7	Bwlch	11.4	12	8.8	9.5	7.7	7.7	Canran preswylwyr sy'n teimlo 'Mae pobl yn fy ardal leol yn dod ynghyd i wella'r ardal leol'	<table><tr><th>Yr</th><th>63....</th><th>65.5</th></tr><tr><td>Canran</td><td>63....</td><td>65.5</td></tr></table>	Yr	63....	65.5	Canran	63....	65.5	65.5		
Yr	11.4	12	8.8	9.5	7.7																				
Bwlch	11.4	12	8.8	9.5	7.7																				
Yr	63....	65.5																							
Canran	63....	65.5																							

Lle Gwyrdd i Fyw																													
Allyriadau carbon cyfartalog y pen yn Sir Fynwy (tunelli metrig)	<table border="1"><thead><tr><th>Yr</th><th>6.8</th><th>6.6</th><th>5.7</th><th>6.1</th><th>5.9</th></tr></thead><tbody><tr><td>Allyriadau</td><td>6.8</td><td>6.6</td><td>5.7</td><td>6.1</td><td>5.9</td></tr></tbody></table>	Yr	6.8	6.6	5.7	6.1	5.9	Allyriadau	6.8	6.6	5.7	6.1	5.9	5.9	Gwastraff aelwydydd gweddilliol cyfartalog a gynhyrchir fesul person (kilogramau)	<table border="1"><thead><tr><th>Yr</th><th>211</th><th>207</th><th>198</th><th>202</th><th>202</th></tr></thead><tbody><tr><td>Gwastraff</td><td>211</td><td>207</td><td>198</td><td>202</td><td>202</td></tr></tbody></table>	Yr	211	207	198	202	202	Gwastraff	211	207	198	202	202	202
Yr	6.8	6.6	5.7	6.1	5.9																								
Allyriadau	6.8	6.6	5.7	6.1	5.9																								
Yr	211	207	198	202	202																								
Gwastraff	211	207	198	202	202																								

Hunanasesiad Cyngor Sir Fynwy 2025-26







Mesurau tymor hirach	Tueddiad (Tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael)	Diweddaraf	Mesurau tymor hirach	Tueddiad (Tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael)	Diweddaraf
Nifer siwrneau rheilffyrdd		194,306	Canran cyrff dŵr dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig sy'n methu targedau ffosfforws	Nid yw data'r tueddiad ar gael	88 ar gyfer Afon Wysg 67 ar gyfer Afon Gwy
Lefel cyfartalog llygredd nitrogen deuocsid yn yr aer ($\mu\text{g}/\text{m}^3$), a fesurwyd mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn Sir Fynwy		6	Canran y bobl sy'n cytuno fod gan yr ardal leol amgylchedd glân		59.5

Lle sy'n Ffynnu ac Uchelgeisiol					
Canran y bobl sy'n fodlon gyda'u hardal leol fel lle i fyw		95	Incwm aelwyd gwario crynswth fesul pen (£)		24,081
Nifer cyfartalog fesul awr y bobl sydd yng nghanol y dref		288	Canran i) menywod ii) dynion diwaith	Nid oes data ar gael	Nid oes data ar gael
Canran adeiladau gwag yng nghanol trefi		10.9	Canran a gyflogir - menywod		75.3









Hunanasesiad Cyngor Sir Fynwy 2025-26



Mesurau tymor hirach	Tueddiad (Tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael)	Diweddaraaf	Mesurau tymor hirach	Tueddiad (Tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael)	Diweddaraaf
Effaith economaidd blynyddol twristiaeth (£)		329.8	Canran a gyflogir – dynion		83.6
Nifer twristiaid sy'n ymweld â'r sir (miliwn)		2.29	Canran gwariant y cyngor a werir mewn cadwyn gyflenwi leol drwy gontractau sector cyhoeddus	Nid oes data ar gael hyd yma	Nid oes data ar gael hyd yma
Canran y bobl sy'n mynychu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau celf, diwylliant neu dreftadaeth dair neu fwy o weithiau y flwyddyn		79	Cynnydd canran mewn defnydd llwybrau teithio llesol	Mesur newydd – nid oes data tueddiad ar gael hyd yma	4.1
Canran oedolion gyda chymwysterau ar wahanol lefelau o'r fframwaith cymwysterau cenedlaethol	Diweddariad yn Lle i Ddysgu isod				

Hunanasesiad Cyngor Sir Fynwy 2025-26









Mesurau tymor hirach	Tueddiad (Tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael)	Diweddaraf	Mesurau tymor hirach	Tueddiad (Tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael)	Diweddaraf
Lle Diogel i Fyw					
Canolrif prisiau tai o gymharu â chanolrif enillion seiliedig yn y gweithle		7.98	Nifer troseddau a gofnodwyd – troseddau rhywiol		236
Canran yr holl gartrefi yn y sir gyda graddiad effeitholrwydd ynni o 'C' neu uwch		50.45	Nifer troseddau a gofnodwyd – troseddau trefn gyhoeddus		768
Rhent wythnosol cyfartalog tai cymdeithasol yn Sir Fynwy		116.87	Cyfradd digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth		13
Amser cyfartalog (misoedd) mae aelwydydd digartref yn ei dreulio ym Mand 1 gyda dyletswydd digartrefedd cyn symud i lety sefydlog/parhaol		20.07	Canran preswylwyr sy'n teimlo'n ddiogel pan maent allan yn eu hardal leol yn ystod y i) dydd ii) nos		i) 89.5 ii) 65.4
Canran tai cymdeithasol a ddyrennir i aelwydydd digartref		40.64	Canran y rhai a gyfeirir at y gwasanaeth troseddu ieuenctid sy'n aildroseddu wedyn		22

Hunanasesiad Cyngor Sir Fynwy 2025-26





Mesurau tymor hirach	Tueddiad (Tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael)	Diweddaraf	Mesurau tymor hirach	Tueddiad (Tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael)	Diweddaraf
Cyfanswm nifer troseddau a gofnodwyd		6152	Nifer troseddau a gofnodwyd – troseddau rhywiol		236

Lle Cysylltiedig					
Canran y plant a gefnogwyd i aros i fyw gyda'u teulu (heb fod yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal)		69.3	Canran oedolion gyda dau neu fwy o fathau ymddygiad ffordd iach o fyw	Nid oes data tueddiad ar gael	93
Canran oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau sy'n teimlo'n rhan o'u cymuned		45.9	Disgwyliad bywyd iach adeg geni (menywod)		65.9
Canran y plant sy'n derbyn gofal a gefnogir i aros yn Sir Fynwy		55.7	Disgwyliad bywyd iach adeg geni (dynion)		65.9
Nifer gofalwyr a gofalwyr ifanc a gefnogir gan y tîm gofalwyr		97	Canran y bobl sy'n cytuno 'Mae pobl yn fy ardal yn dod ymlaen yn dda ac yn helpu ei gilydd'		79.1
Canran y bobl sy'n unig		12			



Mesurau tymor hirach	Tueddiad (Tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael)	Diweddaraf	Mesurau tymor hirach	Tueddiad (Tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael)	Diweddaraf
Lle sy'n Dysgu					
Nifer y gwaharddiadau parhaol a gadarnhawyd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd	(mae'r gostyngiad hwn yn ganlyniad cyflwyno panel cynhwysiant i reoli a lliniaru gwaharddiadau a dynodi dewisiadau eraill addas)	0	Sgôr Capio 9 pwynt – prydau ysgol am ddim		304.7
Cyfradd gwaharddiadau parhaol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd	(mae'r gostyngiad hwn yn ganlyniad cyflwyno panel cynhwysiant i reoli a lliniaru gwaharddiadau a dynodi dewisiadau eraill addas)	0	Canran oedolion gyda chymwysterau ar wahanol lefelau o'r fframwaith cymwysterau cenedlaethol i) dim cymwysterau		4.1
Cyfradd gwaharddiadau cyfnod penodol 5 diwrnod neu lai: i) cynradd ii) uwchradd Mwy na 5 diwrnod: iii) cynradd iv) uwchradd	Nid oes data tueddiad ar gael hyd yma	i)29.1 ii)394.0 iii)1.1 iv)9.0	Canran oedolion gyda chymwysterau ar wahanol lefelau o'r fframwaith cymwysterau cenedlaethol ii) cymwysterau lefel 2 neu uwch		91.3
Sgôr Capio 9 pwynt – pob disgybl		369.8	Canran oedolion gyda chymwysterau ar wahanol lefelau o'r fframwaith		75.5



Mesurau tymor hirach	Tueddiad (Tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael)	Diweddaraf	Mesurau tymor hirach	Tueddiad (Tueddiad Cymru mewn coch lle mae ar gael)	Diweddaraf
			cymwysterau cenedlaethol iii) cymwysterau lefel 3 neu uwch		
Sgôr Capiu 9 Pwynt - Menywod		377.9	Canran oedolion gyda chymwysterau ar wahanol lefelau o'r fframwaith cymwysterau cenedlaethol iv) cymwysterau lefel 4 neu uwch		57.4
Sgôr Capiu 9 Pwynt - Dynion		362.2	Canran dysgwyr sy'n astudio am gymwysterau a asesir yn y Gymraeg fel pwnc	Nid oes data tueddiad ar gael hyd yma	93.3%




Cymharu perfformiad gydag ardaloedd eraill

Wrth asesu perfformiad, mae'n hanfodol sicrhau y caiff cyd-destun ehangach a pherfformiad cymharol ei ystyried i gynnig gwerthusiad cynhwysfawr


Drwy ein hunanasesiad rydym wedi asesu ein cynnydd yn defnyddio mesurau lleol a chenedlaethol. Gellir cymharu rhai o'r mesurau cenedlaethol hyn gydag awdurdodau eraill ledled Cymru. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o sut ydym yn cyflawni o gymharu â rhai o'n 'cymdogion agosaf'. Y 'cymdogion' hyn yw'r awdurdodau hynny yr ydym yn rhannu ystod eang o nodweddion tebyg gyda nhw, er enghraifft natur wledig, demograffeg poblogaeth a ffactorau economaidd lleol. Efallai nad yw'r rhain bob amser yn debyg i'n cymdogion daearyddol agosaf. Caiff y detholiad o gymdogion agosaf ei seilio ar ddadansoddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n asesu ystod o ddata a thystiolaeth i sicrhau cymhariaeth ystyrlon.

Amcan: Lle Teg i Fyw

Canran y bobl sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg




Gwahaniaeth mewn cyflog cyfartalog rhwng dynion a menywod yn gweithio yn y sir (£)




Amcan: Lle Gwyrdd i Fyw

Gwastraff aelwyd gweddilliol blynyddol a gynhyrchir fesul person (kilogramau)




Canran gwastraff bwrdeisiol a anfonir i'w ailgylchu, aildefnyddio neu gompostio




Amcan: Lle sy'n Ffynnu ac Uchelgeisiol

Canran yr ymadawyr ysgol y gwyddys nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)






Canran a gyflogir (16-64 oed) - Dynion




Canran a gyflogir (16-64 oed) - Menywod




Amcan: Lle Diogel i Fyw

Cymhareb canolrif prisiau tai o gymharu â chanolrif enillion seiliedig mewn gweithle




Canran aelwydydd a gafodd eu hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref




Amcan: Lle Cysylltiedig lle mae Pobl yn Gofalu

Disgwyliad bywyd iach (menywod)




Disgwyliad bywyd iach (dynion)



Amcan: Lle sy'n Dysgu

Canran oedolion gyda chymwysterau i lefel 4 neu uwch y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol






Yr hyn y gwnaethom ei wario yn 2025/26

Yn 2025/26, y gwariant a gynlluniwyd gan y cyngor oedd £214.5 miliwn i ddarparu gwasanaethau ar gyfer preswylwyr Sir Fynwy.

Mae'r diagram yn dangos cyfran ein gwariant ar wahanol wasanaethau yn 2025/26. Mae cyfuniad o grantiau llywodraeth ganolog, treth gyngor ac ardrethi annomestig yn talu am y gwasanaethau hyn. Caiff y dreth gyngor hefyd ei defnyddio i ariannu gwasanaethau Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent a Chynghorau Cymuned.




Sut mae ein gwariant refeniw ym cymharu gydag ardaloedd eraill


Dengys y graffiau isod faint a wariwn fesul pen o boblogaeth ar rai o'n meysydd blaenoriaeth. Yn 2024/25, y flwyddyn ddiwethaf mae data cymharu ar gael, ni oedd â'r gwariant refeniw crynswth isaf fesul pen o blith pob cyngor yng Nghymru. Gwariwn lai na chyfartaledd Cymru ar wasanaethau addysg, gwasanaethau cymdeithasol a chynllunio a datblygu economaidd. Rydym wedi parhau i weithio'n galed i wneud yn siŵr fod yr arian hwn yn mynd lle mae'n cyfri. Ar gyfer 2024/25 cawsom gynnydd mewn cyllid craidd, fodd bynnag roedd ein setliad cyllideb gan Lywodraeth Cymru yr isaf fesul pen o boblogaeth ar gyfer cynghorau yng Nghymru.




Cyfanswm Gwariant Gros fesul Pen Cyngor Sir Fynwy




Gwasanaethau Cymdeithasol Gwariant Refeniw Crynswth fesul Pen



Cynllunio a Datblygu Economaidd Gwariant Refeniw Crynswth fesul Pen



Addysg Gwariant Refeniw Crynswth fesul Pen



Yr hyn a ddywedodd dinasyddion

Mae ymgyfraniad a chydweithio gyda phreswylwyr a chymunedau yn Sir Fynwy yn hanfodol i ddatblygu a darparu datrysiadau i sicrhau deilliannau a sicrhau fod preswylwyr yn ymwneud â'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Drwy ein hunanasesiad rydym wedi defnyddio barn defnyddwyr gwasanaeth a phreswylwyr i lywio ein hasesiad. Mae peth o'r gwaith ymgysylltu penodol a wnaethom i gynnwys preswylwyr eleni yn cynnwys:

Ymgysylltu ar y gyllideb: Lansiodd Cyngor Sir Fynwy ei ddrafft gynigion ar y gyllideb ar gyfer 2026-2027 ym mis Ionawr 2026. Gwahoddwyd cymunedau i roi eu barn ar y newidiadau posibl hyn mewn proses ymgynghori agored. Rhannwyd amrywiaeth o wybodaeth ar y cynigion a'u heffeithiau posibl. Cynhaliwyd digwyddiadau wyneb i wyneb i ymgynghori ar y gyllideb, yn ogystal â sesiynau cyllideb ar-lein. Ar gyfer y rhai a fethodd ymuno â'r ffrwd byw, cafodd y sesiwn ei lanlwytho ar y wefan i'w gweld ar ôl y gyllideb. Fel rhan o'r broses ymgynghori, gofynnwyd i breswylwyr hefyd rannu eu sylwadau drwy arolwg adborth ar gynigion y gyllideb, a gafodd eu rhannu ar draws ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Fe wnaeth yr adborth a gawsom hysbysu datblygu ein cynigion cyllideb terfynol.




Strategaeth Ddiwylliannol: Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector creadigol i ddatblygu Strategaeth Ddiwylliannol ar gyfer y sir. Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y byddwn yn gweithio gyda grwpiau creadigol, cymunedau ac unigolion ar draws y sir i ddathlu a hyrwyddo ein diwylliant. Drwy'r strategaeth byddwn yn gweithio i greu mwy o gyfleoedd a chysylltu gyda'r sector economaidd i sicrhau y gall y sector creadigol ffynnu. Fe wnaethom gynnal ymgynghoriad ar ein strategaeth ddrafft rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2025 i sicrhau y caiff barn preswylwyr ei chasglu a'i hystyried wrth ddatblygu'r strategaeth derfynol.

Cwynion a Chanmoliaeth gan Gwsmeriaid: Rydym yn monitro ac yn dysgu o adborth a geir gan gwsmeriaid. Caiff y rhain eu hysbysu i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio. Roedd materion a godwyd yn cynnwys pa mor hir y gallwn ei gymryd i ymateb i bobl. Nid yn unig mae hi'n bwysig delio'n effeithlon gyda chwynion, gan ymchwilio ac unioni pethau'n iawn i'r sawl sy'n achwyn lle bo angen, mae hefyd yn hanfodol dysgu ganddynt i leihau'r cyfleoedd y bydd yr un broblem yn digwydd ddwywaith. Cafwyd 19 cwyn am Gyngor Sir Fynwy gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn 2024-25, y flwyddyn ddiwethaf y mae data ar gael ar ei chyfer, gostyngiad o 29 yn ystod 2023-24. Mae Sir Fynwy yn is na lefelau cyfartalog cwynion a adroddwyd i'r Ombwdsmon ar 0.30 fesul 1,000 o breswylwyr. Mae hyn yn amrywio o 0.22 i 1.08 gyda chyfartaledd o 0.45.

Arolwg Cenedlaethol o Breswylwyr: Yn ystod hydref 2025 fe wnaethom gynnal arolwg o breswylwyr ar fywyd bob dydd yn Sir Fynwy. Dan ofal Data Cymru, roedd yr arolwg yn rhan o'r Arolwg Cenedlaethol o Breswylwyr a gynlluniwyd i gefnogi cynghorau lleol wrth gynyddu eu dealltwriaeth o berfformiad a chanfyddiad. Holwyd preswylwyr am eu profiadau yn yr ardal leol, eu barn ar wasanaethau'r cyngor a sut y gallwn ni, fel cyngor, wella pethau. Diolch i ymgysylltu gan breswylwyr, cawsom 1,064 ymateb. Rydym wedi dadansoddi canlyniadau'r arolwg i ddeall beth ddywedodd ymatebwyr am eu hardal leol, y cyngor a'u cyswllt gyda'r cyngor. Mae'r dystiolaeth o'r arolwg yn rhoi darlun llawnach i ni o sut mae pobl yn teimlo yn y sir a bydd yr adborth gwerthfawr yn helpu i hysbysu ein gwasanaethau. Mae'r canlyniadau llawn ar gael ar [Sgwrsio Am Sir Fynwy](#). Mae'r arolwg yn un dull i'n helpu i ddeall barn preswylwyr, ynghyd ag ystod adborth a gasglwyd ar draws gwasanaethau, fydd yn rhoi dealltwriaeth fwy manwl o wasanaethau'r cyngor.

Gofynnwyd cwestiynau i ymatebwyr am eu hardal leol, a chaiff rhai o'r canlyniadau allweddol eu dangos yn y graffeg isod:



Dengys yr ymatebion fod preswylwyr yn parhau i fod yn fodlon gyda'u hardal leol fel lle i fyw, cynorthwyo ei gilydd yn eu cymunedau a chefnogi eu lle lleol yn Sir Fynwy. Gwyddom nad yw hyn bob amser yn wir ar gyfer pawb, ac mae ein ffocws yn parhau ar ein hamcan yng Nghynllun Cymunedol a Chorfforaethol y cyngor i wneud Sir Fynwy yn lle teg i fyw lle cafodd effeithiau diffyg cydraddoldeb a thlodi eu gostwng.

Drwyddi draw, mae mwyafrif sylweddol o ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel yn ystod y dydd, gyda'r rhan fwyaf yn teimlo'n ddiogel ar ôl iddi nosi, er yn llai felly nag yn ystod y dydd. Mae teimladau o fod yn ddiogel yn parhau i amrywio yn ôl oedran a lle. Mae ein ffocws ar gyflawni ein amcan i Sir Fynwy fod yn lle diogel i fyw gyda phobl â chartref a chymuned lle maent yn teimlo'n ddiogel.

Soniodd ymatebwyr iau i'r arolwg am lefelau is o fodlonrwydd gyda Sir Fynwy fel lle i fyw. Mae Cynllun Datblygu Lleol newydd y cyngor yn dynodi hyn fel un o'i brif faterion, gan sicrhau fod ein cymunedau yn gynaliadwy yn gymdeithasol ac yn economaidd drwy roi lleoedd hygyrch i fyw a gweithio ynddynt a dewis ac amrywiaeth o gartrefi i gadw a denu phobl ifanc a chael cydbwysedd eto yn ein demograffiaeth heneiddiol. Gwnaethom gynydd ar gytuno gyda'r cynllun, cafodd y Cynllun Datblygu Lleol newydd ei gymeradwyo gan y cyngor ym mis Hydref 2025 a chaiff ei anfon at Lywodraeth Cymru ar gyfer archwiliad cyhoeddus. Roedd y gyfradd ymateb i'r arolwg hefyd yn is yn y grwpiau oedran iau. Rydym yn parhau â'n ffocws ar gryfhau ymgysylltu gyda phobl ifanc.

Fe wnaeth ymatebwyr hefyd fynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn eu cymuned leol. Sylweddolwn rôl hanfodol preswylwyr yn eu cymuned leol. Rydym yn ymroddedig i weithio gyda ac wrth ochr ein cymunedau, fel y gall dinasyddion gymryd rhan wrth i'r cyngor a chymunedau wneud penderfyniadau a chymryd camau gweithredu fydd yn eu galluogi i lunio eu dyfodol eu hunain.

Fe wnaethom ofyn cwestiynau am y cyngor i ddeall barn pobl ar gyflenwi gwasanaethau lleol, cyswllt gyda'r cyngor a chynrychiolaeth ddemocrataidd. Caiff y canlyniadau allweddol am y cyngor eu dangos isod:



Drwyddi draw, roedd llai na hanner yr ymatebwyr yn fodlon gyda sut mae'r cyngor yn gweithredu, ei ddulliau cyfathrebu, eu mynediad i wybodaeth a lefel yr ymddiriedaeth a deimlant yn y cyngor.

Gwerthoedd creiddiol y cyngor yw Gwaith Tîm, Agored, Teg, Hyblyg a Charedig. Rydym yn ymroddedig i gynnal y gwerthoedd hyn wrth ddarparu ein gwasanaethau ac mae'r ymatebion i'r arolwg yn dangos pwysigrwydd adlewyrchu'r egwyddorion hyn yn gyson yn holl weithgareddau'r cyngor.

Rydym wedi lansio 'Sgwrsio am Sir Fynwy' fel llwyfan ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu. Nod hyn yw rhoi gwybodaeth fwy eglur i breswylwyr ac un lle i ymweld ag ef am ymgynghoriadau ar-lein ar draws y cyngor i sicrhau nad yw preswylwyr yn colli cyfle i ymgysylltu. Cafodd Sgwrsio am Sir Fynwy hefyd ei greu i sicrhau ei bod yn rhwydd adnabod digwyddiadau wyneb yn wyneb fel cyfleoedd i bobl drafod a rhannu barn ar ymgynghoriadau ac arolygon y cyngor.

Teimlai mwy na hanner yr ymatebwyr fod y cyngor yn darparu gwasanaethau ansawdd uchel yn gyffredinol. Roedd bodlonrwydd yn amrywio yn ôl gwasanaeth, o lefelau uwch mewn rheoli gwastraff i lefelau is mewn meysydd gwasanaeth eraill. Soniodd ymatebwyr am lefelau bodlonrwydd uwch yn gyffredinol gyda'u profiad o brosesau penodol y cyngor, tebyg i wneud taliadau a gwneud ceisiadau.

Mae Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol y cyngor yn gosod yr amcanion y ceisiwn eu cyflawni i sicrhau ein canlyniadau ar gyfer y sir a gwella gwasanaethau. Mae gennym fframwaith i adolygu perfformiad ein holl wasanaethau. Rydym yn parhau i gryfhau sut y defnyddiwn sylwadau preswylwyr a gwasanaethau wrth asesu ein perfformiad. Bydd meysydd gwasanaeth yn defnyddio'r ymatebion o'r arolwg i lywio eu cynllunio a gwerthuso eu perfformiad o gymharu â'r amcanion a nodwn yn y cynllun.

Ymgysylltu â staff



Fel rhan o'n proses i gasglu'r hunanasesiad, fe wnaethom gynnal gweithdai cyfarwyddiaeth a gwasanaeth galluogi i roi cyfle i staff fwydo'n uniongyrchol i'r hunanasesiad drwy ddynodi eu cryfderau eu hunain a meysydd i'w datblygu. Cafodd y sawl a fynychodd y gweithdy becynnau tystiolaeth, a baratowyd o ffynonellau gwybodaeth presennol tebyg i adroddiadau craffu, adborth rheoleiddwyr allanol a chynlluniau busnes gwasanaeth, a chawsant eu hwyluso i hunanasesu eu perfformiad. Casglwyd amrywiaeth o dystiolaeth o'r gweithdai o ran llwyddiant a hefyd feysydd i'w datblygu yn gysylltiedig â'n nodau strategol a'n swyddogaethau galluogi, ond hefyd ar sut i gryfhau'r broses hunanasesu.

Rydym hefyd wedi defnyddio tystiolaeth a gasglwyd o amrywiaeth o ddigwyddiadau staff a grwpiau. Mae hyn yn cynnwys y Gweithdai Arweinwyr Pobl a gafodd ei ail-lansio a sesiynau holi a gwybodaeth timau a gynhelir wyneb i wyneb yng ngweithleoedd pobl. Fe wnaethom hefyd gwblhau arolwg staff newydd i'n galluogi i ddeall faint o gysylltiad mae pobl yn ei deimlo gyda'r sefydliad. Mae defnyddio'r sesiynau hyn, rhwydweithiau, cyfathrebu digidol, arolygon a dolenni adborth i uwch reolwyr, wedi ymestyn hyd cyswllt gyda'r gweithle.

Busnesau

Rydym wedi parhau i ymgysylltu gyda busnesau drwy ein system newydd ar reoli perthynas gyda chwsmeriaid sy'n gweithredu fel cronfa ddata ar gyfer busnesau Sir Fynwy a dull i hyrwyddo'r gwasanaethau cyngor ac arweiniad y gallwn eu rhoi i fusnesau cyn-cychwyn a busnesau presennol. Mae ein tîm Economi, Cyflogaeth a Sgiliau yn parhau i wella ein cysylltiadau gyda busnesau ac wedi helpu i wella cysylltiadau adborth gyda busnesau i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y sgysiau a gynhelir ac y gallwn wella ein gwasanaeth fel canlyniad. Rydym wedi ail-sefydlu ein Fforwm Busnes sy'n ein galluogi i ehangu ein rhwydweithiau a chryfhau perthynas a dulliau adborth gyda busnesau lleol. Bydd yr adborth hwn yn parhau i lywio ein hunanasesiad.

Undebau Llafur

Rydym yn ymgysylltu'n dda gydag Undebau Llafur i gyflawni ein canlyniadau. Rydym wedi eu hysbysu am y broses a gynhaliwn i gwblhau ein hunanasesiad a rhannu ein canfyddiadau dechreuol gyda nhw fel rhan o'r broses hunanasesu. Rydym wedi datblygu Adroddiad Dyletswydd Partneriaeth Cymdeithasol 2025, yn nodi sut y byddwn yn adeiladu ar ymarfer presennol ac yn cydweithio gydag undebau llafur, yn unol â gofynion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

Yr hyn a ddywedodd Rheoleiddwyr ac Arolygwyr

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n rheoleiddwyr ac arolygwyr i gael sicrwydd ansawdd i'n gweithgareddau gan fod hyn yn hanfodol i sicrhau gwelliant. Caiff eu hadborth ei werthfawrogi, a defnyddiwn eu hasesiadau i'n helpu i ganolbwyntio ar y pethau mae angen i ni eu gwella ar draws y cyngor.

Bob blwyddyn, mae Archwilio Cymru yn cynnal Cynllun Archwilio yn nodi'r gwaith y bwriadant ei wneud yn y cyngor. Maent wedi cynnal amrywiaeth o archwiliadau yn ystod y flwyddyn fel rhan o'r cynllun, yn cynnwys:

- Trefniadau gwrth-dwyll: Canfu'r adroddiad fod y cyngor yn meithrin diwylliant gwrth-dwyll ac yn cryfhau ei ymagwedd at hyfforddiant, fodd bynnag mae'n cydnabod fod camau pellach y gall eu cymryd. Nid yw'r cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf o'i ddadansoddeg data ar hyn o bryd a gallai gryfhau ei drefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth.
- Trefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau: Canfu'r adroddiad nad oes gan y Cyngor drefniadau cyson ar waith ar draws y sefydliad i sicrhau gwerth am arian. Er fod gwasanaethau unigol yn arddangos gweithredu cadarnhaol, mae angen dull gweithredu awdurdod cyfan i sicrhau cysondeb.
- Gweithredu argymhellion Archwilio Cymru i wella dull digidol y Cyngor: Canfu'r adroddiad fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da gydag argymhellion y strategaeth ddigidol a bod ei threfniadau hirsefydlog



yn cefnogi trosolwg o argymhellion archwilio allanol. Ni roddodd Archwilio Cymru unrhyw argymhellion ar gyfer gwella.

- Gwaith Sicrwydd ac Asesu Risg yn y cyngor yn ystod 2025/26. Fe wnaeth hyn adolygu'r trefniadau a roddodd y cyngor ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau yn unol â dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff yr asesiad hefyd ei ddefnyddio ein cynllunio gwaith ar gyfer blynyddoedd y dyfodol.

Rydym wedi datblygu ymatebion i'r argymhellion yn yr adroddiadau hyn a chaiff y cynnydd wrth eu cyflawni ei adrodd yn rheolaidd i Bwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio y cyngor. Mae adroddiadau Archwilio Cymru ar gael i'w lawrlwytho o'u gwefan (www.archwiliocymru/cyhoeddiadau). Mae hyn yn cynnwys adroddiadau cenedlaethol ar lywodraeth leol.

Cawsom Arolwg Estyn ar Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol ym mis Tachwedd 2025. Dangosodd yr arolwg fod dull cydlynol gydag arweiniad strategol at wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc. Canfu'r arolwg y gwelliannau a wnaed yn null gweithredu'r awdurdod i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol a meithrin amgylchedd gynhwysol, ynghyd â gweithio partneriaeth cryf sy'n galluogi mynd i'r afael yn brydlon â rhwystrau i wella. Fe wnaeth hefyd ddynodi meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach, yn cynnwys sicrhau cysondeb mewn prosesau gwerthuso i werthuso effaith gwaith yr awdurdod lleol yn fwy effeithlon a gwella presenoldeb mewn ysgolion, yn arbennig ar gyfer disgyblion oedran uwchradd. Caiff cynnydd wrth drin yr argymhellion hyn eu fonitro o fewn Adroddiad Cyfarwyddwr Strategol Plant, Dysgu, Sgiliau ac Economi. Mae adroddiad llawn Estyn ac adroddiadau eraill gan Estyn yn ymwneud â Sir Fynwy ac ysgolion yn y sir ar gael yn Cyngor Sir Fynwy/Monmouthshire County Council - Estyn.

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru wiriad gwella ar wasanaethau oedolion Cyngor Sir Fynwy ym mis Ebrill 2025, gan ddilyn eu Harolwg Gwerthuso Perfformiad a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2022. Fe wnaeth yr arolwg asesu'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â meysydd i'w gwella a ddynodwyd yn flaenorol. Canfu'r adroddiad fod cryfderau allweddol wrth i ni sefydlu dull gweithredu seiliedig ar le a gweithredu'r strategaeth gomisiynu, gwell argaeledd gofal yn y cartref a datblygu dulliau ailalluogi yn gostwng neu liniaru'r angen am gymorth parhaus. Mae meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach yn cynnwys yr angen i wella adnabod risg, ymgysylltu â staff a chyfathrebu a chymorth i ofalwyr. Rydym wedi datblygu ymateb i fynd i'r afael â'r meysydd a ddynodwyd ar gyfer gwella.

Mae adroddiad llawn yr arolwg ac adroddiadau arolwg eraill gan Arolygiaeth Gofal Cymru am wasanaethau cymdeithasol Sir Fynwy ar gael ar www.arolygiaethgofal.cymru.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae gan y gyngor ymrwymiad hirsefydlog i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae ein pedwerydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a gynhyrchwyd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn nodi amcanion y cyngor i sicrhau ein bod yn sicrhau gwell deilliannau ar gyfer pobl gyda nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn amlwg yn gydnaws gyda'r dystiolaeth a roddwyd gan yr Asesiad Llesiant a'r dystiolaeth a ddarparwyd gan adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol "A yw Cymru'n Decach 2023".

Yn ogystal â hyn, mae'n bwysig i ni gan mai dyma'r peth iawn i'w wneud. Rydym yn cynhyrchu adroddiadau monitro blynyddol sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd ar y cynllun gweithredu yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn rhoi tystiolaeth o arfer da yn adrannau'r cyngor. Mae hyn ar gael [yma](#).

Y Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn ganolog i'r nodau a gyflwynwyd fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn arbennig am ein cyfraniad i Gymru gyda diwylliant bywiog a lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig i nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050.



Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg sy'n gysylltiedig â'r Mesur yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar gynghorau i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, i hyrwyddo'r Gymraeg ac i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 176 safon sy'n gymwys i'r cyngor. Mae hyn yn her sylweddol, ond rhoddwyd systemau ar waith i gydymffurfio. Mae gennym Strategaeth Iaith Gymraeg ar gyfer 2022-2027, sy'n dynodi gweledigaeth o sut y bydd yr iaith yn edrych yn Sir Fynwy mewn pum mlynedd ac sy'n cynnwys targedau i helpu cyflawni hynny. Rydym yn paratoui adroddiadau monitro blyneddol sy'n asesu ein cynnydd ar ymrwymïadau'n ymwneud â'r Gymraeg dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg. Medrir eu gweld yma: [Sir Fynwy a'r Iaith Gymraeg - Monmouthshire](#).

Y Lluoedd Arfog

Rydym wedi cymryd [Ymrwymiad Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog](#) i annog cefnogaeth ar gyfer y gymuned Lluoedd Arfog sy'n gweithio ac yn byw yn Sir Fynwy ac i gydnabod a chofio aberth cymuned y Lluoedd Arfog, yn arbennig y rhai a roddodd y mwyaf. Mae hyn yn cynnwys personél yn y Gwasanaeth a chyn aelodau, eu teuluoedd a gweddion ledled Sir Fynwy. Rydym yn ymroddedig i weithio gydag elusennau, busnesau lleol, cymunedau ac unigolion i sicrhau y caiff personél y Lluoedd arfog a'u teuluoedd, yn ogystal ag aelodau wrth gefn a chyn-aelodau, eu cefnogi.

Rydym wedi sefydlu Grŵp Lluoedd Arfog Sir Fynwy i sicrhau y caiff anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog eu cynnwys mewn polisiâu perthnasol, strategaethau a darpariaeth gwasanaeth dydd i ddydd mewn ffordd gyson ac ymarferol.



Atodiad 1 – Proses hunanasesiad

Deddfwriaeth

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhoi fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethiant a pherfformiad. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor yng Nghymru barhau i adolygu i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw i ba raddau y mae'n gweithredu ei swyddogaethau yn effeithiol; ei fod yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol; a bod ei lywodraethiant yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r rhain.

Mae'r darpariaethau perfformiad a llywodraethiant yn y Ddeddf wedi'u gosod yng nghyd-destun y ddyletswydd lles yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n nodi diben cyffredin sy'n rhwymo'n gyfreithiol ar gyfer cyrff cyhoeddus i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Bob blwyddyn mae'n rhaid i gynghorau gyhoeddi adroddiad yn gosod casgliadau'r hunanasesiad bob blwyddyn ariannol. Caiff hunanasesiad ei ategu gan asesiad perfformiad panel unwaith mewn cylch etholiadol, gan roi cyfle i chwilio am ddealltwriaeth allanol (ac eithrio gan archwilywyr, rheoleiddwyr neu arolygwyr) ar sut mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad.

Pam?

Mae hunanasesiad yn ffordd o werthuso, yn feirniadol ac yn onest, y sefyllfa bresennol er mwyn gwneud penderfyniadau ar sut i sicrhau gwelliant i'r dyfodol. Mae'n ymwneud â'r cyngor i fod yn hunanymwybodol, yn deall a yw'n cyflawni'r canlyniadau cywir, ac yn herio'i hun i wella'n barhaus. Mae angen iddo gael ei ymwreiddio, gan fod hunanasesiad effeithlon yn helpu'r cyngor i ddysgu a sicrhau gwelliant cynaliadwy yn barhaus, a gwell canlyniadau i ddinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a'i weithlu ei hun.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi nodi egwyddorion drafft ar gyfer hunanasesiad i gynghorau er mwyn sicrhau bod ganddynt drefniadau mewn lle sy'n:

- dangos hunan ymwybyddiaeth sy'n deillio o ddadansoddiad, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau;
- cael eu perchnogi a'u harwain ar lefel strategol ac nad ydynt yn ymarfer cydymffurfio;
- datblygu ymhellach ddiwylliant o her er mwyn hwyluso gwelliant fel rhan o broses barhaus;
- cael eu hintegreiddio fel rhan o brosesau cynllunio, perfformiad a llywodraethu corfforaethol y cyngor; a
- galluogi asesiad ledled y sefydliad yn hytrach nag asesiad o wasanaethau unigol.

Bydd datblygu'r diwylliant hwn ymhellach a sefydlu ffordd o feddwl gwerthusol yn bwynt datblygu allweddol trwy barhau i gynhyrchu yr adroddiad hunan-asesu.

Proses

Mae'r cyngor wedi datblygu proses i ymgymryd â'i hunanasesiad o dan y Ddeddf, gan asesu perfformiad ym mlwyddyn ariannol 2025/26. Prif elfennau'r broses a'r amserlen yw:


Ebrill - Mai	Mai - Mehefin	Mehefin	Gorffennaf - Awst	Medi
Gwaith desg i gasglu tystiolaeth	Gweithdai hunanasesiad cyfarwyddiaethau	Drafftio adroddiad hunanasesiad a chyflwyno amcanion i'r Pwyllgor Craffu	Mireinio'r adroddiad ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid drwy Fforwm Sgwrsio	Adroddiad drafft i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio a chytuno



		Perfformiad a Throsolwg		ar yr Hunanasesiad yn unol â phroses y cyngor.
--	--	-------------------------	--	--

Mae'r amserlen hon yn sicrhau y gall yr hunanasesiad lywio a chael ei lywio gan gyfeiriad polisi'r cyngor a sut mae'n defnyddio ei adnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol, yn enwedig y broses o bennu'r gyllideb.

Mae tystiolaeth werthusol i lywio'r asesiad wedi'i lunio ar lefel cyfarwyddiaeth. Cafodd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ei chasglu drwy ddefnyddio gwybodaeth sydd eisoes yn cael ei dal yn gorfforaethol mewn ffordd graff; mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, y Datganiad Llywodraethiant Blyneddol, adroddiadau archwilio ac arolygu, a chynlluniau busnes ar lefel gwasanaeth.



Mae'r dystiolaeth a gasglwyd wedi cael ei harchwilio ymhellach, a'i herio lle bo angen, mewn gweithdai hunanasesiad cyfarwyddiaethau ac ar sail swyddogaeth galluogi, i benderfynu a yw amcanion (deilliannau) y cyngor yn cael eu cyflawni.

Gweithdai hunanasesiad

Gweithdai Cyfarwyddiaethau	Gweithdai swyddogaethau galluogi
Dysgu, Sgiliau ac Economi	Pobl
Gofal Cymdeithasol ac Iechyd	Rheoli Asedau
Lle	Cyllid
Seilwaith	Caffael
Cwsmeriaid, Diwylliant a Llesiant	Digidol a Data

Hwyluswyd y gweithdai trwy'r cwestiynau canlynol:



- Pa mor dda ydyn ni yn cyflawni'r deilliannau yr ydym wedi cytuno arnynt? (Amcanion y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol)
- Sut ydyn ni'n gwybod? (Tystiolaeth)
- Pa mor effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio i gyflawni ein blaenoriaethau? (Galluogwyr)
- Pa mor effeithiol yw'r cyngor wrth weithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ar y deilliannau y cytunwyd arnynt? (Gweithio mewn partneriaeth)
- Beth allem ni ei wneud yn well? (Camau gweithredu – gan gynnwys adolygiad o gamau gweithredu o'r adroddiad blaenorol)

Casglwyd y dystiolaeth lawn a'r casgliadau o'r gweithdai a bydd cyfarwyddiaethau a swyddogaethau galluogi yn eu defnyddio fel sail i'w cynlluniau busnes gwasanaethau.

Yn dilyn y gweithdai, cafodd y dystiolaeth ei hadolygu, ei herio ymhellach a'i chynnwys mewn hunanasesiad gwerthusol ar lefel gorfforaethol. Cafodd hyn ei integreiddio â'r gofyn i'r cyngor roi adroddiad ei gynnydd o ran cyflawni ei amcanion llesiant ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol (2025/26) dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r adroddiad wedi ei strwythuro dan y penawdau hyn:

- Deall ein lle lleol
- Canlyniadau (cynnydd o ran y meysydd i'w datblygu):
 - Pa mor dda ydyn ni yn cyflawni'r canlyniadau yr ydym wedi cytuno arnynt?
 - Sut ydyn ni yn gwybod?
 - Meysydd i'w datblygu
- Swyddogaethau galluogi
 - Cynllunio corfforaethol, perfformiad a rheoli risg
 - Cynllunio ariannol
 - Cynllunio gweithlu
 - Caffael
 - Asedau
 - Digidol a Data
 - Democratiaeth a Chraffu
- Ein gwaith gyda phartneriaid
- Ein Camau Gweithredu (gan gynnwys cynnydd mewn cymhariaeth â chymau gweithredu blaenorol)

Bydd Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg y cyngor yn craffu ar adroddiad yr hunanwerthusiad. Bydd drafft o'r adroddiad hunanasesiad ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio i adolygu'r drafft adroddiad yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth. Caiff yr hunanasesiad ei gyflwyno i'w gymeradwyo mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn.



Esbonio'r templed amcanion		Atodiad 2
Mae hyn yn rhoi ein asesiad o berfformiad ar yr amcanion yn defnyddio dull sgorio'r gwerthusiad.		
Pam fod ein ffocws ar hyn?		
Mae ein ffocws ar yr amcan hwn i wella llesiant yn Sir Fynwy.		
Pa mor dda ydyn ni'n cyflawni y canlyniadau y gwnaethom gytuno arnynt?		Sut ydyn ni yn gwybod?
Rhes 1 – Mae hyn yn nodi ‘Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni’ o Gynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28		
Colofn 1 – Mae hyn yn rhoi'r hunanasesiad o'n perfformiad yn ystod 2025/26 yn seiliedig ar ‘yr hyn rydym eisiau ei gyflawni’		Colofn 2 – Y ffynonellau tystiolaeth yr ydym wedi eu defnyddio i lywio ein hasesiad
Meysydd pellach i'w datblygu a ddynodwyd drwy ein hunanasesiad 2025/26		
Mae'r rhain yn ganlyniadau penodol o'r hunanasesiad sy'n hysbysu ein cynllun gweithredu.		

Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol				
Mae hyn yn rhoi esboniad o sut mae ein gweithgaredd yn cyfrannu at nodau llesiant a ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hefyd yn dynodi amcan(ion) llesiant y cyngor a osodwyd fel rhan o'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol ym mis Ebrill 2023.				
Mesurau cynnydd				
Mesur	Blaenorol	Diweddaraf	Targed ar gyfer 2025/26	Sylwadau
Mae hyn yn rhoi diweddariad yn defnyddio fframwaith mesur y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol	Y data blaenorol yw 24/25 os na nodir fel arall	Y data diweddaraf yw 25/26 os na nodir fel arall	Dyma'r targed y gwnaethom ei osod ar gyfer 25/26	Unrhyw esboniad pellach ar y mesur perfformiad